

Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

# 2014/15

## Adroddiad a Datganiadau Ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

Rhif elusen 1034245



# Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad Blynyddol:	
• Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr	2
o Datganiad Llywodraethu Blynyddol	4
• Adroddiad Cynaliadwyedd	27
• Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol	32
• Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu	34
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Ymddiriedolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru	35
Datganiadau ariannol:	
• Datganiad o weithgareddau ariannol	37
• Mantolen	38
• Datganiad llif arian	39
• Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol	40
Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol (nad yw'n rhan o'r datganiadau ariannol):	
• Grantiau	63



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf laith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015  
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Manylion cyfeiriol a gweinyddol

Ymddiriedolwyr

Aelodau o'r Cyngor sydd wedi gwasanaethu er 1 Ebrill 2014 oedd:

		Ymbresenoli mewn cyfarfodydd yn 2014/15			
		Y Cyngor	Y Pwyllgor Archwilio	Y Pwyllgor Cyfalaf	Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol
		Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:			
		6	5	5	2
Yr Athro Dai Smith, Cadeirydd	(c)	5.5			Cadeirydd Pwyllgor 2
Dr Kate Woodward, Is-gadeirydd	(d)	6			
Dr John Geraint	(a)(c)	5	Cadeirydd Pwyllgor 5		2
Michael Griffiths OBE	(a)	4	3		
Melanie Hawthorne		5.5			
Dr Lesley Hodgson	(a)	5.5	3		
Margaret Jervis MBE DL	(c)	6			2
Marian Wyn Jones		4.5			
Andrew Miller		5			
Osi Rhys Osmond (hyd 6 Mawrth 2015)	(ch)	2/5			
Richard Turner		5			
Alan Watkin	(b)	5		5	
Yr Athro Gerwyn Williams	(b)	6		Cadeirydd Pwyllgor 5	
John C Williams	(b)	6		4	
<i>Mynychu aelodau <b>annibynnol</b> o'r Pwyllgorau:</i>					
Gareth Jones	(a)		4		
Phillip Westwood (Y Pwyllgor Archwilio hyd 22 Hydref 2014)	(a)(c)		2/3		2
Ruth Cayford (o 13 Chwefror 2015 ymlaen)	(b)			1/1	
Mark Davies	(b)			4	
Roland Wyn Evans	(b)			4	
Alan Hewson	(b)			4	

- (a) Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
- (b) Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf
- (c) Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol
- (ch) Aelod o Bwyllgor Celf Cymru ym Miennale Fenis

Yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor mae aelodau o'r Cyngor ac aelodau annibynnol o'r Pwyllgorau'n datgan budd o ran bod yn gyfarwyddwyr, yn aelodau o fyrddau rheoli (neu eu cyfateb) neu gyflogaeth a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau parthed Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r gofrestr o fuddiannau Aelodau o'r Cyngor ac Aelodau annibynnol o'r Pwyllgorau ar gael i'w gweld gan y cyhoedd drwy wneud apwyntiad mewn unrhyw un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Datgelir pob trafodyn ariannol rhwng yr aelodau a'r Cyngor yn nodyn 24 yn y datganiadau ariannol, *Trafodion â phartion cysylltiedig*.

*Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu*

Nicholas Capaldi

*Swyddfeydd*

*Y Canolbarth a'r Gorllewin:*  
 Y Mwnt  
 18 Stryd y Frenhines  
 Caerfyrddin  
 SA31 1JT

*Y Gogledd:*  
 Parc y Tywysog II  
 Rhodfa'r Tywysog  
 Bae Colwyn  
 LL29 8PL

*Y De*  
*a'r swyddfa genedlaethol:*  
 Plas Bute  
 Caerdydd  
 CF10 5AL

*Archwilydd*

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
 Swyddfa Archwilio Cymru  
 24 Heol y Gadeirlan  
 Caerdydd  
 CF11 9LJ

*Archwilwyr mewnol*

Partneriaeth Atebolrwydd  
 Cyfyngedig Deloitte  
 5 Sgwâr Callaghan  
 Caerdydd  
 CF10 5BT

*Cyfreithwyr*

Partneriaeth Atebolrwydd  
 Cyfyngedig Geldards  
 Tŷ Dumfries  
 Plas Dumfries  
 Caerdydd  
 CF10 3ZF

*Bancwyr*

Y Banc Cydweithredol  
 16-17 Stryd Fawr  
 Caerdydd  
 CF10 1AX

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r datganiad llywodraethu hwn yn gyfrifoldeb personol i mi, Nicholas Capaldi. Mae'n disgrifio trefniadau llywodraethu Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hefyd yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau am sicrhau ein bod yn cynnal ein busnes, o ran gweithgarwch y trysorlys a'r loteri, yn unol â'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys darparu'r sicrwydd angenrheidiol ein bod, a ninnau'n sefydliad, yn glynu at y safonau cywir a sefydlu'r trefniadau diogelu angenrheidiol i amddiffyn y defnydd o arian y cyhoedd. Esboniaf sut y cyfrifyddir yn iawn am yr arian hwn a'i ddefnyddio'n gynnil, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni ein cynlluniau a'n blaenoriaethau.

## Am Gyngor Celfyddydau Cymru

Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994 a nod ei fodolaeth yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru. Mae'n gwneud hyn er budd pobl ledled Cymru ac er mwyn cefnogi celfyddydau Cymru yn rhyngwladol.

Rydym hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn Ddosbarthwr y Loteri Genedlaethol ac yn elusen gofrestredig (rhif 1034245).

Disgrifia ein Siarter Frenhinol ein hamcanion. Dyma'r amcanion:

- datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u hymarfer;
- cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;
- gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; a,
- chydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill Cymru a Chynghorau Celfyddydau eraill Prydain, i gyflawni'r amcanion hyn.

Mae copi o'n Siarter Frenhinol i'w gael ar ein [gwefan](#).

## Y fframwaith cyfreithiol

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd cyfreithiol sydd wedi'i bennu a'i reoleiddio'n ofalus. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i Ddirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gweithredwn mewn fframwaith a noda'r telerau a'r amodau y glyna Gweinidogion Cymru atynt wrth roi inni ein harian cymorth grant ac sy'n nodi sut y gallwn ei ddefnyddio. Megis cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae'n rhaid inni hefyd lynu at y gofynion sydd yn nogfen arweiniol y Llywodraeth, *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

A ninnau'n ddsbarthwr arian y Loteri dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd), rydym yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol Prydain dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cawn ein cyfarwyddiadau ariannol oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a'n cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn nodi sut y bydd yn rhaid inni weithredu o ran gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

Mae'n rhaid inni gyfrifyddu am ein gweithgarwch dosbarthu arian y Loteri ar wahân i weddill ein gwaith ac mae gennym drefniadau priodol ar waith i sicrhau y cynhyrchwn ddwy set o gyfrifon cyhoeddedig. Mae ein cyfrifon Dosbarthu'r Loteri yn cael eu harchwilio dan drefniant gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol.

A ninnau'n elusen, mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Deddfau'r Elusennau 1960, 2006 a 2011. Felly, dilynwn arweiniad a gyflwynir gan y Comisiwn Elusennau, gan weithredu'n unswydd i gyflawni ein hamcanion elusennol a siartredig.

Mae'r gweithgareddau yr ydym yn eu gwneud mewn cysylltiad â'n *Cynllun Casglu* yn ddarostyngedig i Ddeddf Credyd y Defnyddwyr ac i'r arweiniad sy'n cael ei gyhoeddi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rydym wedi dylunio ein systemau, ein prosesau a'n rheolaethau i gymryd i ystyriaeth y gwahanol

gyfrifoldebau hyn. Yn y fframweithiau hyn rydym yn gwneud penderfyniadau annibynnol o ran cyfeiriad strategol y sefydliad, ariannu grantiau a phenderfyniadau ariannol eraill.

Petai'r angen yn codi, mae'r canlynol yn gallu ymchwilio i fusnes y Cyngor: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu; y Comisiwn Elusennau; y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru.

### Ein trefniadau Llywodraethu

Rydym yn cael ein llywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr – y Cyngor – sy'n cynnwys Cadeirydd a hyd at 17 o aelodau annibynnol eraill a phenodir un ohonynt yn Is-gadeirydd. Daw pob Ymddiriedolwr ag arbenigedd a gwybodaeth i'r broses o arolygu a datblygu ein gweithgareddau. Ar ddiwedd Mawrth 2015, cynhwysai ein Cyngor Gadeirydd a deuddeg aelod.

Nodwn gyda thristwch mawr farwolaeth yr aelod o'r Cyngor, Osi Rhys Osmond, ym Mawrth 2015. Bu'n aelod o'r Cyngor er 2010 a siriolodd a bywiogodd drafodaethau'r Cyngor gyda'i gyfraniadau deifiol, angerddol a ffraeth. Cadeiriodd Osi hefyd Bwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis. Mawr oedd ei gyfraniad at gelfyddydau Cymru. Bydd colled ddybryd ar ei ôl.

Penodir ein Hymddiriedolwyr gan y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth drwy broses ddewis agored yn unol ag egwyddorion Nolan. Gwneir penodiadau fel rheol am gyfnod o dair blynedd a gellir eu hadnewyddu am fwyafswm o ddau gyfnod o dair blynedd ychwanegol. Telir Cadeirydd y Cyngor ar raddfa a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae pob Ymddiriedolwr arall yn rhoi o'i amser a'i arbenigedd yn wirfoddol. Serch hynny, cânt eu had-dalu am dreuliau parod a ddaw yng nghwrs busnes y Cyngor. Mae crynodeb o hyn yn nodyn 9b o'r datganiadau ariannol hyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ein cyfeiriad strategol ac am reoli ein sefydliad. Mae'n gyfrifol am sicrhau, drwof fi, y Prif Weithredwr, ein bod yn gweithredu yn unol â'r fframwaith polisi sy'n cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru a'n bod

yn bodloni sawl atebolrwydd gwahanol arall y mae'n rhaid inni eu cyflawni, fel y disgrifir hwy uchod. Ceidw'r Cadeirydd mewn cysylltiad cyson â'r Dirprwy Weinidog. A chyferfydd y Prif Weithredwr yn ffurfiol â swyddogion y Llywodraeth yn chwarterol i roi iddynt wybod am y newyddion diweddaraf am gyflawni'r gwaith.

### Penderfynu

Ac yntau'n gorff penderfynu eithaf y sefydliad, mae aelodau o'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol ar bolisi corfforaethol, llunio ein Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol ac unrhyw newidiadau mawrion i delerau ac amodau gwasanaeth y staff. Hwyl hefyd sy'n pennu'r gyllideb flynyddol, penderfynu ar ddyraniad blynyddol y grantiau i sefydliadau sy'n cael arian refeniw a chymeradwyo pob grant dros £50,000 (neu dros £250,000 yn achos prosiectau cyfalaf gydag arian y Loteri). Dirprwywyd y penderfyniadau ar grantiau sy'n is na'r trothwyon hyn i aelodau awdurdodedig o'r staff ar gyfer grantiau ac i'r Pwyllgor Cyfalaf ar gyfer prosiectau cyfalaf.


I gefnogi ei waith, penododd y Cyngor dri phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol. Dyma hwy: Archwilio; Cyfalaf; a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol. Mae gan y Cyngor hefyd bwyllgor ymgynghorol ad hoc i'w gynghori ar brosiect Cymru yn Fenis, a thri grŵp monitro mewnol sydd, drwy gyfrwng yr Uwch Tîm Rheoli, yn estyn cymorth i'r Cyngor wrth gyflawni ei gyfrifoldebau.

Cynnwys pob pwyllgor aelodau o'r Cyngor (y gweithreda un ohonynt yn gadeirydd) ac aelodau annibynnol o'r pwyllgor a benodir drwy broses ddewis agored oherwydd eu sgiliau a'u profiad. Gweithreda pob pwyllgor dan gylch gorchwyl penodol. Cewch gopïau o'r rhain ar ein [gwefan](#). Adolygir y cylchoedd gorchwyl yn flynyddol.

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor ac o bob Pwyllgor yn mynd drwy broses sefydlu sy'n briodol i'w swyddogaeth a chaiff ei annog i barhau â'i ddatblygiad yn ystod amser ei benodiad.



## Strwythur ein Llywodraethu



Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd ein llywodraethu, ein rheoli perygl a'n trefniadau rheoli mewnol. Mae'n craffu ar reolaeth a gweinyddiaeth y sefydliad i brofi a weithredir y prosesau a gweithdrefnau i'r safon uchel y mae'r Cyngor yn ei disgwyl.

Mae'r Pwyllgor Cyfalaf yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor ynghylch datblygu polisi ar bob agwedd ar ddatblygu cyfalaf, gan gynnwys blaenoriaethau ariannu a chynlluniau. Mae Cyngor yn dirprwyo i'r Pwyllgor yr awdurdod i wneud penderfyniadau ariannu ar grantiau cyfalaf y loteri o £50,001 i £250,000 a gwneud argymhellion ar grantiau cyfalaf mwy i'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro prosiectau byw a chynghori'r Cyngor arnynt.

Mae gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol gyfrifoldeb am gytuno faint o dâl a gaiff y Cadeirydd yn y cyfyngiadau a bennir gan Weinidogion Cymru; am bennu amcanion blynyddol y Prif Weithredwr ac adolygu ei berfformiad; am benodi i swyddi uwch yn y gweithlu; ac am oruchwyllo a monitro materion Adnoddau Dynol ar ran y Cyngor.

Darpara pob Pwyllgor, fel mater o gwrs, gofnodion pob cyfarfod i'r Cyngor i'w trafod ac i adrodd

arnynt. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol sy'n crynhoi ei waith.

Ceir manylion o aelodaeth y Cyngor a'r tri phwyllgor hyn, gyda manylion mynychu'r aelodau yn y cyfarfodydd yn adran y *manylion cyfeiriol a gweinyddol* ar ddechrau'r Adroddiad Blynyddol hwn gan yr Ymddiriedolwyr.

Arweinir yr Uwch Tîm Rheol gan y Prif Weithredwr gyda chefnogaeth pum Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol bob un am agweddau penodol ar ein gwaith. Mae rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a nodyn 9 o'r datganiadau ariannol.

Roedd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis yn gyfrifol am ddatblygu a goruchwyllo trefnu ein presenoldeb ym Miennale Celf Fenis 2015.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynasom drydydd grŵp monitro mewnol – y Grŵp Monitro Datblygiad Cynaliadwy – a oedd, gyda Grŵp Monitro'r Cydraddoldebau Strategol a Grŵp Monitro'r Gymraeg, yn gymorth i yrru ymlaen agenda'r Cyngor yn y meysydd hyn. Derbyniodd y Cyngor ddiweddariadau chwarterol oddi wrth bob grŵp.

Cawn gefnogaeth oddi wrth ein Hymgyngorwyr Cenedlaethol yn ein gwaith a chynigiant eu hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol. Cyfranna



eu gwybodaeth a'u cymorth arbenigol at ddatblygu polisi, asesu ceisiadau am grant a chyngor i swyddogion. Penodir hwy drwy broses ddewis agored.

## Hybwn werthoedd llywodraethu da

Rydym yn cadw at saith Egwyddor yr Arglwydd Nolan ar gyfer **Bywyd Cyhoeddus** ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob un o'n gweithwyr, ein Hymddiriedolwyr, aelodau o'n Pwyllgorau a'n Hymgyngorwyr Cenedlaethol yn deall a chymhwyso'r Egwyddorion hyn ac yn glynu wrthynt.

I gefnogi hyn, mae gennym [God yr Ymarfer Gorau](#) sy'n fodd i sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion wedi'u diffinio'n glir. Mae hefyd yn cynnwys y safonau o briodoldeb a ddisgwylir y dylai aelodau a'r staff lynu wrthynt. Cafodd y Cod ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn mynnu bod pob aelod o'r Cyngor, pob aelod o bob Pwyllgor a phob un o'n Hymgyngorwyr Cenedlaethol a phob aelod o'n staff yn llenwi **Datganiad** blynyddol sy'n datgan Budd a sicrhau nad oes oedi wrth roi gwybod inni am unrhyw newidiadau perthnasol yn eu hamgylchiadau. Mae cofrestr fudd yr Aelodau o'r Cyngor a'r Pwyllgorau a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol ar gael i'r cyhoedd gael ei gweld, o wneud apwyntiad, ymhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Ymgwymerodd y Cyngor, a phob un o'n Pwyllgorau, ag adolygiad hunanasesu o berfformiad. Ar y cyfan, roedd y canfyddiadau o'r gwerthusiadau hyn yn gadarnhaol yn ystod 2014/15. Delir meysydd a nodwyd i'w gwella mewn cynlluniau gweithredu. Y casgliad yn dilyn hunanasesiad y Cyngor yn enwedig oedd bod y rhan fwyaf helaeth o'i ddangosyddion effeithiolrwydd wedi'u diwallu. Roedd y Cyngor yn hapus gyda'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn adolygiad y llynedd. Maes arbennig i ganolbwyntio arno fydd gwella aleiniad datblygiad polisi, strategaeth, pennu cyllidebau ac adrodd fel y gellir monitro ac asesu'n well werth canlyniadau ein gwaith.

Gwahoddwyd Cyngor Celfyddydau Cymru i ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr hydref, 2014. Roedd y gwahoddiad yn rhan o fenter newydd

ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ystyried detholiad o sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru. Ni oedd y Corff cyntaf a Noddir gan Lywodraeth Cymru i gael gwahoddiad a chroesawsom y cyfle i fynd a thrafod ein gwaith. Craffodd y Pwyllgor ar ein cyfrifon gan brofi'n galed werth am arian ein gweithgareddau a gwnaeth aelodau o'r Pwyllgor nifer o awgrymiadau defnyddiol. Edrychwn ymlaen at ymgorffori sylwadau a chyngor y Pwyllgor yn yr adroddiad hwn a'n hadroddiadau yn y dyfodol.

Wedyn trefnasom a chroesawsom gyfarfod o Gadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio yn y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrrff llai eraill ar thema, "*Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus*". Cawsom y pleser o weld cyflwyniadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Clerc y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a mynychwyr gwrandawiaadau'r Pwyllgor. Roedd yn gyfle defnyddiol i gyfnewid gwybodaeth a gwersi ac roedd yn rhan o ymrwymiad y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru i gydweithio a gwella perfformiad.

Nid yw cod Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi yn uniongyrchol gymwys i Gyngor Celfyddydau Cymru. Serch hynny, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn fodlon bod y trefniadau sydd gennym ar waith yn dangos ymarfer da. Credaf hefyd fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cydymffurfio â'r egwyddorion o atebolrwydd, effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth a fynegwyd yng Nghod y Trysorlys cyn belled eu bod yn berthnasol i Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Dosbarthwyr y Loteri. Mae'r Cyngor yn cytuno â'r farn hon.

## Penderfynu'n wybodus

Porthir penderfyniadau ein Cyngor a'n Pwyllgorau gan gyngor a ddarparwyd gan staff Cyngor Celfyddydau Cymru. Disgwylir i ddogfennau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion i ddangos yn glir bob gwybodaeth berthnasol sydd ei hangen i alluogi gwneud penderfyniadau gwlybodus. Amlyga pob dogfen allweddol y canlynol: goblygiadau ariannol, amgylcheddol ac ar gyfer adnoddau dynol; peryglon; a datganiad o sicrwydd.

Mae adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu cylchredeg ymlaen llaw cyn pob cyfarfod o'n Cyngor a'n Pwyllgorau i'w hystyried gan aelodau, gan dderbyn eitemau a gyflwynir ac adroddiadau

ar lafar dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Yn yr enghreifftiau prin pan nad yw'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn diwallu ein safonau, rydym yn gwrthod y ddogfen a chomisiynu un arall yn ei lle.

Lle bo'n briodol, mae cyngor gan ein swyddogion yn cael ei ategu gan gyngor arbenigol oddi wrth ein Hymgynghorwyr Cenedlaethol a, lle mae'n berthnasol, gyda chyngor arbenigol gan arbenigwyr a barn gan gyfreithwyr. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod ganddo ddigon o amser a gwybodaeth i iawn drafod polisi ac ystyried cyfeiriad y sefydliad i'r dyfodol.

Roedd y Cyngor yn fodlon, yn ystod y flwyddyn, ar brydlondeb ac ansawdd y data a'r wybodaeth a ddarparwyd at ei ddefnydd. Barnai'r Cyngor hefyd mai dibynadwy oedd y wybodaeth a ddarparwyd o ran y grantiau. Adolygir yn flynyddol y systemau a ddefnyddir i ddarparu'r wybodaeth am grantiau yn rhan o'r rhaglen archwilio fewnol.

Ymgynghorir ar gynigion polisi allweddol ymhlith y cyhoedd. Cyn terfynu'r polisiâu, porthir trafodaethau'r Cyngor yn bellach gan yr ymatebion a'r adborth.

### Materion a gafodd eu hystyried gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn

Ymgylfarfu'r Cyngor chwe gwaith yn ystod 2014/15 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 71 o weithiau allan o 83 posibl. Ymhob achos cafwyd esboniadau boddhaol am absenoldeb. Gellir gweld manylion am fynychu unigolion ar ddechrau'r Adroddiad Blynyddol hwn gan yr Ymddiriedolwyr.

Canolbwyntiodd y Cyngor ar agweddau allweddol ar ei gyfrifoldebau corfforaethol:

- **Llywodraethu** – adolygodd y Cyngor ein Fframwaith o Sicrwydd Corfforaethol a'n cofrestr berygl; adolygodd hefyd God yr Ymarfer Gorau a gwnaeth asesiad o'i berfformiad ei hun
- **Polisi** – datblygodd a lansiodd y Cyngor ei strategaeth newydd am y celfyddydau, *Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau*, a chymeradwyodd y bartneriaeth newydd o ran y celfyddydau ac addysg gyda Llywodraeth

Cymru a goruchwyliai ddatblygu ein cytundeb am bartneriaeth ryngwladol gyda The British Council

- **Cynllunio** – lluniodd a monitrodd y Cyngor y Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol, a chafodd ddiweddariadau ar feysydd allweddol o berfformiad gan gynnwys Cynlluniau parthed y Cydraddoldebau, Datblygiad Cynaliadwy a'r Gymraeg
- **Ariannu** – pennodd a monitrodd y Cyngor y gyllideb flynyddol. Cytunodd hefyd ar lefelau'r arian i sefydliadau allweddol a monitrodd eu perfformiad drwy'r flwyddyn
- **Prosiectau** – monitrodd y Cyngor gynnydd prosiectau a oedd yn strategol bwysig gan gynnwys *Gŵyl Dylan Thomas yn Gant, Cymru yn Fenis 2015*, yr ail Adolygiad Buddsoddi pum-mlwyddol (a ddigwydd yn 2015) a'r rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* (sy'n brosiect partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru)
- **Digwyddiadau** – mynychodd aelodau ddigwyddiadau celfyddydol ledled Cymru gan gynrychioli'r Cyngor

Gellir gweld copïau o agendâu a chofnodion ein cyfarfodydd Cyngor ar ein [gwefan](#).

### Darparwn arian i drydydd partïon

Un o ddyletswyddau pwysicaf Cyngor Celfyddydau Cymru yw dosbarthu arian i ddatblygu a chefnogi celfyddydau Cymru. Rydym yn ddosbarthwr pwysig o arian – oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau eraill, gan gynnwys - lle bo'n gymwys - arian o Ewrop. Cymerwn ein cyfrifoldebau o ddifrif.

Datblygasom systemau a gweithdrefnau gwydn ac atebol i gefnogi'r gweithgaredd allweddol hwn. Mae ein prosesau dyrannu grantiau a monitro yn cael eu hadolygu yn flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol i sicrhau eu bod yn aros yn addas i'w pwrpas. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein gweithgareddau dyrannu grantiau bob blwyddyn. Mae pob argymhelliad y mae ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn ei wneud yn cael ei fonitro gan ein Pwyllgor Archwilio i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu mewn da bryd.

Penderfyna'r Cyngor a ddylid rhoi statws sefydliad sy'n cael arian refeniw i sefydliad ar sail cyngor (a gefnogir gan asesiadau trylwyr) gan swyddogion. Porthir ein portffolio yn y dyfodol o sefydliadau sy'n cael arian refeniw gan ganlyniad ein Hadolygiad Buddsoddi – sy'n archwiliad pwysfawr o'n hariannu – a ddigwydd yn ystod 2015.

Monitrir yn ofalus ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw gan swyddogion a darperir i'r Cyngor adroddiadau rheolaidd sy'n asesu peryglon pob un o'n sefydliadau sy'n cael arian refeniw yn flynyddol. Mae'r rhain yn cael eu cefnogi gan adroddiad sy'n disgrifio'r themâu allweddol a ddaeth i'r fei yn ystod y gyfres o gyfarfodydd adolygu blynyddol a gynhaliwyd yn ystod 2013/14 gyda phob sefydliad sy'n cael arian refeniw. Pan fo galw, cymerwn agwedd ragweithiol o ran sefydliadau a gaiff anawsterau a buddsoddi amser ac egni i'w cynorthwyo i ddatrys eu problemau.

Ystyriodd y Cyngor adroddiadau ac argymhellion oddi wrth swyddogion ac ymgynghorwyr arbenigol sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau y credir iddynt syrthio i gategori 'perygl dybryd'. Mewn rhai achosion, mynasom gael newidiadau sylweddol ym mherfformiad a rheolaeth y sefydliadau hynny er mwyn ceisio diogelu eu dyfodol. Pery'r sefydliadau hyn i fod yn ddarostyngedig i fonitro manwl nes y teimlwn fod y sefydliad wedi ymsefydlogi ac yn gallu parhau'n fusnes cynaliadwy.

Cyhoeddwn [ganllawiau](#) ar gyfer pob un o'n rhaglenni grantiau o arian y Loteri.

Mae gennym brosesau ymgeisio agored a thryloyw i'n rhaglenni grant a phrosesau asesu, penderfynu a monitro cadarn i bob arian a roddwn i artistiaid a sefydliadau celfyddydol.

Ystyriwn berygl pan aseswn geisiadau a monitro grantiau a roddwn. Rydym yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chasglu oddi wrth y rhai sy'n derbyn gennym grantiau yn rhan o'n gweithdrefnau monitro i sicrhau bod y canlyniadau datganedig yr ydym wedi'u rhagweld wrth ddyrannu'r arian yn cael eu cyflawni yn y pen draw.

Cymer y Cyngor dwyll, llygredd a chamweinyddu o ddifrif ac mae ganddo bolisiau i atal y rhain a delio â hwy pe codent, gan gynnwys polisiau chwythu'r chwiban a gwrth-dwyll. Adolygwyd y rhain yn ystod y flwyddyn.

Gellir dod o hyd i restr lawn o grantiau a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn ariannol yn yr atodiad i'r datganiadau ariannol.

## Sut y rheolwn berygl

Cymer y Cyngor olwg bwylllog ar berygl. Adlewyrcha hyn ein cyfrifoldebau, a ninnau'n elusen a chorff a ariennir gan y cyhoedd, a natur y sector a wasanaethwn.

Cydnebydd y Cyngor y rheidrwydd i unrhyw strategaeth ddatblygu uchelgeisiol dderbyn y posibilrwydd o berygl o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion. Ein bwriad yw hyrwyddo diwylliant mwy arloesol a llai ofnus o berygl er mwyn inni allu cefnogi artistiaid, sefydliadau a phrosiectau i gyflawni ein hamcanion.

Mae arnom angen cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ein dyletswydd i arloesi a'r angen cynyddol i fwyafu buddion ein buddsoddiad ar gyfer y sector ac ar gyfer y cyhoedd. Mae arnom angen mentro'n bwylllog a phriodol ar brydiau a chydabod y byddwn weithiau'n methu wrth wneud hyn. Serch hynny, ni wnawn ddim di-hid; ni wariwn arian y cyhoedd yn wastraffus ychwaith neu beryglu ein henw da am bwyll ariannol.

Mae gennym felly system o reolaeth fewnol gyda'r amcan o nodi a blaenoriaethu'r peryglon a allai ein hatal rhag cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor. Gwerthusu debygolrwydd gwireddu'r peryglon ac ystyried eu heffaith pe digwyddent a cheisio eu rheoli'n effeithlon, effeithiol ac economaidd. Serch hynny, rydym yn cydnabod y bydd ein system o reolaeth fewnol dim ond yn gallu rheoli perygl hyd lefel resymol a phriodol ac felly dim ond lefel resymol o sicrwydd y gallai ei darparu ac nid y lefel eithaf o sicrwydd o effeithiolrwydd.

Ceisiwn wella ein systemau o reolaeth fewnol o hyd i sicrhau eu bod o gymorth inni wrth gyflawni ein targedau ariannu a strategol. Menter allweddol a ddatblygwyd dan oruchwyliaeth ein Pwyllgor Archwilio oedd ein Fframwaith o Sicrwydd Corfforaethol. Mae'r fframwaith yn cael ei ddefnyddio i nodi cadernid y rheolaethau a'r prosesau sicrwydd gwaelodol sy'n cael eu defnyddio i nodi a rheoli peryglon strategol allweddol. Amlygir unrhyw agweddau sydd angen eu cryfhau er mwyn inni gymryd camau gweithredu priodol. Caiff y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor

ddiweddariadau rheolaidd ar hyn ac ar ein cofrestr berygl gorfforaethol.

## Peryglon allweddol a wyneba Cyngor Celfyddydau Cymru

Wrth ystyried y dyfodol, mae nifer o beryglon allweddol sy'n ein hwynebu yn y flwyddyn a ddaw neu wedyn.

Y perygl strategol mwyaf arwyddocaol yn y dyfodol agos iawn yw'r ansicrwydd am y pwysau economaidd ehangach ac yn fwy penodol y cyfyngiadau ar lefel gwariant cyhoeddus sydd ar gael i gefnogi'r sector celfyddydol ledled Cymru.

Pryder difrifol a pharhaus yw effaith y toriadau ar wariant cyhoeddus a'r goblygiadau posibl a gâi hyn ar y sector celfyddydol ehangach. Mae ein cyllidebau ni'n hunain dan bwysau. Roedd yn rhaid inni unwaith eto leihau lefel yr arian refeniw blynyddol i'n portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw yn ogystal â dod o hyd i arbedion pellach yn ein costau rhedeg ein hunain. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd gymryd penderfyniadau anodd iawn ac mae tystiolaeth gynyddol y bydd y lefel o gefnogaeth y maent wedi'i rhoi i sector y celfyddydau yn y gorffennol yn mynd i ddioddef. Gallai hyn gael goblygiadau difrifol ar gyfer seilwaith y celfyddydau ledled Cymru ac y byddai'n niweidio'r buddion a gyfyd o'r buddsoddiad cyhoeddus a wnaed yn y gorffennol.

Yn sgil y cynnydd yn ein hincwm Loteri a gawsom yn y blynyddoedd diweddar, erbyn hyn gwelwn dystiolaeth gynyddol o leihad gwaelodol yn lefelau'r incwm. Nid oes modd inni osgoi'r effaith a gaiff hyn ar ein gweithgareddau rhoi grantiau. Ac o gynnal y duedd ar i lawr hon, ac o ddigwydd hyn ochr yn ochr â thoriadau pellach yn y gwariant cyhoeddus, y canlyniad anochel fydd inni orfod ailasesu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Rydym yn monitro'r sefyllfa'n ofalus a, lle y gallwn, byddwn yn mynd ati i fynd i'r afael â materion lle mai ni yw'r ariannwr allweddol, neu lle y gallwn gael dylanwad uniongyrchol.

Am wahanol resymau, mae dau brosiect cyfalaf mawr y Loteri y cynorthwywn eu hariannu, Pontio ym Mhrifysgol Bangor ac Oriol Gelf Glynn Vivian yn Abertawe, wedi profi sawl her yn ystod y flwyddyn. Monitrir y dda'u'n ofalus gyda chymorth

arbenigwyr annibynnol sy'n defnyddio ein gweithdrefnau monitro trylwyr.

Yn ystod y flwyddyn lansiasom y cynllun, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*, sy'n bartneriaeth pum mlynedd rhwng adran Addysg Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Seilir y cynllun ar yr argymhellion a oedd yn yr adroddiad annibynnol, *Y Celfyddydau mewn Addysg yng Nghymru*, gan yr Athro Dai Smith. Mae graddfa'r newidiadau arfaethedig yn uchelgeisiol a'r gwobrwyon posibl yn anferth. Croesawn y cyfle sydd ymhlyg wrth hyn. Cydnabyddwn hefyd yr angen i reoli'n ofalus y peryglon lu sy'n gysylltiedig â rhaglen mor fawr a chymhleth â hon wrth inni ddechrau ei gweithredu yn ystod 2015.

Cawn yn yr Adolygiad Buddsoddi sydd ar y gweill y cyfle i sicrhau y rhoddwn gefnogaeth i borffolio o sefydliadau a all ein cynorthwyo am y gorau wrth gyflawni amcanion strategol y Cyngor ar gyfer celfyddydau Cymru am yr ychydig o flynyddoedd nesaf. Serch hynny, daw peryglon yn anochel i ddilyn adolygiad ar y raddfa hon, ansicrwydd am arian ac amgylchedd mor gyfnewidiol. Rheolwn yn ofalus y peryglon sy'n gysylltiedig â'r adolygiad er mwyn lleddfu gymaint â phosibl ar eu heffaith.

Rydym yn un o grŵp bychan o sefydliadau sydd arnynt angen diwallu gofynion y Ddyletswydd Gynaliadwyedd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (ac adrodd ar y gofynion hyn) yng ngham cyntaf yr adrodd a nodir gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi hen ddechrau ar ein gwaith ymbarataol i sicrhau y gallwn gyflawni ein dyletswyddau sy'n dechrau yn Ebrill 2016.

## Diogelwch data

Rydym yn dal llawer iawn o ddata ac rydym yn cymryd ein hymrwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data o ddifrif. Sicrha ein systemau a'n rheolau TGCh fod rheolaeth lem ar ddiogelwch y data. Aseswn y trefniadau diogelwch hyn yn rheolaidd gan gymryd camau i'w gwneud yn gadarnach. Parhawn i'w monitro'n ofalus.

Nid amlygwyd unrhyw achosion o bryder difrifol yn y maes hwn gan ein hadolygiad uchel ei lefel o reolaethau TG a wnaeth ein harchwilwyr allanol, na chan ein rhaglen o adolygiadau archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn, na chan ein hadolygiad sicrwydd a wnaed ar ran Llywodraeth

Cymru. Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y flwyddyn.

### Cyfarwyddiadau'r Gweinidogion

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol sy'n cynnwys cyfarwyddiadau priodol. Ni chyflwynwyd inni unrhyw Gyfarwyddiadau yn ystod y flwyddyn nac unrhyw Gyfarwyddiadau oddi wrth y Gweinidogion o ran ein gweithgareddau Loteri.

### Materion rheolaeth a nodwyd yn ystod y flwyddyn

Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig Deloitte sy'n darparu ein gwasanaeth archwilio mewnol dan arweiniad y Pennaeth Archwilio Mewnol a enwebir sy'n gweithio i Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno ar raglen o adolygiadau sy'n ymestyn dros gyfnod penodiad ein harchwilwyr mewnol. Mae blaenoriaethau ar gyfer pob blwyddyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac maent yn cynnwys archwiliadau o weithgareddau busnes allweddol yn ogystal â chraffu ar feysydd allweddol o berygl posibl i'r sefydliad. Nod yr adolygiadau yw darparu sicrwydd a chynnig cymorth o ran rheoli drwy nodi gwelliannau lle y bernir y bo eu hangen.

Gwnaed 11 o adolygiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, a dau ohonynt yn adolygiadau dilyn i fyny ac am y rhain ni chafwyd dyfarniad o sicrwydd. O'r naw adolygiad arall, canlyniad un oedd sicrwydd llawn, cafodd chwech lefelau sylweddol o sicrwydd a'r ddau'n weddill a roes sicrwydd cyfyngedig. Canolbwyntiwn ar y ddau o sicrwydd cyfyngedig i'w gwella a byddant yn destun adolygiadau pellach yng nghynllun Archwiliad Mewnol 2015/16. Mae pob argymhelliad sy'n cael ei godi gan yr archwiliad mewnol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio sy'n eu monitro ymhob cyfarfod chwarterol i sicrhau bod cam gweithredu priodol yn digwydd yn ei gylch a hynny'n brydlon.

Dyma farn yr archwilwyr mewnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor yn eu Hadroddiad Blynyddol:

*"Seiliedig ar y gwaith yr ymgymerasom ag ef yn ystod y flwyddyn, heblaw am y gwaith a wnaethom ar systemau rheolaeth fewnol o ran Monitro Ansawdd ac Ymchwil a Gwerthusiad, gallwn gyrraedd y casgliad bod gan Gyngor Celfyddydau Cymru system o reolaeth fewnol sy'n gadarn yn ei hanfod a ddylai darparu **sicrwydd sylweddol** parthed cyflawni amcanion Cyngor y Celfyddydau.*

*Nodasom ddau argymhelliad o flaenoriaeth uchel yn 2014/15, un parthed Monitro Ansawdd ac un am Ymchwil a Gwerthuso, a chanlyniad hyn oedd rhoi sicrwydd cyfyngedig i'r ddau adroddiad hyn. Rydym yn fodlon ar ymatebion y rheolwyr o ran y materion uchel eu blaenoriaeth a nodwn fod y rheolwyr wedi rhoi blaenoriaeth i weithredu'r argymhellion hyn."*

Nodir canfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru mewn Llythyr Rheoli at y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried y canfyddiadau ac yn eu monitro i sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol yn eu cylch a hynny'n brydlon.

### Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol

Yn fy marn, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddigonol i'm galluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn rhinwedd fy swydd, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu.



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015

Cefnogwyd ar ran y Cyngor:



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015



## Strwythur, llywodraethu a rheolaeth

### Cyfnod sefydlu a hyfforddi'r Aelodau

Cynhelir rhaglen sefydlu i aelodau newydd i'w briffio am eu hymrwymedigaethau cyfreithiol dan y Siarter Frenhinol a chyfraith elusen, Cod yr Arfer Gorau, prosesau'r Pwyllgorau a phenderfynu, cynlluniau strategol a materion ariannu. Yn ystod y diwrnod sefydlu cânt gyflwyniadau gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.

Cânt hefyd gyfle i gwrdd â gweithwyr allweddol. Yn ogystal â'r Siarter Frenhinol a Chod yr Arfer Gorau, caiff Aelodau gopïau o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon diweddaraf, y Gyllideb Waith bresennol a chyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau, 'The Essential Trustee' a'r 'Independence of Charities from the State'. Trefnir seminarau a hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen i lywio'r broses o lunio strategaethau a pholisïau.

Amcanion, gweithgareddau, cyflawniadau a pherfformiad er budd y cyhoedd

### Amcanion siartredig y Cyngor yw fel a ganlyn:

- (a) datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer y celfyddydau;
- (b) gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd;
- (c) cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adrannau ein Llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr a chyrrff eraill a chydweithredu â hwy ar unrhyw faterion, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion blaenorol; a
- (ch) cyflawni ein hamcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Prif ddiben y Cyngor yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru er budd pobl ledled y wlad. Y brif ffordd y cais y Cyngor gyflawni'r diben hwn yw drwy lunio strategaethau celfyddydol, ymchwil, a rhoi grantiau rheolaidd ac untro i sefydliadau ac unigolion mewn cyd-destun strategol a datblygiadol. Cefnogir rhoi'r fath grantiau gan broses o fonitro ac asesu i sicrhau y defnyddir arian y cyhoedd yn effeithiol at y dibenion a nodir. Rheola'r Cyngor hefyd ystod o weithgareddau a gwasanaethau lle nad yw grantiau'n rhan ohonynt, yn aml mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill.

**68**

Nifer y sefydliadau sy'n cael arian referniw gan Gyngor y Celfyddydau yn ystod 2014/15

**£27.7**  
miliwn

Buddsoddi grantiau craidd yn y portffolio sy'n cael arian referniw yn ystod 2014/15

**£102**  
miliwn

Cyfanswm y trosiant a ragwelir i sefydliadau sy'n cael arian referniw Cyngor y Celfyddydau yn 2014/15

**4:1**

Yr enillion ar arian Cyngor y Celfyddydau a fuddsoddiwyd mewn sefydliadau allweddol

£1 = £1 £1

**80%**

Canran oedolion Cymru a fynychodd y celfyddydau yn ystod 2014

\*1

**37%**

Canran oedolion Cymru a gymerodd ran mewn gweithgarwch celfyddydol yn ystod 2014

\*1

**82%**

Canran plant Cymru a gymerodd ran mewn gweithgarwch celfyddydol yn ystod 2014

\*2

**86%**

Canran plant Cymru a fynychodd y celfyddydau yn ystod 2014

\*2

**521**

Nifer y perfformiadau a gefnogwyd gan gynllun Noson Allan Cyngor y Celfyddydau

**856**

Nifer benthyciadau'r Cynllun Casglu a gefnogwyd yn ystod 2014/15

**155**

Nifer y prosiectau cyfnewid rhwngwladol a ariannwyd yn ystod 2014/15

**14**

Nifer y grantiau Cymru Greadigol a roddwyd i artistiaid unigol

**1,426**

Nifer y ceisiadau am arian a broseswyd gan Gyngor y Celfyddydau yn ystod 2014/15

**7.4%**

Costau rhedeg Cyngor y Celfyddydau yn gyfran o gyfanswm ei incwm

**-10%**

Canran y lleihad o ran ôl troed carbon Cyngor y Celfyddydau

**0.21%**

Arian Llywodraeth Cymru i Gyngor y Celfyddydau yn gyfran o gyfanswm gwariant y llywodraeth

\*1 Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru, Beaufort Research

\*2 Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant, Beaufort Research



## Mesurau gweithredol

Mae balansau diwedd y flwyddyn o arian cymorth grant yng nghyfyngiad y 2% a ganiateir ar ddiwedd y flwyddyn



Dim cwynion neu gyfeiriadau at Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiynydd y Gymraeg



£30,000 o leihad yng nghostau rhedeg y Gweithgareddau Cyffredinol



Lleihad gan 143 diwrnod yn y diwrnodau gwaith a gollwyd i salwch y staff o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol



Prosesir 100% o geisiadau am arian cyn yr amseroedd targed ar gyfer asesiadau



Cyrhaeddwyd y targedau o ran talu cyflenwyr – 97% o anfonebau cyn y dyddiad cau a bennir gan y cyflenwr a 91% cyn targed Llywodraeth Cymru sef 10 diwrnod




Ymdriniwyd â 100% o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn yr amserlen a gyhoeddwyd heb gyfeirio'r un ohonynt at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth



Cyflawnodd o leiaf 75% o adroddiadau archwilio mewnol ddyfarniad o sicrwydd sylweddol o leiaf



## Gwariant



- Grantiau craidd i Sefydliadau sy'n cael Arian Refeniw  
£27,747,493
  - Grantiau o arian y Loteri  
£18,269,455
  - Grantiau cyffredinol eraill  
£626,120
  - Gwariant strategol – cenedlaethol  
£2,786,786
  - Gwariant strategol – rhyngwladol  
£799,146
  - Costau rhedeg  
£4,015,000
- Cyfanswm y gwariant**  
**£54,244,000**

## Cyrraedd ein targedau

Yn ein [Cynllun Gweithredol](#) ar gyfer 2014/15 roedd 39 o dargedau.

Defnyddiwn system goleuadau traffig (coch, melyn a gwyrdd) i fonitro cynnydd. Ar ddiwedd 2014/15:


- Cyflawnwyd yn llwyddiannus 31 o'n 39 targed
- Cyflawnwyd 5 targed yn sylweddol
- 3 tharged nas cyflawnwyd – 1 oherwydd yn gynharach yn y flwyddyn ailamserlennwyd y gweithgaredd arfaethedig i mewn i 2015/16; a 2 oherwydd i ffactorau allanol atal eu cwblhau

O'r 3 tharged nas cwblhawyd:

Mae'r targed cyntaf nas cwblhawyd yn gysylltiedig â'n penderfyniad i ailamserlennu lansiad cronfa Loteri newydd arfaethedig - *Gwynnuch*. Nod y gronfa newydd yw annog, drwy fuddsoddi untro, sefydliadau allweddol i sefydlogi neu wella eu perfformiad busnes. Cytunodd y Cyngor y byddai budd mwy wrth ystyried y cynllun newydd ochr yn ochr â chanlyniad ein Hadolygiad Buddsoddi. (Digwydd yr Adolygiad Buddsoddi yn ystod 2015/16.)

Mae'r ail darged nas cwblhawyd yn gysylltiedig â phrosiect adeiladu Pontio ym Mhrifysgol Bangor. Ni chwblhawyd Pontio fel y rhagwelwyd yn wreiddiol yn ystod y flwyddyn ac erbyn hyn amserlennwyd ei agoriad yn ystod 2015/16.

Mae'r trydydd targed yn gysylltiedig â *Chynllun Casglu*, ein cynllun prynu di-log sy'n darparu benthyciadau. Ein targed ar gyfer y flwyddyn oedd cynnydd o 5% yng ngwerth y benthyciadau. Er inni gyflawni dros £622,000 mewn benthyciadau, roedd hyn mewn gwirionedd yn lleihad ar y flwyddyn gynt o 1.7%. Y ffactor pwysicaf un a gyfrannodd at hyn oedd penderfyniad yn ystod y flwyddyn gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i adolygu ei holl ffordd o fynd ati o ran rhoi trwyddedau credyd. Effeithiodd hyn ar y nifer o orielau a oedd yn fodlon parhau â'r cynllun.



Mae'r 5 targed a gwblhawyd yn sylweddol yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Gwerthuso WOMEX 13, yr ŵyl ryngwladol a'r llwyfan rhwydweithio i ddiwydiant cerddorol y byd a ddigwyddodd yng Nghaerdydd – cafodd y Cyngor adroddiad am ganlyniadau WOMEX yn ystod y flwyddyn, ond gofynnodd i waith ychwanegol gael ei wneud ar fentrau'r dyfodol a ddaw o waddol WOMEX
- Buddsoddi mewn prosiectau enghreifftiol – gosodasom darged o 9 prosiect enghreifftiol, tri'r un i'n rhaglenni *Camau Creadigol*, *Ein Lle Ni* a *Chreu Cymunedau Cyfoes*. Cyflawnasom dros ben ein targedau ar gyfer *Ein Lle Ni* (gan gefnogi 9 prosiect) a *Chreu Cymunedau Cyfoes* (gan gefnogi 7 prosiect), ond ni chyraeddasom ein targed yng *Nghamau Creadigol* gan gefnogi un prosiect yn llai na'r hyn a fwriadasem yn wreiddiol
- *Noson Allan* – darparodd ein rhaglen, *Noson Allan*, 521 o ddiwyddiadau a pherfformiadau yn hytrach na'r 580 y gobeithiasem eu gweld. Cafodd toriadau a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn yn yr arian gan ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol – a chafodd hyn effaith andwyol ar nifer y digwyddiadau y gellid eu cynnal. Serch hynny, cyflawnwyd bron 90% o nifer y targed a chredwn felly ein bod wedi cyflawni'n sylweddol y targed hwn

- Prosiectau partneriaeth sy'n hyrwyddo amrywiaeth – cwblhawyd 3 allan o'r 4 prosiect targed gyda Diverse Cymru, Stonewall Cymru a Chelfyddydau Gwirfoddol Cymru. Golygai'r pwysau ar amser y staff o du blaenoriaethau sy'n ymgystadlu fod yn rhaid gohirio un o'r prosiectau, am hyfforddi staff, i 2015/16
- Archwilio buddsoddiad yr awdurdodau lleol – o gofio bod ariannu gan yr awdurdodau lleol yn newid mor aml ac mor gyflym, penderfynasom na fyddai un archwiliad ar ei ben ei hun a gomisiynid yn cynrychioli gwerth da am arian. Yn lle hynny, defnyddiasom adnoddau'r staff i grynhoi adroddiadau chwarterol treigl

Cafodd nifer o feysydd allweddol o weithgarwch, a nodwyd yn flaenoriaethau arbennig gan y Cyngor, ei gynyddu'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. Cynhwysai'r rhain:

- camau gweithredu a gymerwyd i wella trefniadau Llywodraethu yn ein portffolio o sefydliadau allweddol
- datblygu ystod, effaith ac effeithiolrwydd ein cefnogaeth i artistiaid unigol
- sefydlu preswylfeydd cyhoeddus mawrion – gyda sefydliadau partner – Cadw, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Ymddiriedolaeth y Camlesi a'r Afonydd, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Cadeirlan Llanelwy, Dŵr Cymru, Amgueddfa Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- ein cyfraniad at reoli a threfnu Gŵyl Dylan Thomas yn Gant a oedd mor llwyddiannus
- sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd a phwysig â The British Council, i gefnogi cyfleoedd datblygu celfyddydol i Gymru ledled y byd
- lansiad ein cynllun Tocynnu i Bobl Anabl, *Hynt*, i wella hygyrchedd i leoliadau ledled Cymru
- twf Gŵyl Celfyddydau Teuluol yr Hydref
- cytundeb Llywodraeth Cymru i gydariannu ein strategaeth, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*

- datblygu ein strategaethau cynaliadwyedd at gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru
- y prosiect partneriaeth gyda'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Nesta i fuddsoddi mewn prosiectau Ymchwil a Datblygiad Digidol

Monitir yn fanwl berfformiad yn erbyn camau gweithredu allweddol ac adrodd yn ôl arnynt yn chwarterol i'r Uwch Tîm Rheoli, y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

### Polisiâu rhoi grantiau

Gwahodda'r Cyngor geisiadau am grantiau rheolaidd ac untro gan sefydliadau ac unigolion a monitra'r defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny. Yn ogystal â bodloni amcanion strategol y Cyngor, rhaid i geisiadau ddangos budd i bobl Cymru ledled yr holl sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd. Ariennir grantiau rheolaidd drwy grant mewn cymorth yn unig ond gellir ariannu grantiau untro drwy grant mewn cymorth neu incwm y Loteri.

Rhoddir grantiau rheolaidd (neu refeniw blynyddol) i bortffolio o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau artistig o safon. Dibynna ystyried unrhyw sefydliad ar gyfer y fath statws ar argaeledd arian, cynaliadwyedd y sefydliad, a'r ffaith ei fod yn cydweddu'n gryf â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae pob sefydliad refeniw yn cydsynio â chytundeb arian refeniw am gyfnod rhwng un a thair blynedd sy'n nodi'r lefel o arian a ragwelir, y rhaglen weithgarwch i'w chyflwyno, gofynion monitro ac adolygu pob blwyddyn, amodau safonol grant ac unrhyw amodau ychwanegol. Yn ystod 2015/16 ymglymer y Cyngor ag Adolygiad Buddsoddi. Bydd yr Adolygiad yn nodi'r portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw a fydd wrth wraidd strategaeth y Cyngor yn y dyfodol i ddatblygu celfyddydau Cymru.

Mae grantiau untro ar gael i ariannu prosiectau artistig o safon sy'n gyfyngedig o ran amser ac sy'n cyflawni orau flaenoriaethau ariannu'r Cyngor. Tynnir ein sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherygl penodol gan ein monitro parhaus o'n rhaglenni cymorth grant. Arweinia'r peryglon a nodir at gynnydd yn lefel y monitro ac,

os bydd angen, gall olygu cadw taliad yn ôl a/neu ei ohirio.

Cyhoedda'r Cyngor ganllawiau cyffredinol am ariannu sefydliadau ac unigolion a gynnwys fanylion llawn am flaenoriaethau ariannu a meini prawf cymhwysedd. Mae'r rhain ar gael oddi wrth unrhyw un o swyddfeydd y Cyngor ac ar y [wefan](#).

## Adolygiad ariannol

Mae gan y Cyngor ddwy brif ffynhonnell ariannu: grant mewn cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru; ac, a ninnau'n un o'r gyfran o'r cyrff a ddsbartha arian ymhlith achosion da, gyfran o'r arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau dosbarthu'r loteri.

## Arian wrth gefn

Polisi'r Cyngor ar arian cyfyngedig yw cofnodi ar wahân unrhyw grantiau, rhoddion a ffynonellau eraill o incwm a dderbynnir ar gyfer diben neu brosiect penodol, neu lle y gosodir cyfyngiadau sy'n llymach nag amcanion cyffredinol y Cyngor. Defnyddiwyd yr holl adnoddau hyn a ddeuai i mewn yn y flwyddyn at y diben a nodwyd.

Neilltuir y rhan fwyaf o arian anghyfyngedig y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn unol ag amodau'r grant mewn cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru. Caiff unrhyw arian dros ben ei gario ymlaen a'i ddefnyddio i hyrwyddo amcanion siartredig y Cyngor yn y flwyddyn wedyn. Nid oedd unrhyw arian dynodedig ar 31 Mawrth 2015 (2014: £Dim).

Cyfyngir ar ein gallu i ddal arian wrth gefn gan gyfarwyddiadau hyblygrwydd ar gyfer diwedd y mis a'r flwyddyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. O fewn y paramedrau hyn, ein polisi yw rheoli llif arian drwy dynnu i lawr arian bob mis i gwrdd â gwariant wedi'i gynllunio gyda lwfans bach ar gyfer gofynion arian tymor byr nas rhagwelwyd. Adolygwn y polisi a'n sefyllfa o ran arian wrth gefn bob blwyddyn.

## Buddsoddi

Rheolir pwerau buddsoddi gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 a'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Polisi'r Cyngor yw cael yr elw mwyaf posibl yn y telerau hyn. Cawn log ar gyfradd a negodwyd ar sail gyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, gallai cyfraddau uwch fod ar gael ar gyfer arian cyfyngedig ar adnau hir dymor.

Ym mis Hydref 2013, i leihau'r perygl i'n harian elusennol a chyhoeddus wrth gadw, ar y llaw arall, reolaeth a'r hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer ein gwaith beunyddiol, agorodd y Cyngor gyfrifon gyda Rheoli Buddsoddiadau CCLA Cyfyngedig sy'n ein galluogi i drosglwyddo ein gwarged ariannol yn ddyddiol rhwng ei Gronfa Gadw i'r Sector Cyhoeddus a'n cyfrifon banc cyfredol. Yn ôl Sgorio Fitch mae'r Gronfa yn AAAMmf.

Rhoddir bob llog a phob incwm o fuddsoddi enillir ar arian a balansau banc sy'n codi o ganlyniad i'r arian a gawn gan Lywodraeth Cymru i Drysorlys Ei Mawrhydi drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

## Canlyniadau ariannol

	2014/15 £'000	2013/14 £'000
<b>Mae'r cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol, gan eithrio gweithgareddau dosbarthu'r Loteri, yn dangos:</b>		
Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn ar gyfer y flwyddyn Adnoddau net a dderbyniwyd/(a dalwyd allan)	33,158 (444)	35,799 (1,295)
Asedau cyfredol net	1,318	1,684
Cyfanswm y balansau arian ar 31 Mawrth a	1,496	1,940
Blaenymrwymiaidau grantiau o ran y flwyddyn wedyn	27,007	27,733
<b>Dengys cyfrifon Dosbarthu'r Loteri ar wahân:</b>		
Cyfran y Cyngor o'r enillion oddi wrth y Loteri Genedlaethol (2014/15: gan gynnwys ad-daliad o £1.487 miliwn o Gronfa Dosbarthu'r Loteri Olympaidd)	19,518	16,892
<b>Y cyfunol:</b>		
Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a Loteri oedd a	52,784	52,843
Cyfanswm y gwariant elusennol ac uniongyrchol ar y celfyddydau ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a Loteri oedd (2013/14: a ailddatganwyd)	52,450	56,556

Roedd adnoddau'r Cyngor a ddeuai i mewn ar gyfer 2014/15 yn £2.6 miliwn (7.3%) yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r prif ffactorau: (a) lleihad o £1.4 miliwn yng nghymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru; a (b) lleihad o £0.8 miliwn mewn grantiau a rhoddion at ddibenion cyfyngedig o'u cymharu â 2013/14.

Yn ystod y flwyddyn rhoddasom grantiau i'n sefydliadau sy'n cael arian refeniw o £27.7 miliwn (2013/14: £28.3 miliwn). Yn ychwanegol at hyn, gwariasom £4.9 miliwn (2013/14: £7.5 miliwn) drwy grantiau a gwariant uniongyrchol ar fentrau a gwasanaethau strategol. Adlewyrcha'r gwariant gostyngedig ar weithgareddau celfyddydol eleni ein hincwm is.

Ar 31 Mawrth 2015 roedd gennym arian anghyfyngedig wrth gefn o £1.4 miliwn (2014: £1.7 miliwn) ac arian cyfyngedig wrth gefn o £0.1 miliwn (2014: £0.2 miliwn). Effeithir yn uniongyrchol ar ein lefel o arian anghyfyngedig wrth gefn gan bolisi Llywodraeth Cymru am falansau arian ddiwedd y flwyddyn fel yr amlinellir ef yn yr adran am Arian Wrth Gefn uchod. Caniateir i'r Cyngor gario drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf ddim rhagor na 2% o gyfanswm ei holl incwm o'r Loteri. Bydd yn rhaid cytuno â'n hadran nawdd yn Llywodraeth Cymru i gario drosodd unrhyw swm mwy.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Canolbwynt ein gweithgareddau yn ystod 2015/16 fydd gweithredu ein strategaeth gelfyddydol newydd, *Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau*.

Mae ein strategaeth yn syml - disgrifir hi mewn tri gair yn unig:

### Creu | Cyrraedd | Cynnal

Mae creu celfyddyd, sicrhau ei bod yn cysylltu a rhoi iddi waddol a fydd yn parhau, i gyd yn rhan o'r un darlun. A dyma hefyd yw'r themâu sy'n cynnal ein gwaith.

Pan fôm yn trafod **Creu**, yr hyn sydd yn ein meddyliau yw creu'n artistig. Rydym am lunio amgylchedd i'n hartistiaid a'n sefydliadau

celfyddydol iddynt allu creu eu gwaith gorau ynddo. Oherwydd os ydym yn **Creu'n** llwyddiannus, byddwn yn ysbrydoli hefyd.

Os byddwn yn ysbrydoli, bydd rhagor o bobl yng Nghymru yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn y gorau sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae hyn wrth wraidd ein gallu i **Gyrraedd**, ac yn hollol hanfodol i gyrraedd yn bellach nag erioed o'r blaen.

Wrth wneud hyn, os mae rhywbeth o werth yn cael ei greu yn yr hyn sy'n cael ei wneud neu yn y bobl sy'n cael eu cynnwys, wedyn dylem ofyn sut y byddwn yn gallu amddiffyn a **Chynnal** y pethau hyn mewn ffyrdd sy'n llwyddiannus yn economaidd ac a fydd yn parhau.

Darperir **Creu: Cyrraedd: Cynnal** drwy wyth **amcan** penodol.

#### Creu

1. Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu
2. Cynyddu gwerth y cyfnewid diwylliannol rhyngwladol i gelfyddydau Cymru

#### Cyrraedd

3. Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd er mwyn i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau
4. Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc

#### Cynnal

5. Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd
6. Amddiffyn a thyfu'r sail economaidd ar gyfer celfyddydau Cymru
7. Arddangos gwerth y celfyddydau
8. Gwneud Cyngor y Celfyddydau yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol

Mae hefyd yn bwysig bod ein gwariant cymorth grant yn adlewyrchu blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru. Disgrifir yr hyn a ddisgwyl Llywodraeth Cymru oddi wrthym mewn Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Disgrifia'r Llythyr Cylch Gwaith flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a darpara fframwaith i'n gwaith.

Disgrifir saith maes o flaenoriaeth yn ein Llythyr Cylch Gwaith a bydd yn rhain yn ffocws arbennig i'n gwaith yn ystod 2015/16:

1. **Ymgyfranogi Gweithredol** – cefnogwn y sefydliadau allweddol a ariannwn, gan eu hannog i barhau i ymestyn tuag at sefydliadau newydd. Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:
  - Adeiladu ar weithgareddau ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian referniw – mae gan ein sefydliadau sy'n cael arian referniw raglenni sydd wedi'u hen sefydlu rhaglenni o weithgarwch ymgyfranogol. Mae ganddynt hefyd y wybodaeth a'r cysylltiadau lleol i ddatblygu ac estyn y gwaith hwn
  - Cynnig rhaglenni ariannu targedol – drwy ein rhaglenni arian y Loteri sy'n agored i gais, rhoddwn bwyslais ar brosiectau anogol. Targedu ein rhaglen ddatblygu, *Camau Creadigol*, yr unigolion a'r sefydliadau hynny a gafodd anhawster cael arian cyhoeddus i'r celfyddydau yn y gorffennol
2. **Mynd i'r afael â thlodi** – gweithiwn i greu rhagor o gyfleoedd i gyflwyno i bobl sydd ar hyn o bryd yn teimlo eu bod yn eithriedig rhag y celfyddydau y buddion o weithgarwch creadigol. Dros y pum mlynedd diwethaf, gwelsom ragor o bobl o gymunedau dan anfantais sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau.

Disgwyliwn i'n gwaith yn y maes hwn gyfrannu'n gadarnhaol at weithredu strategaethau'r Llywodraeth o ran Tlodi Plant a Theuluoedd yn Gyntaf. Cefnogir y gwaith hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- Targedu pobl ifainc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant – parhawn gyda rhaglen arian y Loteri,

*Sbardun*, gan fuddsoddi mewn rhaglenni o weithgarwch celfyddydol i alluogi pobl ifainc ddifreintiedig i ailymgysylltu â chyflogaeth neu hyfforddiant

- Cefnogi gweithredu adroddiad Llywodraeth Cymru ar Ddiwylliant a Thlodi – chwaraewn ran lawn wrth weithredu argymhellion yr adroddiad a allai gynnwys arwain mewn un o'r ardaloedd arloesi arfaethedig
  - Cydgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth ddarparu rhaglenni targedol o waith – gofynnir inni gydweithio â'n sefydliadau sy'n cael arian referniw i gydweithio â Llywodraeth Cymru ar ei rhaglenni, Ymgysylltiad Gwell i Gyflogwyr ac Ysgogwch eich Dyfodol. Cynyddwn hyn yn faes newydd o flaenoriaeth ac yn ystod y flwyddyn ymchwiliwn i amcanion y rhaglenni, dyfeisio strategaethau gweithredu priodol a'u darparu i'n portffolio o sefydliad sy'n cael arian referniw
  - Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i weithredu ein cydstrategaeth, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* – nod ein strategaeth fawr newydd yw defnyddio arian o'r Loteri i gynorthwyo yn y broses o godi safonau llythrennedd a rhifogrwydd a chau'r bwlch cyrhaeddiad gan ddefnyddio addysgu a dysgu creadigol a gweithgarwch celfyddydol i fynd i'r afael â'r diffyg dyhead a lefelau isel o ymgysylltu a chyflawni ymhlith disgyblion dan anfantais
3. **Cynaliadwyedd a mwyafu enillion ar fuddsoddiadau cyhoeddus** – fel y cynlluniwn at y dyfodol, gweithiwn i sicrhau bod y celfyddydau – a Chyngor y Celfyddydau ei hun - yn meddu ar y gwynwch i oroesi'r pwysau economaidd presennol. Bydd arian y Llywodraeth i raglenni celfyddydol Cyngor y Celfyddydau wedi'i leihau ragor yn 2015/16 gan ychydig dan £1 miliwn. Mae toriadau flwyddyn ar flwyddyn yn cael effaith ar ystod a nifer y gweithgareddau y gallwn eu hariannu. Serch hynny, ymrwymwn i wneud yr hyn a allwn i godi arian o ffynonellau eraill ac annog ein sefydliadau sy'n cael arian referniw i'n hefelychu yn hyn o beth er mwyn



ehangu economi celfyddydau Cymru. Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- **Cynnal Adolygiad Buddsoddi** – bydd yn rhaid inni arddangos y budd cyhoeddus y mae ein gwaith yn ei ddarparu ac i ba raddau yr ydym yn llwyddo i wneud Cymru'n wlad well i fyw a gweithio ynddi. Nod yr Adolygiad Buddsoddi fydd "cytuno ar bortffolio newydd deinamig a chynaliadwy o sefydliadau sy'n cael arian refeniw a fydd wrth wraidd strategaeth Cyngor y Celfyddydau yn y dyfodol i ddatblygu celfyddydau Cymru." Bydd yn archwiliad trylwyr o'r sefydliadau allweddol a ariannwn ar hyn o bryd a sefydlir portffolio newydd o sefydliadau ar gyfer 1 Ebrill 2016.
  - **Effaith a gwerth am arian** – mae'n rhaid i sefydliadau yn ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw allu profi y caiff yr arian cyhoeddus a gânt yr effaith fwyaf bosibl. Gweithiwn gyda'n sefydliadau sy'n cael arian refeniw i asesu i ba raddau y cyfrannant at flaenoriaethau allweddol gan gynnwys:
    - nifer yr ymgyfranogwyr sy'n ymgysylltu'n weithredol â'u gweithgareddau
    - cyfraniad y sefydliad at fynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys y nifer o bobl sydd mewn perygl o gefnu ar addysg neu sy'n ddi-waith
    - i ba raddau y rhoddir sylw i Gymru, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn eu gweithgareddau
    - yr enillion a ddaw o'r buddsoddiad o ran swyddi a thwf ac ein hagendâu polisi allweddol eraill sef twristiaeth, addysg, iechyd a chynaliadwyedd.
4. **Diogelu seilwaith y celfyddydau** – mae Cymru yn mynd drwy gyfnod estynedig o anawsterau economaidd. Mae'r amgylchedd y gweithiwn ynddo yn parhau i gael ei ddominyddu gan y dirwasgiad economaidd a'r wasgfa ar y pwrs cyhoeddus. Mae'r bartneriaeth rhwng Cyngor

Celfyddydau Cymru a llywodraeth leol yn sail i ariannu a datblygu celfyddydau Cymru. Rhyngom, gallem gyffwrdd â bywyd pawb yng Nghymru.

Serch hynny, mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol, a'r ffordd y mae ei gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu, yn parhau i newid. Mae lleihau arian cyhoeddus a rhwymedigaeth i amddiffyn gwasanaethau statudol yn golygu bod pwysau mwy a phenodol ar wasanaethau dewisol (megis y celfyddydau).

Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- **Monitro buddsoddiad llywodraeth leol yn y celfyddydau** – nid pob awdurdod lleol sy'n tynnu ei fuddsoddiad yn ôl o'r celfyddydau, ond mae'r darlun yn gymysg dros y wlad. Parhawn gyda gwaith ein harolygon i fonitro datblygiadau
  - **Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth** – gwyddom mewn rhai achosion fod awdurdodau lleol yn cael trafferth i gynnal darpariaeth gymunedol boblogaidd a hanfodol Ni allai ein harian byth llenwi'r bwch pe tai arian lleol yn diflannu'n llwyr. Ond defnyddiwn bob cyfle sydd ar gael inni i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol i ddod o hyd i ffyrdd o amddiffyn gweithgarwch pwysig
  - **Datblygu modelau newydd i gefnogi gweithgarwch celfyddydol lleol** – nid oes un ffordd yn unig o fynd ati o ran cefnogi a datblygu'r celfyddydau'n lleol. Bydd rhai awdurdodau lleol yn parhau i gynnal rhyw fath o ddarpariaeth uniongyrchol. Serch hynny, gallai eraill ddymuno archwilio strwythurau gwahanol gan gynnwys ymddiriedolaethau annibynnol a throsglwyddo asedau cymunedol. Gweithiwn gyda chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol i ddatblygu rhyngom y ffyrdd o fynd ati a fydd, yn ein tyb, y rhai mwyaf cynaliadwy
5. **Brand Cymru/Blynyddoedd â Thema** – mae'r celfyddydau yn ffyrdd effeithiol iawn

o godi proffil ac enw da gwlad. Drwy'n fîm, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, parhawn i feithrin rhagoriaeth artistig ryngwladol yng Nghymru. Byddwn yn gweithio hefyd er cynyddu effaith a chydnyddiaeth ryngwladol i gelfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd, gan ddod â digwyddiadau diwylliannol cenedlaethol a rhyngwladol i Gymru (megis Rhifyn Dawns Prydain yn 2016).

Yn rhan o'r ffordd hon o weithio, lansiodd Llywodraeth Cymru fenter newydd sy'n defnyddio themâu ar gyfer blynyddoedd y dyfodol i hyrwyddo Cymru a rhoi ffocws i weithgareddau, digwyddiadau ac atyniadau ar nodweddion cryfaf twristiaeth Cymru. Dynodwyd 2016 yn Flwyddyn yr Antur ac wedyn ceir Blwyddyn y Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018.

6. **Datblygiad Economaidd** – manteisiwn ar bosibiliadau economaidd y celfyddydau i gyfrannu at greu swyddi a chyfoeth drwy greu, dosbarthu a manwerthu nwyddau a gwasanaethau.

Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- Annog y sefydliadau allweddol a ariannwn i fod yn fwy hunanddibynnol – gweithiwn gyda'n portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw i'w hannog i leihau eu dibyniaeth ar arian y cyhoedd
  - Manteisio ar gyfleoedd rhyngwladol – ar gyfer yr unigolion a'r sefydliadau sy'n barod am y farchnad bydd gweithio dramor yn rhoi hygyrchedd i farchnadoedd a chyfleoedd newydd. Drwy ein his-adran ryngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, gweithiwn gyda'n partner rhyngwladol, The British Council, i fynd yn egniol ar drywydd y fath gyfleoedd
7. **Technoleg ddigidol** - rydym am i'r celfyddydau feddu ar y cynhwysedd a'r sgiliau i ddeall yr hyn sydd gan dechnoleg newydd i'w gynnig, a meddu hefyd ar yr hyder a'r mewnwelediad i fanteisio ar ei phosibiliadau creadigol. Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- Peilota datblygiad gweithio digidol – drwy ein partneriaeth, a ariennir gan y Loteri, gyda'r Gwaddoliad Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau darparwn arian sbarduno i sefydliadau sydd am ddatblygu eu cynhwysedd digidol
- Estyn y rhwydwaith o leoliadau sydd ag offer digidol – lle bo'n briodol, parhawn i weithredu ein strategaeth o fuddsoddi arian cyfalaf y Loteri i wella gallu digidol canolfannau celfyddydol a lleoliadau
- Manteisio ar y posibiliadau o bartneriaethau gyda darlledwyr – sefydlasom yn ffurfiol bartneriaethau gyda BBC Cymru ac S4C. Gweithiwn gyda'r ddau ddarlledwr hyn i fanteisio ar y cyfleoedd darlledu a digidol newydd i gelfyddydau Cymru

Adnoddau dynol


### Cyfle cyfartal

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Yn benodol, anela'r Cyngor at sicrhau na thrinnir yr un darpar weithiwr nag un gwirioneddol yn fwy neu'n llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws o ran priodas neu fod yn rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Cyngor ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddefnyddwyr Symbolau Anabledd a adlewyrcha ei ymroddiad i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i weithwyr anabl.

### Absenoldeb salwch

Yn ystod 2014/15 cyfanswm salwch y staff oedd 444.5 dydd (2013/14: 587 dydd). Cynrychiolai hyn 2.24% (2013/14: 2.98%) sy'n seiliedig ar 260 dydd gweithio, gan gynnwys 0.74% (2013/14: 1.67%) o ganlyniad i absenoldeb hir dymor (am hwy na 28 dydd).



### Cyfathrebu â'r gweithwyr

Cydnebydd y Cyngor yr undeb llafur, Unwch yr Undeb, ac mae wedi dod i gytundeb gweithdrefnol ag ef; mae cynrychiolwyr y rheolwyr a'r undeb yn ymgysylltu yn rheolaidd i drafod materion o bryder cyfredol. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd adrannol rheolaidd ac mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr ac Arweinwyr Tîm roi adroddiad i'w staff ar faterion a drafodir yn y Cyngor ac yng nghyfarfodydd yr Uwch Tîm Rheoli a'r Bwrdd Rheoli.

### Cynllun pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994). Mae'r gronfa yn gynllun buddiant diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Cyngor, rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag FRS 17.

Cyflwynodd y Cyngor hefyd gynllun cyfraniad diffiniedig, Pensiwn y Bobl, sy'n ddewis amgen i ddiwallu gofynion deddfwriaeth Awtogofrestru.


Cafodd y nifer bychan o weithwyr cymwys nad oeddynt yn aelodau o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau eu hawtogofrestru ar gyfer y cynllun cyfraniad diffiniedig ar 1 Mai 2014 sef diwrnod gweithredu swyddogol y Cyngor. Cyfrifyddir ar gyfer y cynllun yn unol ag FRS 17.

### Talu credydwyr

Dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 a Chod Arfer Talu Gwell Llywodraeth Prydain, mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau cyflenwyr lle na cheir anghydfod mewn 30 diwrnod oddi ar gael nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod y Cyngor yw talu 100% o anfonebau, gan gynnwys anfonebau y cafwyd anghydfod yn eu cylch pan ddatrysir yr anghydfod, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015, talodd y Cyngor 97% (2013/14: 95%) o'r holl anfonebau a gadwai at delerau ei bolisi talu. Yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyngor nod pellach o dalu anfonebau mewn 10 diwrnod. Ar gyfer 2014/15 talwyd 91% (2013/14: 85%) o anfonebau mewn 10 dydd. Ni ragwelir y bydd ein polisi'n newid yn y blynyddoedd i ddod.

### Talu credydwy'r yn brydlon



### Perygl ariannol a rheoli cyfalaf

Ceidw'r Cyngor offerynnau ariannol yn bennaf i ariannu ei weithrediadau, er enghraifft, dyledwyr a chredydwy'r masnachol a balansau arian sy'n deillio'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Gwneir y gwaith o reoli peryglon ariannol sy'n deillio o fasnachu offerynnau ariannol, dyledwyr a chredydwy'r masnachol yn bennaf, drwy gyfres o bolisïau a gweithdrefnau. Rheolir y peryglon hyn fel a ganlyn:

**Perygl hylifedd** - mae'r Cyngor yn fodlon fod ganddo adnoddau hylifedd digonol, ar ffurf arian yn y banc ac arian y cytunwyd arno ar gyfer 2015/16 i fodloni pob ymrwymiad cyfredol a gonacontractiwyd. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyfredinol yn agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol.

**Peryglon cyfraddau llog** - Cedwir balansau arian a gawn gan Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol dim rhybudd a oedd â chyfradd llog ar gyfartaledd o 0.38% (2013/14: 0.38%) yn y flwyddyn. Ar gyfartaledd roedd yr arian gwarged dyddiol a fuddsoddiwyd yng nghronfa gadw'r sector cyhoeddus wedi cario enillion ar fuddsoddi

o 0.37% yn y flwyddyn (2013/14: 0.34%). Y balans arian diwedd y flwyddyn anghyfyngedig effeithiol a ddelid gan y Cyngor yn y banc oedd £432,000 (2014: £789,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyfredinol yn agored i beryglon cyfradd llog sylweddol.

**Perygl arian tramor** - nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw beryglon cyfnewid arian tramor sylweddol.

**Perygl llif arian** - nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw beryglon llif arian sylweddol.

### Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol

Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cywirdeb data. Sicrha systemau TG fod rheolaeth lem ar ddiogelwch y data. Hyd y gwyddom, ni chollwyd unrhyw ddata yn y cyfnod dan sylw.

### Trefniadau treth y bobl a benodir yn y sector cyhoeddus

Dengys y tabl isod fanylion ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres am ragor na £220 y dydd sy'n parhau'n hwy na chwe mis:

Nifer yr ymgysylltiadau newydd rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015	1
Nifer yr uchod sy'n cynnwys cymalau contractol sy'n rhoi'r hawl i'r Cyngor ofyn am sicrwydd o ran ymrwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol	1
Nifer y gofynnwyd am sicrwydd yn eu cylch	1
O'r rhain	
Nifer y cafwyd sicrwydd yn eu cylch	1
Nifer na chafwyd sicrwydd yn eu cylch	-
Nifer a derfynwyd o ganlyniad i beidio â chael sicrwydd	-

### Materion cymdeithasol a chymunedol

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod arian y Cyngor yn hygyrch ac o fudd i holl ddinasyddion Cymru. A ninnau'n gorff a ariennir gan y cyhoedd, mae sicrhau rhagor o hygyrchedd i'r celfyddydau yn flaenoriaeth naturiol. Rydym yn llwyr ymroddedig i ddymchwel y rhwystrau sy'n atal a llesteirio pobl rhag mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae gennym o hyd strategaethau sy'n targedu pobl ifainc, y celfyddydau cymunedol a gwirfoddol ac ehangu ymgysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau. Eleni rydym wedi symud y gwaith ymlaen ynghylch nifer o raglenni allweddol. Lansiasom *Hynt*, ein cynllun tocynnu i fynychwyr y theatr sy'n anabl a'u gofalgwyr. Mae pob un o'n lleoliadau allweddol a ariennir ledled Cymru wedi cytuno i fod yn rhan o'r cynllun ac yn fuan iawn ar ôl y lansiad roedd gennym fwy na 500 cais. Cyhoeddasom a lansiasom becyn gwybodaeth am y cydraddoldebau ac amrywiaeth ym maes y celfyddydau a chynaliasom gyfres o sesiynau briffio a hyfforddi i'r sector ledled Cymru. Darpara'r pecyn gwybodaeth ganllawiau ymarferol, cyngor ac enghreifftiau o sut i gyrraedd pobl a chymunedau sy'n profi rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau oherwydd un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig a ddisgrifir yn y Ddeddf Gydraddoldeb ac ymgysylltu â'r cymunedau felly.

Roedd peilot ein prosiect ymgyfranogol, *Sbardun*, a ddarparwyd mewn partneriaeth gyda Chymunedau'n Gyntaf, yn llwyddiannus iawn, gan ymgysylltu â thros 325 o'n pobl ifainc sydd dan yr anfantais fwyaf ac wedi'u hymddieithrio i'r graddau mwyaf. Cafodd pob un ohonynt ganlyniadau cadarnhaol o ran ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a/neu waith. Cawsom arian gan Sefydliad Baring y gallem roi arian cyfateb iddo a roddwyd wedyn i Age Cymru i ddatblygu a darparu prosiect tair blynedd i ganolbwyntio ar ein pobl hyn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Erbyn hyn mae'r prosiect hwn wrthi'n digwydd.

Parhasom gefnogi lleoliadau, drwy'r rhaglen *Ein Lle Ni*, i archwilio ffyrdd arloesol o ddatblygu cynulleidfaoedd. Gwerthuswyd y rhaglen yn 2014/15. Cadarnhaodd y gwerthusiad lwyddiant rhoi arian i'r lleoliadau er mwyn iddynt archwilio gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â chymunedau amrywiol a gwahanol. Drwy'r cynllun, cyrhaeddodd derbynwyr y grantiau hyn gynulleidfaoedd newydd ac, yn bwysicach, gynulleidfaoedd o gymunedau nad ydynt yn draddodiadol wedi ymgysylltu â'r celfyddydau oherwydd rhesymau economaidd neu ddiwylliannol.

Mae gan ein cynlluniau grant flaenoriaethau troswaol wedi'u hanelu at brosiectau sy'n hybu gwaith artistiaid o grwpiau a dangynrychiolir megis pobl anabl a phobl dduon ac ethnig. Cydnabyddwn ddiwylliant dwyieithog Cymru a

rhoddwn flaenoriaeth i geisiadau am brosiectau a ddarperir drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Darparasom arian i Gelfyddydau Gwirfoddol Cymru i ddarparu prosiect sy'n canolbwyntio ar y gymuned o'r enw, Gosod Gwreiddiau, a gefnogai grwpiau cymunedol i symud tuag at statws annibynnol neu fenter gymdeithasol ar ôl cael ei sefydlu a'i gefnogi'n flaenrol gan sefydliadau cymunedol celfyddydol proffesiynol. Prosiectau peilot oedd y rhain a werthusir yn 2015/16.

Yn ystod eleni buom yn gweithio gydag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu i Gymru* â'r nod o gynyddu'n sylweddol a gwella cyfleoedd i bobl ifainc ledled Cymru i ymgysylltu â'r celfyddydau drwy gydol eu bywyd ysgol. Lanswyd y Cynllun ym Mawrth 2015 a gweithredir ef o Fedi 2015 ymlaen.

Rydym yn bartneriaid, gydag Amgueddfa Cymru a ChyMAL, yn y gwaith o ddarparu ledled Cymru beilot y rhaglen, *Ardaloedd Arloesi*. Mae *Ardaloedd Arloesi* yn rhaglen beilot am flwyddyn a ddatblygwyd i gynorthwyo unigolion, teuluoedd a chymunedau i gael budd o ymgysylltu parhaus â diwylliant a'r amgylchedd hanesyddol. Bydd y cynllun ar waith mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae'n adeiladu ar ddau adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru: *Diwylliant a Thlodi: harneisio grym y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hyrwyddo Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru* gan y Farwnes Andrews; a'r *Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* gan yr Athro Dai Smith.

Canolbwynt mawr i'n gwaith yn 2015/16 fydd gweithredu *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*. Lansiw'n Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, sy'n agored i bob ysgol yng Nghymru, sy'n cymhwysio methodoleg dysgu creadigol i wella ymgysylltiad pobl ifainc â dysgu a hefyd sy'n helpu'r ysgol i fynd i'r afael â materion a syniadau datblygu sy'n arwyddocaol. Mae'r cynllun am wella'r ysgol gyfan a gwella cyrhaeddiad y disgyblion yn enwedig parthed rhifogrwydd a llythrennedd. Drwy'r Cynllun cefnogwn ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, artistiaid ac ymarferwyr creadigol eraill a darparu arian i ysgolion er mwyn iddynt weithio mewn partneriaeth

gyda sefydliadau celfyddydol i wella'r cynnig diwylliannol sydd ar gael i'w disgyblion.

## Archwilio

Yn unol ag erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor, cynnal Archwilydd Cyffredinol Cymru archwiliad allanol y Cyngor yn unol â'r telerau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

Hyd y gwn i, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Cyngor yn ymwybodol ohoni. Credaf fy mod wedi cymryd pob cam y disgwylid ohonof, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015



## Adroddiad Cynaliadwyedd

Cymeradwyodd y Cyngor y Strategaeth Ddatblygu Gynaliadwy, yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol a'r Cynllun Gweithredu yn ei gyfarfod ym Mawrth 2014. Ymrwymir y Cyngor gan hyn i ddefnyddio datblygiad cynaliadwy yn egwyddor drefniadol greiddiol i'n holl waith a chawn ein paratoi i ddiwallu gofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Daeth y ddeddf yn gyfraith gwlad ar 29 Ebrill 2015 a daw'r gofynion adrodd i rym o 2016/17.

Ymrwymwn i weithredu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy a gweithredu ymarfer da o ran yr amgylchedd er mwyn lleihau ein heffaith amgylcheddol a gwella ein perfformiad yn byth parhaus.

Ymrwymir y Cyngor gan y strategaeth i weithio ar dair lefel:

1. gwella ein perfformiad sefydliadol ein hunain
2. annog y sefydliadau a'r unigolion a ariannwn (neu y gweithiwn mewn partneriaeth â hwy) i wella eu perfformiad hwy'n byth parhaus
3. defnyddio ein sefyllfa arweiniol yn y sector (ac yn ehangach) i hyrwyddo'r arfer gorau o ran Datblygiad Cynaliadwy a chodi proffil y materion ac annog cyfrifoldeb yr unigolyn

### Gwella ein perfformiad ein hunain: diwallu ein hymrwymedigaethau amgylcheddol

Sefydlasom Grŵp Monitro Cynaliadwyedd i fonitro ein perfformiad ein hunain, dan gadeiryddiaeth aelod o'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor gynllun gweithredu Datblygiad Cynaliadwy i gyflawni ei bolisi a chyhoedda ganlyniadau ei berfformiad yn flynyddol. Cyhoeddwn hefyd Adroddiad Blynyddol am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac Adroddiad Datblygiad Cynaliadwy Blynyddol.

Ers inni gyflwyno Polisi Amgylchedd ychydig o flynyddoedd yn ôl, rydym wedi canolbwyntio ar wella ein perfformiad sefydliadol. Gwnaethom gynnydd da gan dderbyn Dyfarniad Lefel 5 y Ddraig Werdd yn 2014/15 sy'n cydnabod ein cynnydd.

Ymrwymwn i weithredu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy gan gymhwyso ymarfer da o ran yr amgylchedd i leihau effaith amgylcheddol a gwella ein perfformiad yn byth parhaus.

Er ein bod is na lefel de minimis Llywodraeth Cymru, eto adroddwn o'n gwirfodd ar ein perfformiad amgylcheddol. Rydym o'r farn bod hyn yn unol ag ysbryd dyheadau Llywodraeth Cymru o ran yr agenda Datblygu Cynaliadwy ac â'n hymrwymiad i'w gyrru ymlaen.

### Cefndir

Yn sgil cyflwyno ein polisi amgylcheddol, canolbwyntiwn yn y blynyddoedd diweddar ar wella ein perfformiad amgylcheddol. Rydym wedi cyflwyno systemau, newid ein hymarferion gweithredu a buddsoddi'n ariannol. Ac yn bwysicach, er mwyn cael budd o'r cyfleoedd a ddaw gyda'r newidiadau hyn, rydym wedi annog yn gryf ein staff i ymgysylltu ac ymrwymo.

### Adolygiad o gynnydd

Parhawn i weithio o dri lleoliad ledled Cymru ond o ystâd lawer yn llai. Mae pob un o'n swyddfeydd yn hygyrch drwy rwydweithiau cludiant cyhoeddus. Ynddynt mae nifer o ddyfeisiadau ac offer arbed ynni a leihaodd y trydan a ddefnyddiwn.

Canolbwyntiodd ein strategaeth TGCh ar estyn defnydd ein seilwaith technoleg gwybodaeth i ddarparu buddion busnes ac amgylcheddol. Mae gwneud ein gweinyddion yn rhai rhithiol wedi cyfrannu at lai o ynni ar gyfer pweru ac oeri. Mae ein systemau allweddol – cyllid a cheisiadau grantiau ar-lein – yn llwyr drydanol o'r adeg archebu neu ymgeisio hyd y taliad olaf. Sgannir yr holl bost ac anfonebau ac yn y blaen a leihawyd swmp a sylwedd y papur a dderbyniwn, a drafodwn, a storiwn ac a ailgylchwn gyda lleihadau wedyn yn ein gofynion storio.

Gall ein staff gael hygyrchedd i'n systemau o bell drwy ddolenni diogel a chyda hygyrchedd trydanol llawn i pob system a dogfen ategol. Mae gan fwy na hanner ein gweithlu liniaduron a ffonau clyfar sy'n eu galluogi i weithio'n symudol a lleihau eu dibyniaeth ar orfod gweithio'n rheolaidd o'n swyddfeydd.



Rydym wedi diweddarau ac ehangu ein gallu cynadledda fideo ymhob un o'n tair swyddfa ac rydym yn hyrwyddo'n weithredol ddefnyddio'r cyfleuster yn ddewis amgen yn hytrach na theithio. Erbyn hyn gallwn gysylltu ag unrhyw leoliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac rydym wedi defnyddio ein cyfleusterau i gynadledda drwy fideo i leoedd mor bell i ffwrdd ag Awstralia. Yn ystod y llynedd, gwnaethom gynnydd da iawn wrth weithredu rhaglen sy'n galluogi ein gweithwyr symudol i ymgyfranogi, drwy eu gliniaduron, o gyfarfodydd fideo gyda chydweithwyr a chleientiaid. Ddisgwylir i hyn fod yn llwyr barod yn ystod 2015.

Gwnaethom gynnydd da wrth newid ymddygiadau sefydliadol. Mae cynadledda fideo wedi gostwng amllder teithio i gyfarfodydd. Disgwylwn weld lleihad pellach wrth inni ymgorffori cynadledda fideo liniadur i liniadur yn ein hymarferion gweithio.

Roedd ein buddsoddiad mewn gliniaduron a chynhwysedd cynadledda fideo yn fodd i leihau teithio i'r gwaith am rai o'n haelodau o staff a bydd yn galluogi lleihad pellach yn yr angen i deithio i gleientiaid hefyd.

Rydym yn hyrwyddo defnyddio ffyrdd amgylcheddol-gyfeillgar o deithio gan gyfyngu ar deithiau i rai angenrheidiol yn unig ac annog y staff i deithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl gan gymryd i ystyriaeth yr amgylchedd ac arian. Rydym yn annog rhannu ceir ac rydym wedi darparu raciau cadw beiciau yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Rydym yn ystyried cyflwyno cymhellion pellach.

Mae ein rhaglen sefydlu staff yn cynnwys Ymwybyddiaeth Amgylcheddol ac mae aelodau o'r staff yn cael hyfforddiant a diweddiadau achlysurol fel sy'n briodol.

Hybwn gwtogi gwastraff ymhlith ein staff drwy annog lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu. Caiiff rheolwyr a staff adroddiadau misol sy'n dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopio i annog defnydd is yn gyffredinol.

Hyrwyddwn yn weithredol ailgylchu a didoli gwastraff yn fewnol sy'n lleihau'r hyn a anfonir at y safle tirlenwi a defnyddiwn sefydliadau trwyddedig a phriodol i waredu ein gwastraff. Ailgylchwn ein

hoffer TG a swyddfa sy'n ddiangen neu'n rhy hen i'w defnyddio.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr cyfarpar a chyflenwadau swyddfa bolisiau a systemau adrodd amgylcheddol sydd ar waith ac rydym yn ystyried perfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol pan ddewiswn gontractwyr a chyflenwyr. Mae'n rhaid i'n contractwyr glanhau ddefnyddio cynhyrchion ac offer amgylcheddol-gyfeillgar. A defnyddiwn gyflenwadau papur Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd am o leiaf 90% o'n hanghenion copio a mewnlol eraill.

Mae ein casgliad o wefannau yn darparu ystod eang o wybodaeth i ymgeiswyr am grantiau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol ac i'r cyhoedd. Ni allem wneud y cynnydd y bwriadem ei wneud wrth adolygu ein gwefannau a'u cynnwys. Serch hynny gobeithiwn, yn y flwyddyn i ddod, y gallwn wneud cynnydd i'w gwneud yn fwy hygyrch, cynyddu lefel y wybodaeth a'r cynnwys a, thrwy hynny, wella safonau ein gwasanaeth.

Wedi cael achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd y llynedd, roeddem yn falch bod ein hymdrechion parhaus wedi ein galluogi i gadw'r un lefel o gydnabyddiaeth yn yr adolygiad blynyddol diweddar.

## Ein perfformiad


Mae ein systemau adrodd mewnlol yn ein galluogi i ddal a mesur manylion o'n defnydd o ddefnyddiau traul, gwastraff, ynni, dŵr a theithio'r staff ac felly ein hallyriadau carbon deuocsid. Gan ddilyn canllawiau'r Ddraig Werdd, rydym wedi gwella ein matrices adrodd gwastraff ac yn bwriadu parhau i ehangu a mireinio ein hadrodd.

Mae pob un o'n tair swyddfa'n cael eu rhannu ag eraill gyda rhai costau wedi'u cynnwys yn y tâl gwasanaeth, yn benodol costau gwastraff a defnydd dŵr. Mae'r sefyllfa hon yn cyfyngu ar ein gallu i asesu'n gywir ein defnydd o ddŵr ac, i raddau, ein defnydd o drydan. Byddwn yn archwilio gyda'n landlordiaid yr ochr ymarferol o gyflwyno systemau i wella sut y daliwn ddata.

	2014/15	2013/14
<b>Gwastraff:</b>		
Anariannol (tunelli metrig)		
Safle tirlenwi - <i>amcangyfrif</i>	0.12	1.65
Aildefnyddio/ailgylchu - <i>amcangyfrif</i>	3.25	6.44
<b>Allyriadau nwy tŷ gwydr (tunelli metrig o garbon deuocsid)</b>		
Allyriadau yn eu crynswth, cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol)	59	61
<b>Defnyddio ynni (awr gilowat)</b>		
Trydan (anadnewyddadwy)	110,373	125,644
Trydan (adnewyddadwy)		
Nwy	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Dangosyddion ariannol (£)</b>		
Gwariant - ynni	13,390	21,709
Costau cyflenwi dŵr (ystâd y swyddfa) – ni allwn eu hasesu ar hyn o bryd, maent yn rhan o'r tâl gwasanaeth	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Allyriadau teithio (tunelli metrig o garbon deuocsid)</b>		
Trên	9	8
Awyren <sup>1</sup>	54	64
Ceir/faniau	29	34
<b>Cost teithio (£)</b>		
Trên	30,431	24,085
Awyren	19,791	22,646
Ceir/faniau	41,424	47,956
<b>Teithio (milltiroedd)</b>		
Trên	113,832	102,761
Awyren	206,500	224,369
Ceir/faniau	89,851	104,924

<sup>1</sup> Sy'n cynnwys dylanwad y newid yn y cydbwysedd ymbelydrol ynghlwm wrth deithio awyr i ddal yr effaith fwyaf ar yr hinsawdd. Mae'r newid yn y cydbwysedd ymbelydrol yn mesuro effaith amgylcheddol yr allyriadau o NO<sub>x</sub> (ocsidau nitraidd) ac ager dŵr wrth gael eu rhyddhau yn uchel yn yr awyr.

Allyriadau carbon deuocsid (tunelli metrig)



Credwn yr estyn agwedd wir ddeallus tuag at gynaliadwyedd y tu hwnt i faterion amgylcheddol, er cyn bwysiced ydynt, i goleddu ystyriaethau diwylliannol, economaidd a chymdeithasol sy'n cynnal ein hymdeimlad o wytnwch a lles.

Ymgorfforasm yr egwyddor hon o Ddatblygiad Cynaliadwy yn ein dogfen strategaeth newydd, *Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau*, a osoda'r fframwaith ar gyfer datblygu'r celfyddydau yng Nghymru am y pum mlynedd nesaf. Felly bydd yn cataleiddio datblygiad yr holl sector o bosibl.

**Annog y sefydliadau a'r unigolion a ariannwn (neu y gweithiwn mewn partneriaeth â hwy) i wella eu perfformiad yn byth parhaus.**

Cynwysasom ofyniad i lofnodi Siarter Datblygiad Cynaliadwy Cynnal Cymru erbyn Mawrth 2016 yn amod cael arian grant referniw oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru. Byddwn yn adrodd ar gynnydd ein sefydliadau sy'n cael arian referniw drwy gyfrwng ein Hadroddiadau Referniw Blyneddol.

Mynna ein canllawiau loteri ar gadw at safonau Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau i brosiectau cyfalaf a ariennir gan Gyngor y Celfyddydau – "ardderchog" ar gyfer adeiladu o'r newydd a "da iawn" ar gyfer gwaith adnewyddu. O'n prosiectau cyfredol, bydd Oriol Gelf Glynn Vivian yn Abertawe yn cyrraedd safon 'da iawn' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau a bydd Pontio ym Mangor yn cyrraedd, 'Ardderchog'. Bydd y ddau y tu hwnt i'r gofynion lleiafswmiol.

Rydym wedi sefydlu cynllun newydd o adfywio yn y gymuned a ddefnyddia'r celfyddydau i annog ffyrdd newydd o fynd ati o ran datblygiad lleol - Creu Cymunedau Cyfoes. - Ei weledigaeth yw ymgorffori'r celfyddydau mewn ffordd ddidwyll ac ystyrllon mewn nifer bychan o brosiectau adfywio arloesol, uchelgeisiol a dychmyglon. Drwy'r prosiect hwn, dymunwn archwilio ffyrdd newydd o weithio sy'n cynhyrchu cydweithio ar draws y sector, profi syniadau a phartneriaethau newydd ac ysbrydoli cymunedau i ail-ddychmygu eu hamgylchedd mewn ffordd greadigol ac ymrymusiedig gan ddefnyddio datblygiad cynaliadwy yn fan cychwyn ac yn egwyddor arweiniol.

## Defnyddio ein safle arweiniol yn y sector

Rydym hefyd wedi cymryd ein swyddogaeth arweiniol o ddifrif. Comisiynasom adroddiad sy'n dogfennu hanes a phwysigrwydd y celfyddydau parthed y newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Lansiwyd a dathlwyd yn gyhoeddus yr adroddiad – **Newid Diwylliant** – mewn digwyddiad yn Chapter, Caerdydd ym mis Tachwedd 2014. Dosbarthwyd yr adroddiad hwn yn eang ymhlith ein cydsefydliadau a chalonogol iawn oedd yr ymateb a gydnabu hefyd swyddogaeth arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Rydym hefyd wedi ystyried yn weithredol gefnogi mentrau celfyddydol o safon ar thema'r newid yn yr hinsawdd. Teimlwn fod gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol yn lle pwysig i annog trafodaeth a hyrwyddo myfyrio ynddo. Gall agwedd pobl tuag at y newid yn yr hinsawdd fod yn seiliedig ar deimladau yn hytrach na rhesymeg yn unig. Gall y celfyddydau gyfathrebu â phobl ar lefel emosiynol a phrofwyd bod y celfyddydau'n effeithiol iawn wrth newid ymddygiad y mae ffyrdd seiliedig ar addysg a gwybodaeth ar eu pen eu hunain yn cael trafferth i'w newid. Felly rydym yn ymroddedig i flaenoriaethu prosiectau celfyddydol ar themâu amgylcheddol/datblygu cynaliadwy (sy'n diwallu ein holl feini prawf asesu cyhoeddedig) er mwyn chwarae rhan wrth fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

## Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

Tâl y Cyngor bob aelod o'i staff, ac eithrio'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, yn unol â system gyflog a graddio y cytunwyd arni ac a gynhelir gan yr Adran Adnoddau Dynol. Mae Polisi Gwerthuso Swyddi ar waith a thrwy hwnnw y gall y staff ei ddefnyddio i apelio yn erbyn graddau eu swyddi. Cytunir â Llywodraeth Cymru ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Bob blwyddyn, mewn ymgynghoriad â'r undeb llafur cydnabyddedig llunnir cylch gwaith cyflog a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r pecyn cyflog ac amodau canlynol yn gyfrwymol ar y Cyngor cyfan tan y cylch negodi nesaf. Dibynna cynnydd dan y cylch gwaith cyflog ar berfformiad a brofwyd gan system y Cyngor o adolygiadau datblygiad personol.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu ymroddiad amser lleiafysmiol i fusnes y Cyngor. Rhydd Llywodraeth Cymru hefyd gyngor ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn.

Yng nghydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr mae cyflog sylfaenol a bonws blynyddol. Argymhella'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol fonysau blynyddol i'r Cyngor ar ôl ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn ôl nifer o amcanion a bennwyd ymlaen llaw. Cyfunir canran o'r cynnydd, fel y cyngorir gan Lywodraeth Cymru, â chyflog y Prif Weithredwr a thelir y gweddill fel dyfarniad heb ei gyfuno. Yn absenoldeb canllawiau oddi wrth Lywodraeth Cymru o ran newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr, nid oedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol yn gallu penderfynu a oedd modd talu cynnydd yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad ni chafodd y Prif Weithredwr gynnydd neu fonws anghyferthedig ar wahân o ran 2014/15.

Ceir manylion pellach am gydnabyddiaeth ariannol a buddiannau pensiwn y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn nodyn 9b yn y datganiadau ariannol. Archwilir y wybodaeth hon.

Penodir aelodau'r Cyngor gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd a gellid eu hailbenodi am ddau gyfnod pellach o dair blynedd. Penodwyd y Cadeirydd presennol, yr Athro Dai Smith, yn aelod o'r Cyngor ar 1 Ebrill 2004, ond cymerodd y gadeiryddiaeth drosodd ar 1 Ebrill 2006. Wedyn penododd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yr Athro Dai Smith am dymor o dair blynedd (1 Ebrill 2007-31 Mawrth 2010), adnewyddodd y Gweinidog dros Dreftadaeth ei benodiad am dair blynedd arall (hyd at 31 Mawrth 2013) a chyhoeddodd y Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth y pery'r Athro yn ei swydd tan 31 Mawrth 2016. Cyflogir y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr ar gcontractau parhaol yn unol â thelerau ac amodau safonol y Cyngor.

Ar ôl cwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus, mae hawl gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr gael rhybudd o 13 wythnos i derfynu eu cyflogaeth.

Dyddiadau dechrau cyflogaeth yw:  
Yr Athro Dai Smith (Cadeirydd)  
1 Ebrill 2006;

Nicholas Capaldi (Prif Weithredwr)  
15 Medi 2008;

David Alston (Cyfarwyddwr y Celfyddydau)  
1 Gorffennaf 2005;

Katherine Davies  
(Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu o 1 Chwefror 2012 ymlaen)  
24 Awst 1998;

Diane Hebb  
(Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi o 1 Chwefror 2012 ymlaen)  
13 Ionawr 1992;

Siân Tomos  
(Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio o 1 Chwefror 2012 ymlaen)  
3 Mai 1994; a

Hywel Tudor  
(Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau)  
21 Ionawr 2002.

Aelodau o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol,  
Penodiadau ac Adnoddau Dynol a wasanaethodd  
er 1 Ebrill 2014 oedd:

Yr Athro Dai Smith (aelod o'r Cyngor);

Margaret Jervis MBE DL (aelod o'r Cyngor);

Dr John Geraint (aelod o'r Cyngor); a

Philip Westwood (aelod annibynnol).



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Erthygl 11 o'r Siarter Frenhinol ddyddiedig 30 March 1994 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi bob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon ar ffurf a sail a bennir gan Weinidogion Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail groniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, ei adnoddau sy'n dod i mewn a'r ffordd y defnyddia adnoddau, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (diwygiwyd 2005), ac i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofnion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- ufuddhau i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion datgelu a chyfrifyddu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu dros y Cyngor. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Cyngor, yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015



# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Ymddiriedolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Archwiliais hefyd y wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw yn archwiliedig.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Weithredwr - ac yntau'n Swyddog Cyfrifyddu - sy'n gyfrifol am baratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol, a'r datganiadau ariannol yn unol ag Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol imi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad i gael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Celfyddydau Cymru ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Gyngor Celfyddydau Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig, a nodi unrhyw wybodaeth sy'n sylweddol anghywir a hynny'n seiliedig ar y wybodaeth a gefais yng nghwrs gwneud yr archwiliad hwn neu'n anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o fusnes Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2015 a'i warged a'i lifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi'u paratoi'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddir dan erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor; ac

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol a adroddaf wrthyf os, yn fy marn:

- nad adlewyrcha'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gydymffurfiaid â chanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi o ran cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

15 Gorffennaf 2015

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Cyngor Celfyddydau Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru yw cynnal gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a sicrhau cywirdeb; nid yw'r gwaith a gyflawnwyd gan yr ymchwilydd yn cynnwys ystyriaeth ar y materion yma ac o ganlyniad nid yw'r archwilydd yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a ddigwydd i'r datganiadau ariannol unwaith y cyflwynwyd hwy'n y lle cyntaf ar y wefan.

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol**  
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

		Arian anghyfyngedig	Arian cyfyngedig	2015 Cyfanswm	2014 Cyfanswm
	Nodyn	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>ADNODDAU SY'N DOD I MEWN</b>					
Adnoddau sy'n dod i mewn o arian a gynhyrchwyd					
<i>Incwm gwirfoddol:</i>					
Cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru	3	32,132	647	32,779	34,226
Grantiau a rhoddion eraill	4	-	-	-	845
Is-gyfanswm incwm gwirfoddol		32,132	647	32,779	35,071
<i>Gweithgareddau cynhyrchu arian:</i>					
Gwasanaethau a nawdd	5	257	22	279	211
<i>Incwm buddsoddi:</i>					
Llog banc		9	-	9	9
Adnoddau eraill sy'n dod i mewn	6	91	-	91	508
<b>Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn</b>		<b>32,489</b>	<b>669</b>	<b>33,158</b>	<b>35,799</b>
<b>ADNODDAU A WARIWYD</b>					
Gweithgareddau elusennol	7,8,9	32,821	687	33,508	36,696
Costau llywodraethu	10	85	-	85	89
Cymorth grant a ildwyd i Lywodraeth Cymru		-	-	-	300
Llog banc a ildwyd i Gronfa Gyfunol Cymru		9	-	9	9
<b>Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd</b>		<b>32,915</b>	<b>687</b>	<b>33,602</b>	<b>37,094</b>
<b>Adnoddau net a dderbyniwyd/ (a dalwyd allan)</b>					
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd	15	(426)	(18)	(444)	(1,295)
		82	(82)	-	-
<b>Symudiad net yn yr arian</b>		<b>(344)</b>	<b>(100)</b>	<b>(444)</b>	<b>(1,295)</b>
Balansau arian a ddygwyd ymlaen		1,708	232	1,940	3,235
<b>Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen</b>		<b>1,364</b>	<b>132</b>	<b>1,496</b>	<b>1,940</b>

Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40-61 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mantolen  
ar 31 Mawrth 2015

	Nodyn	2015		2014	
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau sefydlog</b>					
Asedau sefydlog anniriaethol	11a		6		7
Asedau sefydlog diriaethol	11b		172		249
			<u>178</u>		<u>256</u>
Buddsoddi yng Ngherdd Cymru Cyf	1b, 20		-		-
<b>Asedau cyfredol</b>					
Grantiau a dalwyd ymlaen llaw	12	344		496	
Dyledwyr a rhagdaliadau eraill	13	1,133		1,216	
Arian a phethau cyfwerth ag arian		564		1,021	
		<u>2,041</u>		<u>2,733</u>	
<b>Credydwyr: symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn</b>					
Grantiau taladwy		(236)		(504)	
Credydwyr eraill sy'n ddyledus mewn blwyddyn		(487)		(545)	
	14	<u>(723)</u>		<u>(1,049)</u>	
Asedau cyfredol net			<u>1,318</u>		<u>1,684</u>
Cyfanswm yr asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol			1,496		1,940
Asedau net			<u><u>1,496</u></u>		<u><u>1,940</u></u>
Cynrychiolwyd gan:					
<b>Arian</b>					
Arian anghyfyngedig	15		1,364		1,708
Arian cyfyngedig	15		132		232
			<u>1,496</u>		<u>1,940</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40-61 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015

## Datganiad Llif Arian

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

	Nodyn	2015 £'000	2014 £'000
Mewnlif/(all-lif) arian net oddi wrth weithgareddau gweithredu	17a	(416)	(414)
Llog banc		9	9
		<hr/>	<hr/>
		(407)	(405)
Gwariant cyfalaf	17b	(50)	(65)
		<hr/>	<hr/>
Cynnydd/(Lleihad) mewn arian yn y flwyddyn	17c	(457)	(470)
		<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40-61 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol

### 1. Accounting policies

#### a. Sail y paratoi

Paratoir y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol a addasir i gynnwys rhai asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyfredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a bodlonant ofynion Deddf Elusennau 2006 a 2011, cyfarwyddiadau'r Comisiwn Elusennau ar Gyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (diwygiedig 2005) a Datganiadau o Ymarfer Safonol Cyfrifyddu a Safonau Adrodd Ariannol a gyflwynwyd ac a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu cyn belled bod y gofynion yn briodol. Yn ogystal â chydymffurfio â'r Datganiad Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau, rhoddir ystyriaeth i *Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad Arfer a Argymhellir. Nodir isod grynodedb o'r prif bolisiau cyfrifyddu sydd wedi'u cymhwyso'n gyson.

#### b. Cerdd Cymru Cyfyngedig

Mae gan y Cyngor fudd 50% yng Ngherdd Cymru sef cyd-drefniant â Sefydliad Cerdd Cymru. Yn unol ag FRS 9 y cyfrifir y budd hwn yn gyd-drefniant nad yw'n endid na chyfunwyd â datganiadau ariannol y Cyngor. Yn lle gwneud hyn, nodwyd cyfran y Cyngor o lif arian yng Ngherdd Cymru a chyfrifyddwyd amdani yn Natganiad y Gweithgareddau Ariannol petai'n rhan o weithrediadau'r Cyngor. Dangosir unrhyw symiau sy'n ddyledus i Gerdd Cymru neu'n ddyledus ganddi inni dan y penawdau priodol yn y fantolen. Ni chyfunwyd y trefniant ac felly ni chofnodir unrhyw fuddsoddiad yng Ngherdd Cymru yn ei gost hanesyddol - llai'r lleihad yn y gwerth i adlewyrchu cyfran y Cyngor o'r asedau net, lle mae hyn yn is. Ni chymer y datganiadau ariannol i ystyriaeth unrhyw warged a gynhyrchir ac a ddelir yng Ngherdd Cymru am fod cyfyngiadau arno ac ansicrwydd ynghylch ei ddsbarthu. (Gweler nodyn 20)

Ataliodd Bwrdd Sefydliad Cerdd Cymru waith y cwmni dros dro ar hyn o bryd a gofynnwyd i'r cyfarwyddwyr ddarparu i Lywodraeth Cymru, a fu gynt yn brif ariannwr Sefydliad Cerdd Cymru, ddogfen opsiynau am gefnogaeth angenrheidiol i'r sector cerddoriaeth yn y dyfodol. Ar y cyd, parhawn i gynllunio gweithgarwch Cerdd Cymru a chynigiodd Llywodraeth Cymru gefnogaeth mewn egwyddor am bresenoldeb a chynrychiolaeth Cymru mewn digwyddiadau yn y dyfodol megis WOMEX a Gŵyl Ryng-geltaidd An Oriant.

Dywedodd Bwrdd Sefydliad Cerdd Cymru fod dirwyn y cwmni i ben yn ffurfiol yn bosibl ond y bydd unrhyw benderfyniad yn y dyfodol yn ddarostyngedig i ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddogfen opsiynau.

#### c. Incwm

Rhoddir cyfrif am bob incwm ar sail groniadau, heblaw am gymynroddion, cyfraniadau a rhoddion a gydnabyddir dim ond pan gânt eu derbyn. Trinnir grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy fel adnoddau sy'n dod i mewn.

Ni chofnodir incwm yn wariant net yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol.

#### ch. Dosbarthu arian y Loteri

Ni chwmpasa'r datganiadau ariannol hyn swyddogaeth y Cyngor i ddsbarthu'r loteri y paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar ei chyfer yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Â'r Cyngor i gostau sy'n cynnal ei weithgareddau cyffredinol a'i swyddogaeth o ddsbarthu arian y loteri. Yn unol â'r Cyfarwyddyd Ariannol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn dosrannu costau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes hyn o weithgarwch gan gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau priodol neu'r adnoddau a ddefnyddiwyd ganddynt.

#### d. Adnoddau a wariwyd

Rhoddir cyfrif am bob gwariant ar sail groniadau ac mae wedi'i ddsbarthu dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

#### dd. Grantiau a roddwyd

Ceir gwariant cymhorthdal ar ffurf grantiau a gynigir yn ffurfiol i sefydliadau a ariennir gan y Cyngor. Cynigir grantiau er mwyn cynnal rhaglen o weithgareddau y cynlluniwyd ar eu cyfer, neu sy'n cychwyn mewn blwyddyn ariannol benodol a chodir hwy ar Ddatganiad o Weithgareddau Ariannol y flwyddyn honno.

Ar y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ni chodir blaenymrwymadau a wneir yn y flwyddyn gysylltiedig â gweithgarwch y flwyddyn nesaf fel y dywed nodyn 19. Ni chred yr ymddiriedolwyr y byddai cynnwys y grant mewn cymorth i gwrdd â'r ymrwymadau hyn yn rhoi golwg wir a theg ar ddefnydd y Cyngor o'i adnoddau am na chaiff ei gydnabod nes caiff ei dderbyn.

Dangosir grantiau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn yn gredydwy'r yn y Fantolen. Dangosir unrhyw ragdaliadau a wnaed mewn perthynas â grantiau a gymeradwywyd yng nghyswllt gweithgareddau yn y flwyddyn nesaf yn y Fantolen megis asedau cyfredol.

Mae pob grant wedi'i restru yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

#### e. Gwasanaethau a nawdd

Cynnwys gwasanaethau a nawdd y costau uniongyrchol, gan gynnwys staff a dibrisiant, y gellir eu priodoli i weithgareddau elusennol.

#### f. Dyrannu costau gweithredu

Dyrannwyd costau gweithredu yn y lle cyntaf rhwng gweithgareddau elusennol a llywodraethu. Rhannwyd costau gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau elusennol i adlewyrchu'r amser a werir gan y staff wrth ddarparu gweithgareddau a chefnogaeth uniongyrchol i'w darparu. Mae dyraniad a dadansoddiad y costau hyn yn nodyn 7, 8 a 9.

#### ff. Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu yn cynnwys pob cost sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor fel elusen a'i gydymffurfiaeth â rheoleiddio ac arferion da. Dadansoddir y costau hyn yn nodyn 10.

#### g. Arian tramor

Trosir yn unol â'r gyfradd gyffredinol ar adeg y trafodyn arian refeniw a gafwyd a gwariant yr aed iddo mewn arian tramor. Caiff unrhyw falansau a ddelir mewn arian tramor eu trosi yn unol â'r gyfradd gyffredinol ar adeg dyddiad y Fantolen. Trosir yn unol â chyfradd y contract drafodion a balansau a gwmpesir gan flaengontractau.



## ng. Cydnabod rhwymedigaethau

Cydnabyddir rhwymedigaethau pan gyfyd rhwymedigaeth i drosglwyddo buddiannau economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddiwyddiadau yn y gorffennol.

### h. Cyfrifyddu arian

Arian cyfyngedig yw'r hwn a ddefnyddir yn ôl cyfyngiadau penodol a orfodir gan roddwyr neu a wnawn am resymau penodol. Mae'r gost o godi a gweinyddu arian o'r fath wedi'i chodi ar y gronfa benodol. Nodir amcan a defnydd pob cronfa gyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Arian anghyfyngedig yw'r hwn sydd ar gael i'w ddefnyddio yn ôl disgrisiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion ein siarter ac na ddynodwyd at unrhyw ddibenion eraill.

Lle dyrennir costau cynnal i weithgareddau elusennol cyfyngedig trosglwyddir swm o'r arian anghyfyngedig i dalu'r costau hyn.

### i. Asedau sefydlog

Perchnoga'r Cyngor ddau eiddo rhydd-ddaliadol (Theatr y Sherman a Stiwdio Ddawns Rubicon) a osodir ar brydlesau hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gan y Cyngor a heb ddarpariaeth i'r Cyngor eu hailfeddiannu. Yn seiliedig ar gyngor gan syrfewyr siartredig allanol ac annibynnol, ystyrir bod gwerth gweddilliol y buddiannau rhydd-ddaliadol hyn yn fach iawn felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Trinnir costau datblygu gwefan, yn unol â chrynodeb 29 o'r Tasglu Materion Brys, fel asedau sefydlog diriaethol.

Trinnir trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol fel asedau sefydlog anniriaethol os cwmpasant fwy nag un flwyddyn.

Ac eithrio eiddo rhydd-ddaliadol, cynhwysir pob ased sefydlog diriaethol ac anniriaethol ar gost hanesyddol lai rhywfaint am ddibrisiant ac amorteiddiad. Ym marn y Cyngor, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerth y llyfr ac un y farchnad.

### l. Amorteiddiad a dibrisiant

Cyfafeir asedau unigol sy'n costio £1,000 ac yn ddrutach a rhoddir blwyddyn gyfan o ddibrisiant ym mlwyddyn eu caffael. Darperir amorteiddiad ar asedau sefydlog anniriaethol a dibrisiant ar asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiant pob ased i'w gwerth gweddilliol ar sail llinell syth dros eu bywyd defnyddiol disgwylidig fel a ganlyn:

Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol	dros 3 blynedd
Gwelliannau prydlesol	dros gyfnod y brydles
Celfi, gosodion a ffitiadau	dros 10 mlynedd
Offer	dros 4 blynedd
Costau datblygu gwefan	dros 3 blynedd
System gyfrifiadurol	dros 3 blynedd

## ll. Prydlesi

Codir costau prydlesi gweithredol ar y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros fywyd y brydles.

## m. Pensiynau

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994 sy'n darparu buddiannau diffiniedig i'w weithwyr. Codir am gostau ein cyfraniadau ar y Datganiad Gweithgareddau Ariannol fel y gellir rhannu cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr.

Mae'r gronfa'n gynllun cyflogwyr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag FRS 17.

Cyflwynodd y Cyngor hefyd gynllun cyfraniad diffiniedig, Pensiwn y Bobl, sy'n effeithiol o 1 Mai 2014 ymlaen yn ddewis amgen i ddiwallu gofynion deddfwriaeth Awtogofrestru. Cyfrifyddir ar gyfer y cynllun yn unol ag FRS 17.

## n. Trethiant

Codir Treth Ar Werth anadenilladwy a ddeilia o wariant ar weithgareddau nad ydynt yn rhai busnes ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu caiff ei chyfalafu yno fel ased sefydlog lle y bo'n gymwys.

## o. Offerynnau ariannol

Asedau ariannol: Nid yw dyledwyr masnachol yn cario unrhyw log a chânt eu nodi ar eu gwerth nominal fel y'u gostyngwyd gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadenilladwy amcangyfrifedig. Mae arian yn cynnwys arian parod ac arian yn y banc ac arian wedi'i gadw yn y tymor byr ond ar delerau sy'n caniatáu ei gael ar unwaith.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw credydwyr masnachol yn cario llog a chânt eu nodi ar eu gwerth nominal.

## 2. Gweithgareddau cyffredinol a dosbarthu'r Loteri: adnoddau cyfunol sy'n dod i mewn a gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau

Dengys cyfrif dosbarthu'r Loteri sydd ar wahân fod cyfran 2014/15 y Cyngor o enillion o'r Loteri Genedlaethol yn £19,518,000, gan gynnwys ad-daliad o £1,487,000 o Gronfa Dosbarthu'r Loteri Olympaidd (2013/14: £16,892,000). Ar gyfer 2014/15, cyfanswm cyfunol yr adnoddau a ddeuai i mewn o ran gweithgareddau cyffredinol a'r Loteri oedd £52,784,000 (2013/14: £52,843,000). Cyfanswm cyfunol y gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau ar gyfer 2014/15 oedd £52,450,000 (2013/14 (a ailddatganwyd): £56,556,000).

3. Adnoddau a dderbyniwyd  
Incwm gwirfoddol: Cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru

	Arian anghyfyngedig £'000	Arian cyfyngedig £'000	2015 Cyfanswm £'000	2014 Cyfanswm £'000
Cymorth grant mewn arian a dalwyd yn llawn i adnoddau a dderbyniwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol	32,132	647	32,779	34,226

4. Adnoddau a dderbyniwyd  
Incwm gwirfoddol:  
Grantiau a rhoddion eraill

	Arian anghyfyngedig £'000	Arian cyfyngedig £'000	2015 Cyfanswm £'000	2014 Cyfanswm £'000
Grantiau o arian Ewrop	-	-	-	155
<i>Sbardun</i> – cyfraniad oddi wrth raglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cymru	-	-	-	100
Gŵyl Dylan Thomas yn Gant – cyfraniadau oddi wrth bartneriaid	-	-	-	590
	-	-	-	845

5. Adnoddau a dderbyniwyd  
Gweithgareddau cynhyrchu arian:  
Gwasanaethau a nawdd

	Arian anghyfyngedig £'000	Arian cyfyngedig £'000	2015 Cyfanswm £'000	2014 Cyfanswm £'000
Cynllun Teithio Cymunedol:				
- cyfraniadau gan leoliadau/hyrwyddwyr	118	-	118	114
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru:				
- cyfraniad oddi wrth The British Council	-	22	22	60
- cyfraniadau gan eraill	3	-	3	3
A godir ar y <i>Cynllun Casglu</i>	25	-	25	25
Cynhadledd Flynyddol - ffioedd cynadleddwyr	6	-	6	6
Symposiwm Marchnata'r Celfyddydau - ffioedd yr hyfforddeion	-	-	-	2
Incwm arall	105	-	105	1
	257	22	279	211

6. Adnoddau a dderbyniwyd  
Adnoddau eraill sy'n dod i mewn

	Arian anghyfyngedig £'000	Arian cyfyngedig £'000	2015 Cyfanswm £'000	2014 Cyfanswm £'000
Cyfraniad o gyfrif Dosbarthu'r Loteri am ddefnyddio asedau sefydlog	33	-	33	48
Cyfran o incwm Cerdd Cymru (nodyn 20)	58	-	58	411
Cymhelliant prydles - rhyddhau incwm gohiriedig	-	-	-	49
	<u>91</u>	<u>-</u>	<u>91</u>	<u>508</u>

7. Adnoddau a wariwyd  
Gweithgareddau elusennol

	Gweithgareddau uniongyrchol £'000	Costau cefnogi £'000	2015 Cyfanswm £'000	2014 Cyfanswm £'000
Rhoi grantiau a datblygu'r celfyddydau <sup>1</sup>	29,296	364	29,660	32,231
Strategaeth y Celfyddydau	1,510	290	1,800	2,157
Rhyngwladol	579	97	676	793
Gwasanaethau: <i>Noson Allan a'r Cynllun Casglu</i>	585	87	672	667
Eiriolaeth ac ymchwil	568	33	601	374
Lleihad yn y buddsoddiad yng Ngherdd Cymru				
Ngherdd Cymru (nodyn 20)	37	-	37	35
Cyfran o wariant Cerdd Cymru (nodyn 20)	62	-	62	394
Prosiectau a ariennir gan Ewrop	-	-	-	45
	<u>32,637</u>	<u>871</u>	<u>33,508</u>	<u>36,696</u>

<sup>1</sup> Gan gynnwys grantiau:

- i gyrff cyhoeddus	4,382	4,853
- i gyrff preifat	23,992	25,917
	<u>28,374</u>	<u>30,770</u>

Mae pob grant wedi'i restru yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

## 8. Costau gweithredu

	Costau gros £'000	Tynnu aiddaliadau i Ddosbarthu'r Loteri £'000	2015 A godir net ar Weithgareddau Cyffredinol £'000	2014 A godir net ar Weithgareddau Cyffredinol £'000
<b>A godir ar Weithgareddau</b>				
<b>Uniongyrchol (nodyn 7)</b>				
Dyrannu grantiau a datblygu'r celfyddydau	508	273	235	249
Strategaeth y Celfyddydau	279	91	188	185
Rhyngwladol	62	-	62	83
Gwasanaethau: <i>Noson Allan</i> <i>a'r Cynllun Casglu</i>	56	-	56	57
Eiriolaeth ac ymchwil	46	24	22	24
Prosiectau a ariennir gan Ewrop	-	-	-	5
	<b>951</b>	<b>388</b>	<b>563</b>	<b>603</b>
<b>A godir ar gostau Cefnogi (nodyn7)</b>				
Costau cysylltiedig â'r staff	49	25	24	33
Seilwaith	195	93	102	97
Costau rhedeg swyddfa	20	10	10	12
Ffioedd proffesiynol	62	47	15	27
TAW anadenilladwy	52	26	26	27
Amorteiddiad a dibrisiant	47	12	35	32
	<b>425</b>	<b>213</b>	<b>212</b>	<b>228</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,376</b>	<b>601</b>	<b>775</b>	<b>831</b>

## 9. Costau staff

### a. Cynnwys cyfanswm costau staff y canlynol:

	Costau gros £'000	Tynnu aiddaliadau i Ddosbarthu'r Loteri £'000	2015 A godir net ar Weithgareddau Cyffredinol £'000	2014 A godir net ar Weithgareddau Cyffredinol £'000
Cyflogau	2,703	838	1,865	1,883
Costau nawdd cymdeithasol	210	65	145	166
Costau pensiwn eraill	590	181	409	347
Costau asiantaeth	34	11	23	8
	<b>3,537</b>	<b>1,095</b>	<b>2,442</b>	<b>2,404</b>

Ymgorfforir costau staff yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

#### A godir ar Weithgareddau

##### Uniongyrchol (nodyn 7)

	Costau gros £'000	Tynnu aiddaliadau i Ddosbarthu'r Loteri £'000	2015 A godir net ar Weithgareddau Cyffredinol £'000	2014 A godir net ar Weithgareddau Cyffredinol £'000
Dyrannu grantiau a datblygu'r celfyddydau	1,225	493	732	712
Strategaeth y Celfyddydau	748	164	584	528
Rhyngwladol	194	-	194	238
Gwasanaethau – Noson Allan a'r Cynllun Casglu	174	-	174	164
Eiriolaeth ac ymchwil	103	36	67	65
Prosiectau a ariennir gan Ewrop	-	-	-	15
	<b>2,444</b>	<b>693</b>	<b>1,751</b>	<b>1,722</b>

##### A godir ar gostau Cefnogi (nodyn 7)

Rheoli a rheoli mewnol	469	182	287	273
Cyllid	213	75	138	139
Technoleg gwybodaeth a chyfrifiadurol	141	50	91	95
Rheoli cyfleusterau	65	23	42	40
Adnoddau dynol	34	12	22	28
Cyfathrebu	122	43	79	75
	<b>1,044</b>	<b>385</b>	<b>659</b>	<b>650</b>

##### A godir ar Lywodraethu (nodyn10)

Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd	49	17	32	32
	<b>3,537</b>	<b>1,095</b>	<b>2442</b>	<b>2,404</b>

Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd oedd:

	Ar draws yr holl Gyngor Nifer	Ar Weithgareddau Ddosbarthu'r Loteri Nifer	2015 Ar Weithgareddau Cyffredinol Nifer	2014 Ar Weithgareddau Cyffredinol Nifer
Ar weithgareddau elusennol: a godir yn uniongyrchol	11	-	11	11
Ar weithgareddau elusennol: a ailgodir	48	14	34	35
Yn cefnogi ein gweithgareddau elusennol	16	8	8	8
Staff asiantaeth	1	-	1	1
	<b>76</b>	<b>22</b>	<b>54</b>	<b>55</b>

	2015	2014
Ar 31 Mawrth y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol (gyfwerth ag amser llawn) am yr holl Gyngor oedd	£31,000	£30,000

Y gymhareb rhwng y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol a chydabyddiaeth flynyddol yr aelod o'r staff â'r cyflog uchaf (yn yr holl Gyngor) oedd:	1:3.01	1:3.12
---	--------	--------

- b. Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a'u buddion pensiwn fel y dangoswyd yn y tablau canlynol.

Mae swm buddion y pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at un cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei glandro mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth ac yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994.

Dyma sut y clendrir gwerth buddion pensiwn: (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn\* x 20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) - (cyfraniadau a wnaed gan yr aelodau)

\*gan eithrio'r cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, eithr clandrad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gellir dylanwadu ar ffigyrau gan nifer o ffactorau, er enghraifft newidiadau yng nghyflog rhywun, os ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'u cyflog neu beidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Un cyfanswm o'r ffigyrau cydnabyddiaeth ariannol oedd:

Enw a Swydd/safle	2015			2014		
	Taliadau <sup>1</sup> band £'000	Buddion pensiwn £'000	Un cyfanswm o ran cydnabyddiaeth ariannol £'000	Taliadau <sup>1</sup> band £'000	Buddion pensiwn £'000	Un cyfanswm o ran cydnabyddiaeth ariannol £'000
Nicholas Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	90-95	24	115-120	90-95	22	115-120
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	65-70	19	85-90	65-70	22	90-95
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu</i>	60-65	49	110-115	55-60	37	95-100
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgysylltu</i>	60-65	34	95-100	55-60	27	80-85
Siân Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</i>	60-65	41	100-105	55-60	32	85-90
Hywel Tudor <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	65-70	19	85-90	65-70	24	90-95

<sup>1</sup> Taliadau – nid oes canllawiau wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth Cymru o ran hawl y Prif Weithredwyr i gael swm anghyfernerthedig cysylltiedig â pherfformiad ar gyfer 2014/15. Nid oes gan y Cyfarwyddwyr eraill hawl i gael dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad.



Buddion y pensiwn oedd:

Enw a Swydd/safle	2015		2015		2015	2014	2015
	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad cysylltiedig yn oed 65	£'000	Cyfanswm gronnyd yn oed 65 ar 31 Mawrth 2015 a chyfundaliad cysylltiedig	£'000	Gwerth Trosglwyddo <sup>2</sup> Cyfwerth ag Arian ar 31 2015	£'000	Gwerth Trosglwyddo mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfateb ag Arian
Nicholas Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 2.5-5		Pensiwn 5-10 Cyfundaliad 20-25		138	91	47
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 2.5-5		Pensiwn 5-10 Cyfundaliad 20-25		159	124	35
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 5-7.5		Pensiwn 20-25 Cyfundaliad 60-65		379	263	116
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 2.5-5		Pensiwn 10-15 Cyfundaliad 30-35		212	145	67
Siân Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 5-7.5		Pensiwn 15-20 Cyfundaliad 45-50		300	209	91
Hywel Tudor <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 2.5-5		Pensiwn 10-15 Cyfundaliad 35-40		238	185	53

<sup>2</sup> Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian - ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian yw gwerth cyfalafol buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddiannau a brisir yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan ymedy'r aelod ô'r cynllun a dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Noda'r ffigurau pensiwn a ddangosir y buddiannau a gronnyd gan yr unigolyn ar ôl dod yn aelod llawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Cynnwys y ffigurau werth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Cynhwysant unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronnodd aelod drwy brynu ar ei draul ei hun flynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian yn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariad ac nid ystyria unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

Mae Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn o ganlyniad i sawl cwmp sylweddol mewn cyfraddau â dyddiad hir y clendir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian arnynt. Yn ymysig disgwyliad i'r rhain gynyddu Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian gan ryw 15%-25% gan ddibynnu ar oed aelod.

<sup>3</sup> Gwir gynydd yng Ngwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian - adlewyrcha hwn y cynnydd yng Ngwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian a ariennir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Ni chynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig sy'n seiliedig ar chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) a defnyddia ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau a diwedd y cyfnod ariannol.

Caiff y Cadeirydd, gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, dâl am ei wasanaethau ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Ni thelir Aelodau eraill o'r Cyngor, Aelodau o'r Pwyllgorau nac Ymgynghorwyr Cenedlaethol am eu gwasanaeth. Cynnwys costau cyfarfod y Cyngor ar gyfer 2014/15 swm crynswth o £14,169 (2013/14: £15,477) a ad-dalwyd i 14 (2013/14: 14) o aelodau o'r Cyngor.

Cynhwysai cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr:

	2015 £	2014 £
Cadeirydd		
Cyflog	<u>43,810</u>	<u>43,810</u>
Prif Weithredwr		
Cyflog	93,380	93,380
Cyfraniad pensiwn y cyflogwr	<u>18,676</u>	<u>16,155</u>
	<u>112,056</u>	<u>109,535</u>

	2015 £	2014 £
Costau teithio a chynhالياeth a gafwyd ac a dalwyd wrth gyflawni busnes y Cyngor:		
Cadeirydd	2,947	3,129
Prif Weithredwr	6,117	8,744

65% (2013/14: 66%) o daliadau'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd a godir yn y datganiadau ariannol hyn a chodir y gweddill ar weithgareddau dosbarthu'r loteri.

- c. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994). Mae'r gronfa yn gynllun buddiant diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag FRS 17.

Fel arfer digwydd prisiad actiwaraid annibynnol o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau bob tair blynedd. Ar 1 Ebrill 2014 y daeth y prisiad diweddaraf i rym sef un o 31 Mawrth 2013. Cyflwynodd y prisiad gyfraddau cyfrannu newydd i'r Cyngor o ran cronni buddion a lefel leiafsymiol o daliadau blynyddol tuag at y diffyg hanesyddol yn y gwasanaeth ar raddfa a gynghorwyd gan actiwari'r cynllun. I gael gwared ar y diffyg, argymhellid yr actiwari oedd cynyddu cyfraniadau'r cyflogwr dros y 9 mlynedd nesaf o gymharu â'r 13 mlynedd a ddefnyddiwyd gynt.

Gan dybio y byddai'r symiau a argymhellwyd yn cael eu talu i'r Cynllun, roedd yr actiwari o'r farn y bydd adnoddau'r cynllun fel rheol yn debygol o fodloni holl rwymedigaethau'r cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus. Dyma'r prif ragdybiaethau actiwaraid a ddefnyddiwyd: y byddai pris chwyddiant yn 2.75% y flwyddyn; y byddai codiadau cyflog yn 1.5% y flwyddyn am y 5 mlynedd cyntaf a 3.5% wedyn; y byddai codiadau pensiwn yn 2.75% y flwyddyn ar ben Pensiynau Lleiafsymiol wedi'u Gwarantu; y byddai codiadau pensiwn gohriedig yn 2.75% y flwyddyn ar bensiynau a gronnwyd cyn Ebrill 2009 a 2.5% ar y rhai a gronnwyd ar ôl y dyddiad hwnnw a bod y ddau'n ddarostyngedig i ailbrisiadau statudol; y byddai cyfradd disgownt hanesyddol yn y gwasanaeth yn 4.8% y flwyddyn a chyfradd disgownt y dyfodol yn y gwasanaeth yn 4.8% y flwyddyn.

Cyfraniadau y Cyngor a'i weithwyr oedd:

Ar gyfer staff sy'n ymuno â'r Cynllun:	Y Cyngor		Cyflogeion	
	2015	2014	2015	2014
ar neu cyn 31 Awst 2006	22.0%	19.3%	1.5%	1.5%
o 1 Medi 2006 hyd 31 Mawrth 2010	20.0%	17.3%	3.5%	3.5%
ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010	17.5%	14.8%	6.0%	6.0%

Roedd yn rhaid i'r Cyngor hefyd gyfrannu taliad lleiafswmiol o £48,700 tuag at y diffyg yn ystod 2014/15 (2013/14: £48,000).

Ni fu dim newidiadau i'r cyfraddau cyfrannu hyn hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.

Tâl y Cyngor hefyd gyflog pensiynadwy o 0.2% mewn perthynas â phob aelod sy'n cael yswiriant bywyd yn unig.

Dan ddeddfwriaeth Awtogofrestru bydd yn rhaid i bob gweithiwr ymuno â chynllun pensiwn cymwys heblaw bod y gweithiwr hwnnw'n optio allan yn ffurfiol. Cyflwynasom gynllun cyfraniad diffiniedig, Pensiwn y Bobl, yn ddewis amgen ar gyfer y gweithwyr nad oeddynt yn aelodau o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau.

Awtogofrestrasom bob un o'n gweithwyr cymwys ym Mhensiwn y Bobl ar 1 Mai 2014, sef ein diwrnod gweithredu swyddogol. Mae'r Cyngor yn cyfrannu 4% a'r gweithiwr 1%. Bydd y cyfraddau hyn yn newid yn y dyfodol, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

#### 10. Adnoddau a wariwyd Costau llywodraethu

	2015	2014
	Cyfanswm	Cyfanswm
	£'000	£'000
Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd	32	32
Cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd - Archwilio	22	22
Archwiliad mewnol	14	12
Ymgynghori	-	2
Cyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys costau teithio a chynhaliaeth yr Aelodau	8	10
Cyfarfodydd Pwyllgor, gan gynnwys costau teithio a chynhaliaeth	9	11
	<u>85</u>	<u>89</u>

## 11. Asedau sefydlog

### a. Asedau sefydlog anniriaethol

	Trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol £'000
Cost ar 1 Ebrill 2014	578
Ychwanegiadau	3
Gwarediadau	-
Cost ar 31 Mawrth 2015	<u>581</u>
Amorteiddiad ar 1 Ebrill 2014	571
Tâl a godwyd am y flwyddyn	4
Gwarediadau	-
Amorteiddiad ar 31 Mawrth 2015	<u>575</u>
Amorteiddiad ar 31 Mawrth 2015	<u>6</u>
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2014	<u>7</u>

### b. Asedau sefydlog diriaethol

	System gyfrifiadurol, Newidiadau i eiddo prydles £'000	dodrefn ac ati £'000	Gwefan £'000	Cyfanswm £'000
Cost ar 1 Ebrill 2014	192	629	72	893
Ychwanegiadau	-	24	23	47
Gwarediadau	-	-	-	-
Cost ar 31 Mawrth 2015	<u>192</u>	<u>653</u>	<u>95</u>	<u>940</u>
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2014	147	449	48	644
Tâl a godwyd am y flwyddyn	13	64	47	124
Gwarediadau	-	-	-	-
Dibrisiant ar 31 Mawrth 2015	<u>160</u>	<u>513</u>	<u>95</u>	<u>768</u>
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015	<u>32</u>	<u>140</u>	<u>-</u>	<u>172</u>
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2014	<u>45</u>	<u>180</u>	<u>24</u>	<u>249</u>

	2015 £'000	2014 £'000
Dyrannwyd yr amorteiddiad a'r dibrisiant a godwyd i weithgareddau elusennol fel a ganlyn s (nodyn 7):		
Gweithgareddau uniongyrchol	93	88
Costau cefnogi	35	31
	<u>128</u>	<u>119</u>

- c. Cynrychiola gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015 yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i gefnogi ei weithgareddau elusennol.

Mae eiddo rhyddfrefniol y Cyngor yng Nghaerdydd, Sherman Cymru a Stiwdio Dawns Rubicon, wedi'u rhentu ar brydlesi hir a hynny'n rhad iawn, iawn i denantiaid nad ydynt dan reolaeth y Cyngor a heb ddarpariaethau naill ai ar gyfer adolygu'r rhent neu ailfeddiannu'r eiddo gan y Cyngor.

Prynwyd Theatr y Sherman gan yr hen Gyngor Celfyddydau Cymru, isadran i Gyngor Celfyddydau Prydain, ym mis Medi 1987 am £897,000 a rhentwyd y lle ar unwaith am gyfnod o 125 o flynyddoedd. Pan ddiddymwyd Gyngor Celfyddydau Prydain ym mis Mawrth 1994 trosglwyddwyd y budd rhyddfrefniol i Gyngor Celfyddydau Cymru a oedd newydd ei ffurfio.

Prynwyd Stiwdio Dawns Rubicon gan yr hen Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Chwefror 1988 am £11,315 ac yn ddarostyngedig i brydles o 999 o flynyddoedd a ddechreuasai ar 1 Ionawr 1986. Trosglwyddwyd y budd rhyddfrefniol i Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Mawrth 1994.

Mae'r prisiad allanol, annibynnol diweddaraf o eiddo rhyddfrefniol y Cyngor wedi'i wneud ar 31 Mawrth 2004. Gwnaed y prisiad gan Elizabeth Hill, Aelod o Sefydliad Brenhinol y Tirfesuryddion Siartredig, ar gyfer ac ar ran Cooke ac Arkwright, Tirfesuryddion Siartredig. Oherwydd yr effaith ar y prydlesi, barn y tirfesuryddion oedd bod gwerth y buddion rhyddfrefniol yn ddim byd neu â gwerth mewn enw'n unig, felly ystyrir yr asedau hyn yn y cyfrifon yn werth dim.

Nid yw'r Cyngor o'r farn ei bod yn angenrheidiol i ymgymryd â phrisiad pellach nes y bydd lleihad sylweddol yn hyd y prydlesi sy'n weddill neu eu bod yn cael eu terfynu'n gynt.

## 12. Grantiau a dalwyd ymlaen llaw

Mewn rhai amgylchiadau sy'n gofyn am awdurdod y Prif Weithredwr, gwna'r Cyngor daliadau ymlaen llaw cyn y flwyddyn y mae'r grant yn perthyn iddi. Mae'r grym hwn yn gyfyngedig i sefyllfaoedd lle byddai'r sefydliad derbyn yn dioddef yn ariannol fel arall.

	2015	2014
	£'000	£'000
Taliadau mewn perthynas â grantiau ar gyfer y flwyddyn ddilynol	<u>344</u>	<u>496</u>

## 13. Dyledwyr a rhagdaliadau eraill (sy'n ddyledus mewn blwyddyn)

### a. Dadansoddiad yn ôl math

	2015	2014
	£'000	£'000
Benthyciadau'r Cynllun Casglu	319	347
Dyledwyr masnachol	170	93
Dyledwyr eraill	<u>143</u>	<u>237</u>
	632	677
Tynnu darpariaeth Benodol ar gyfer dyledion amheus	(14)	(15)
Is-gyfanswm: Dyledwyr	<u>618</u>	<u>662</u>
Rhagdaliadau	<u>324</u>	<u>287</u>
	942	949
Yn ddyledus o gronfa dosbarthu'r Loteri	191	243
Cyfran o ddyledwyr a rhagdaliadau Cerdd Cymru (nodyn 20)	-	24
	<u>1,133</u>	<u>1,216</u>

	2015 £'000	2014 £'000
<b>b. Balansau yn y llywodraeth</b>		
Balansau gyda chyrrff llywodraeth ganolog eraill	114	26
Balansau gydag awdurdodau lleol	2	43
<i>Is-gyfanswm: Balansau yn y llywodraeth</i>	116	69
Balansau gyda chyrrff y tu allan i'r llywodraeth	1,017	1,147
Cyfanswm dyledwyr a rhagdaliadau	1,133	1,216

**14. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn**

	2015 £'000	2014 £'000
<b>a. Dadansoddiad yn ôl math</b>		
Grantiau taladwy	236	504
Trethiant a nawdd cymdeithasol	75	69
Credydwyr masnachol	91	96
Credydwyr eraill	58	61
Croniadau ac incwm gohiriedig	252	295
Cyfran o rwymedigaethau cyfredol Cerdd Cymru (nodyn 20)	11	24
	723	1,049

<b>b. Balansau yn y llywodraeth</b>		
Balansau gyda chyrrff llywodraeth ganolog eraill	75	69
Balansau gydag awdurdodau lleol	35	1
<i>Is-gyfanswm: Balansau yn y llywodraeth</i>	110	70
Balansau gyda chyrrff y tu allan i'r llywodraeth	613	979
Cyfanswm y credydwyr	723	1,049

**15. Datganiad ariannol**

	1 Ebrill 2014 £'000	Adnoddau a dderbyniwyd £'000	Adnoddau a wariwyd £'000	Trosglwyd- diadau £'000	31 Mawrth 2015 £'000
<b>Arian anghyfyngedig</b>					
Cronfa gyffredinol	1,708	32,489	(32,915)	82	1,364
Cyfanswm arian anghyfyngedig	1,708	32,489	(32,915)	82	1,364
<b>Arian cyfyngedig</b>					
Incwm					
Llywodraeth Cymru am weithgareddau celfyddydol penodol	100	647	(664)	(83)	-
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru: cyfraniadau gan The British Council	20	22	(23)	1	20
	120	669	(687)	(82)	20

	1 Ebrill 2014 £'000	Adnoddau a dderbyniwyd £'000	Adnoddau a wariwyd £'000	Trosglwyd- diadau £'000	31 Mawrth 2015 £'000
Cyfalaf					
Cronfa Goffa Alun Llywelyn Williams (incwm i ddarparu bwrsari i artist ifanc)	13	-	-	-	13
Cronfa Goffa Brian Ross (incwm i ddarparu bwrsari i artist gweledol ifanc)	99	-	-	-	99
	112	-	-	-	112
Cyfanswm arian cyfyngedig	232	669	(687)	(82)	132
Cyfanswm yr arian	1,940	33,158	(33,602)	-	1,496

Cynrychiolir cronfeydd coffa Alun Llywelyn Williams a Brian Ross gan arian yn y banc ac maent yn rhan o'r cyfanswm o £564,000 a ddangosir ar y fantolen.

#### 16. Dadansoddi asedau net rhwng cronfeydd

	Arian anghyfyngedig £'000	Arian cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000
Cynrychiolir balansau ar 31 Mawrth 2015 gan:			
Asedau sefydlog	178	-	178
Asedau cyfredol	1,909	132	2,041
Credydwy: symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn	(723)	-	(723)
Cyfanswm yr asedau net	1,364	132	1,496

#### 17. Gwybodaeth am lif arian

##### a. Cysoni newidiadau mewn adnoddau a mewnlif net o weithgareddau gweithredu

	2015 £'000	2014 £'000
Adnoddau net a dderbyniwyd/(a dalwyd allan)	(444)	(1,295)
Llog banc	(9)	(9)
Amorteiddiad a dibrisiant (nodyn 11b)	128	119
(Cynnydd)/Lleihad mewn grantiau a dalwyd ymlaen llaw	152	20
(Cynnydd)/Lleihad mewn dyledwyr a rhagdaliadau	83	1,065
Cynnydd/(Lleihad) mewn grantiau taladwy	(268)	400
Cynnydd/(Lleihad) mewn credydwy eraill sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(58)	(714)
Mewnlif/(all-lif) arian net oddi wrth weithgareddau gweithredu	(416)	(414)



	2015 £'000	2014 £'000
b. Dadansoddi llifau arian		
Gwariant cyfalaf		
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol (nodyn 11a)	(3)	(8)
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol (nodyn 11b)	(47)	(57)
	<u>(50)</u>	<u>(65)</u>
c. Cysoni llif arian net â symudiadau mewn arian net		
Cynnydd/(Lleihad) mewn arian yn y flwyddyn	(457)	(470)
Arian net ar 1 Ebrill	1,021	1,491
Arian net ar 31 Mawrth	<u>564</u>	<u>1,021</u>

## 18. Ymrwymadau o ran prydlesi gweithredol

Ar 31 Mawrth 2015 roedd gan y Cyngor ymrwymadau blynyddol dan brydlesi gweithredol nad oedd modd eu diddymu fel a ganlyn:

	Tir ac adeiladau		Offer	
	2015 £'000	2014 £'000	2015 £'000	2014 £'000
Prydlesi gweithredol sy'n dod i ben mewn blwyddyn	-	6	-	3
un i bum mlynedd	224	35	7	2
dros bum mlynedd	-	189	-	-

## 19. Blaenymrwymadau

	2015 £'000	2014 £'000
Grantiau		
Blaenariannu - grantiau a gynigiwyd yn ffurfiol	27,007	27,733

Cynrychiola ariannu ymlaen ar 31 Mawrth 2015 ddyraniadau i sefydliadau ac unigolion o ran prosiectau sydd ar gychwyn yn 2015/16 a lle disgwylir y gwneir taliadau mewn 12 mis.

## 20. Cerdd Cymru Cyfyngedig

Cwmni preifat cyfyngedig drwy warant a chofrestredig yng Nghymru yw Cerdd Cymru. Ymgorfforwyd ef ar 1 Medi 2011 yn gerbyd cydweithio â Sefydliad Cerdd Cymru ar brosiectau a ddatblyga ac a wella (yn genedlaethol a rhyngwladol) wybodaeth, dealltwriaeth, ymarfer a chynaliadwyedd y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, yn enwedig cerdd Cymru.

Mae'r Cyngor a Sefydliad Cerdd Cymru ar y cyd ac yn gyfartal yn berchen ar y cwmni a chyfrifyddir am y cyd-drefniant hwn nad yw'n endid yn unol ag FRS 9 (nodyn 1b).

Yn 2011/12 ymgeisiodd a chontractiodd Cerdd Cymru yn llwyddiannus i gynnal WOMEX, y ffair gerddorol fasnachol, yng Nghaerdydd yn Hydref 2013.

Cynrychiola'r buddsoddiad yng Ngherdd Cymru chwistrelliad o gyfalaf gweithio y cytunodd y Cyngor i'w roi. Oherwydd bod cyfran y Cyngor o'r asedau net yn llai na chost y buddsoddiad, lleihawyd gwerth y buddsoddiad yn unol â hyn.

	£'000
Buddsoddi ar 1 Ebrill 2014	145
Buddsoddiad eleni	37
Buddsoddi ar 31 Mawrth 2015	<u>182</u>
Lleihad ar 1 Ebrill 2014	145
Addasiad lleihau eleni	37
Lleihad ar 31 Mawrth 2015	<u>182</u>
Lleihad ar 31 Mawrth 2015	<u>Dim</u>
Gwerth net buddsoddi ar 1 Ebrill 2014	<u>Dim</u>

Dyma fudd y Cyngor yn incwm, gwariant ac asedau a r hwymedigaethau sylfaenol Cerdd Cymru:

	2015	2014
	Cyfran Cyngor y Celfyddydau	Cyfran Cyngor y Celfyddydau
	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
<b>Cyfrif Elw a Cholled</b>		
Incwm (nodyn 6)	116	58
Gwariant (nodyn7)	(124)	(62)
Adnoddau net a dderbyniwyd/ (a dalwyd allan)	<u>(8)</u>	<u>(4)</u>
	<u>34</u>	<u>17</u>
<b>Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol</b>		
Asedau cyfredol:		
Dyledwyr a rhagdaliadau (nodyn 13)	-	-
Arian yn y banc ac mewn llaw	14	7
	<u>14</u>	<u>7</u>
Rhwymedigaethau cyfredol (nodyn 14)	(22)	(11)
Asedau/(rhwymedigaethau) net	<u>(8)</u>	<u>(4)</u>
Arian wrth gefn	<u>(8)</u>	<u>(4)</u>

## 21. Offerynnau ariannol

Safon Adrodd Ariannol 13: gyda Deilliadau ac Offerynnau Ariannol Eraill mae'n rhaid datgelu'r swyddogaeth a fu gan yr offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y peryglon a wyneba'r Cyngor wrth ymgymryd â'i waith.

*Peryglon hylifedd* – Yn 2014/15 daeth £32,779,000 neu 99% o incwm y Cyngor oddi wrth Lywodraeth Cymru (2013/14: £34,226,000 neu 95.6%). O'r incwm sy'n weddill, roedd £274,000 neu 1% yn deillio o incwm oddi wrth fuddsoddiad ac incwm amrywiol (2013/14: £1,573,000 neu 4.4%). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol, ac mae'n fodlon bod incwm y dyfodol yn ddigon i gwrdd â'i ymrwymadau.

*Peryglon cyfraddau llog* – cedwir balansau a gaiff y Cyngor gan Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol dim rhybudd a oedd â chyfradd llog 0.38% ar gyfartaledd yn y flwyddyn (2013/14: 0.38%). Ar gyfartaledd roedd yr arian gwarged dyddiol a fuddsoddiwyd yng Nghronfa Gadw'r Sector Cyhoeddus wedi cario enillion ar fuddsoddi o 0.37% yn y flwyddyn (2013/14: 0.34%). Balans yr arian anghyfyngedig effeithiol ddiwedd y flwyddyn oedd £432,000 (2014: £789,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i beryglon cyfradd llog sylweddol.

*Perygl arian tramor* – nid yw gweithgareddau cyffredinol y Cyngor yn agored i unrhyw beryglon sylweddol o ran cyfnewid arian tramor

*Perygl llif arian* – nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw beryglon llif arian sylweddol.

## 22. Treth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gorff elusennol a noddir gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'n cael ei eithrio rhag treth gorfforaethol dan Adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

## 23. Digwyddiad ôl-fantolennol

Awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 15 Gorffennaf 2015.

## 24. Trafodion â pharhion cysylltiedig

Cyrff cyhoeddus

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor.

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru/Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn ni chynhaliodd y Cyngor drafodion perthnasol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru/Llywodraeth Cymru ar wahân i'r cymorth grant a ddatgelwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## Unigolion

Ymgwyrodd aelodau o'r Cyngor, o'r Pwyllgorau, o'r staff neu o bartïon cysylltiedig eraill (sef perthnasau agos) â thrafodion ariannol (a restrwyd isod) gyda'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Lle roedd unigolion a/neu aelodau o'r teulu agos yn aelodau o Fyrddau Rheoli (neu eu cyfateb) neu'n uwch gweithwyr mewn sefydliadau a gafodd gynnig grantiau neu daliadau eraill oddi wrth y Cyngor yn 2014/15, ymhob achos, yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, ymabsennodd yr unigolyn o unrhyw gyfarfod lle trafodwyd y sefydliad neu penderfynwyd ynghylch ei ariannu.

Cofnodir trafodion â'r Cyngor yn ddsbarthwr y Loteri yn y nodyn cyfatebol i Gyfrif Dosbarthu'r Loteri sydd ar wahân.

Aelod Swyddogaeth	Sefydliad	Trafodyn (nifer)	Cyfanswm gwerth £	Cyfanswm y balans sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £
<b>Aelodau o'r Cyngor</b>				
Margaret Jervis Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Cyflogaeth (Aelod o'r teulu)	Phlant y Cymoedd	Grant (1) Anfoneb (1)	120,780 498	Dim Dim
Is-gadeirydd	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Anfoneb (2)	90	Dim
Marian Wyn Jones Cyfarwyddwr a Gwirfoddolwr	Canolfan Gerdd William Mathias	Grant (1)	79,200	Dim
Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Bangor	Grant (1) Anfoneb (2)	285,000 4,856	Dim Dim
Richard Turner Cadeirydd	Celfyddydau Cymunedol Rhyngddiwyllyannol y De	Grant (1)	89,100	Dim
Alan Watkin Aelod o'r Bwrdd	Clwyd Theatr Cymru	Grant (2)	1,834,397	Dim
Yr Athro Gerwyn Williams Cyflogaeth	Prifysgol Bangor	Grant (1) Anfoneb (2)	285,000 4,856	Dim Dim
John C Williams Cyflogaeth	Theatr Iolo	Grant (1) Anfoneb (2)	261,225 19,900	Dim Dim
Cyfarwyddwr Cyswllt (yn ddi-dâl)	Sherman Cymru	Grant (1)	1,145,625	Dim

Aelod	Sefydliad	Trafodyn (nifer)	Cyfanswm gwerth £	Cyfanswm y balans sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £
Swyddogaeth				
Dr Kate Woodward Aelod o'r Pwyllgor Rheoli	Prifysgol Aberystwyth (gan gynnwys Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth)	Grant (1) Anfoneb (7)	546,000 13,337	Dim 1,297
Cyflogaeth dros dro (Aelod o'r teulu)	Arad Goch	Grant (1) Anfoneb (2)	352,935 642	Dim Dim
<b>Aelodau o'r Pwyllgor</b>				
Ruth Cayford Cyflogaeth	Cyngor Caerdydd (gan gynnwys Neuadd Dewi Sant)	Anfoneb (16)	4,130	430
Mark Davies Cyflogaeth	BBC Cymru (gan gynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC)	Grant (2) Anfoneb (1)	893,412 2,500	Dim Dim
Alan Hewson Cyfarwyddwr Prosiect ar ei liwt ei hun	Prosiect Cynghreirio Chapter (Chapter) Prosiect Cynghreirio Chapter (Earthfall) Prosiect Cynghreirio Chapter (Theatr Iolo) Prosiect Cynghreirio Chapter (Theatr Iolo)	Grant (2) Grant (1) Grant (1) Anfoneb (2)	677,024 242,550 261,225 19,900	8,174 Dim Dim Dim
Cyn-gyflogaeth	Prifysgol Aberystwyth (gan gynnwys Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth)	Grant (1) Anfoneb (7)	546,000 13,337	Dim 1,297
<b>Y staff</b>				
Nathalie Camus Aelod o'r Bwrdd (Aelod o'r teulu)	Oriel Mostyn	Grant (2) Anfoneb (2)	411,000 288	1,500 Dim
Catrin Cooke Gwirfoddolwr (di-dâl)	Theatr Harlech	Grant (2)	19,000	19,000
Katherine Davies Cyflogaeth (Aelod o'r teulu)	Cyngor Caerdydd (gan gynnwys Neuadd Dewi Sant)	Anfoneb (16)	4,130	430
Derbynnydd ysgoloriaeth (Aelod o'r teulu)	Ballet Cymru	Grant (1)	198,000	Dim

Aelod	Sefydliad	Trafodyn (nifer)	Cyfanswm gwerth £	Cyfanswm y balans sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £
Eluned Hâf Cyfarwyddwr (Aelod o'r teulu)	Canolfan Gerdd William Mathias	Grant (1)	79,200	Dim
Betsan Moses Cyflogaeth ar ei liwt ei hun (Aelod o'r teulu)	BBC Cymru (gan gynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC)	Grant (2) Anfoneb (1)	893,412 2,500	Dim Dim
David Newland Cyflogaeth (Aelod o'r teulu)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Grant (1) Anfoneb (1)	153,450 84	Dim Dim
Jennifer Stoves Prentis gyda'r Celfyddydau Ieuencid (Aelod o'r teulu)	Plant y Cymoedd	Grant (1) Anfoneb (1)	120,780 498	Dim Dim
Siân Tomos Cyflogaeth (Aelod o'r teulu)	BBC Cymru (gan gynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC)	Grant (2) Anfoneb (1)	893,412 2,500	Dim Dim
Hannah Van Den Bergh Cyflogaeth flaenorol	BBC Cymru (gan gynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC)	Grant (2) Anfoneb (1)	893,412 2,500	Dim Dim



Gŵyl Dylan Thomas yn Gant, Llenyddiaeth Cymru



Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol  
(nad yw'n rhan o'r datganiadau ariannol)

Gweithgareddau Cyffredinol - Grantiau 2014/15

Refeniw Blynyddol

Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth	£546,000
Arad Goch	£352,935
Gwobr Artes Mundi Cyf	£146,025
Gofal Celf	£131,175
Cyswllt Celf	£64,350
Celfyddydau Anabledd Cymru	£168,300
Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC	£823,412
Canolfan Gerdd William Mathias Cyf	£79,200
Chapter (Caerdydd) Cyf	£668,850
Clwyd Theatr Cymru	£1,603,875
Theatr i Bobl Ifainc Clwyd Theatr Cymru	£230,522
Cerdd Gymunedol Cymru	£103,950
g39	£69,300
Galeri Caernarfon Cyf	£321,750
Cwmni'r Frân Wen	£237,075
Dawns i Bawb	£84,150
Dawns Tan Cyf	£89,100
Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys grant ategol)	£867,125
Dawns Earthfall Cyf	£242,550
Ffotogallery	£202,950
Oriel Gelf Glynn Vivian	£123,750
Bale Cymru	£198,000
Celf ar y Blaen	£148,500
Theatr Hijinx	£158,400
Llenyddiaeth Cymru	£830,617
Cerdd Fyw Nawr Cymru	£44,550
Canolfan y Celfyddydau, Llantarnam Grange	£84,150
Opera'r Canolbarth	£102,960
Oriel Mission	£94,050
Theatr Gerdd Cymru	£222,750
National Theatre Wales	£1,642,875
Syrca Gymunedol NoFit State Cyf	£198,000
Dawns y Gogledd-ddwyrain	£74,534
Oriel Davies	£227,700
Mostyn	£396,000
Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin	£46,530
Canolfan y Celfyddydau, Pontardawe	£62,370
Dawns Powys	£111,128
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	£153,450
Cymuned Artis	£203,445
Glan yr Afon	£123,750
Dawns Rubicon	£198,000
Canolfan Grefft Rhuthun	£396,000
Sherman Cymru	£1,145,625
Sinfonia Cymru	£113,850
Carnifal Celfyddydau Rhyngddiwyllyannol Cymunedol y De	£89,100
Canolfan y Celfyddydau, Taliesin	£223,740

Theatr Bara Caws	£284,680
Theatr Brycheiniog	£198,000
Theatr Felin-fach	£59,400
Theatr Genedlaethol Cymru	£1,052,942
Hafren	£105,613
Theatr Iolo	£261,225
Theatr Mwldan	£272,550
Theatr na n'Óg	£321,602
Theatr Ffynnon	£74,250
Cwmni Theatr y Torch Cyfyngedig	£455,400
Ymddiriedolaeth Touch Cyf	£148,500
trac – Traddodiadau Cerdd Cymru	£79,200
Canolfan Ucheldre	£74,250
Prifysgol Bangor	£285,000
Celfyddydau Cymunedol Cwm a Bro Cyf	£178,200
Plant y Cymoedd	£120,780
Cwmni Theatr Volcano Cyf	£212,850
Canolfan Mileniwm Cymru	£3,907,500
Tŷ Cerdd - Canolfan Cerddoriaeth Cymru	£324,720
Opera Genedlaethol Cymru	£4,636,913
CBAC Cyf	£247,500

---

£27,747,493

#### Grantiau strategol

Celfyddydau a Busnes Cymru	£140,000
----------------------------	----------

#### Ein Lle Ni

Sefydliad y Glowyr, Coed-duon	£11,000
Chapter (Caerdydd) Cyf	£8,174
g39	£17,800
Hafren	£39,658
Mostyn	£15,000
Oriel Davies	£22,668
Canolfan Grefft Rhuthun	£18,500
Theatr Harlech	£14,000
Ymddiriedolaeth Neuadd Gymunedol a Lles y Glowyr, Ystradgynlais Cyf	£13,250

---

£160,050

#### Strategol - Cyfarwyddiaeth y Celfyddydau

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC	£70,000
Cyngor Dinas Casnewydd	£4,600
Oriel Davies	£2,500
Tŷ Cerdd - Canolfan Cerddoriaeth Cymru	£13,000

---

£90,100

## Strategol - y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu ac Ymgyfranogi

Creu Cymru - Asiantaeth Deithio Cymru	£2,500
engage (Cymdeithas Genedlaethol Addysg Oriolau) (2 grant)	£5,000
Harris, Simon	£2,470
Llenyddiaeth Cymru	£5,000
Maynard	£2,500
Oriel Mission	£5,000
River's Edge	£2,500
Cwmni Theatr Taking Flight	£2,500
Theatr Harlech	£5,000
Wales Arts Review	£2,500
Opera Genedlaethol Cymru (2 grant)	£82,500
CBAC Cyf	£2,500

---

£119,970

---

## Strategol - y Gyfarwyddiaeth Menter ac Adfywio

National Theatre Wales	£10,000
------------------------	---------


## Biennale Celf Fenis - Curadur

Ffotogallery	£106,000
--------------	----------

Cyfanswm y grantiau Strategol	£626,120
-------------------------------	----------

Cyfanswm y Grantiau a Gynigiwyd	£28,373,613
---------------------------------	-------------

## Grantiau yn ôl Math



## Beth a Gefnogwyd gan ein Grantiau?

	Gwerth y grantiau		Nifer y grantiau
<b>Grantiau sy'n cefnogi:</b>			
Theatrau a chanolfannau'r celfyddydau	£6,942,823	24.47%	14
Cynhyrchu a Chyflwyno Theatr	£6,556,647	23.11%	8
Opera	£4,962,623	17.49%	3
Dawns	£1,864,587	6.57%	9
Y Celfyddydau Gweledol a Chymwys	£1,786,455	6.30%	10
Y Celfyddydau a Phobl Ifainc	£1,650,859	5.82%	7
Cerddoriaeth	£1,464,932	5.16%	6
Y Celfyddydau Cymunedol	£1,084,050	3.82%	9
Llenyddiaeth	£830,617	2.93%	1
SyrCAS a Charnifalau	£287,100	1.01%	2
Y Celfyddydau ac Anabledd	£168,300	0.59%	1
Y Celfyddydau ac Iechyd	£148,500	0.52%	1
<b>Grantiau eraill:</b>			
Grantiau strategol	£626,120	2.21%	30
	<b>£28,373,613</b>		<b>101</b>

# Cyfrif Dosbarthu'r Loteri

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad Blynyddol:	
• Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr	68
• Adroddiad Strategol	78
o Adroddiad Cynaliadwyedd	86
• Adroddiad ar Gynabyddiaeth Ariannol	92
• Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu	96
• Datganiad Llywodraethu Blynyddol	97
Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Senedd Prydain a'r Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru	105
Datganiadau Ariannol:	
• Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net	107
• Datganiad o'r sefyllfa ariannol	108
• Datganiad o lifau arian	109
• Datganiad o newidiadau mewn ecwiti	109
• Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol	110
Atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol (nad ydynt yn rhan o'r datganiadau ariannol):	
• Cyfarwyddiadau Polisi'r Loteri Genedlaethol	124
• Grantiau a gynigiwyd	127

Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015  
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Manylion cyfeiriol a gweinyddol

Ymddiriedolwyr

Aelodau o'r Cyngor sydd wedi gwasanaethu er 1 Ebrill 2014 oedd:

		Ymbresenoli mewn cyfarfodydd yn 2014/15			
		Y Cyngor	Y Pwyllgor Archwilio	Y Pwyllgor Cyfalaf	Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol
		Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:			
		6	5	5	2
Yr Athro Dai Smith, Cadeirydd	(c)	5.5			Cadeirydd Pwyllgor 2
Dr Kate Woodward, Is-gadeirydd	(d)	6			
Dr John Geraint	(a)(c)	5	Cadeirydd Pwyllgor 5		2
Michael Griffiths OBE	(a)	4	3		
Melanie Hawthorne		5.5			
Dr Lesley Hodgson	(a)	5.5	3		
Margaret Jervis MBE DL	(c)	6			2
Marian Wyn Jones		4.5			
Andrew Miller		5			
Osi Rhys Osmond (hyd 6 Mawrth 2015)	(ch)	2/5			
Richard Turner		5			
Alan Watkin	(b)	5		5	
Yr Athro Gerwyn Williams	(b)	6		Cadeirydd Pwyllgor 5	
John C Williams	(b)	6		4	
<i>Mynychu aelodau annibynnol o'r Pwyllgorau:</i>					
Gareth Jones	(a)		4		
Phillip Westwood (Y Pwyllgor Archwilio hyd 22 Hydref 2014)	(a)(c)		2/3		2
Ruth Cayford (o 13 Chwefror 2015 ymlaen)	(b)			1/1	
Mark Davies	(b)			4	
Roland Wyn Evans	(b)			4	
Alan Hewson	(b)			4	

- (a) Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
- (b) Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf
- (c) Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol
- (ch) Aelod o Bwyllgor Celf Cymru ym Miennale Fenis

Yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor mae aelodau o'r Cyngor ac aelodau annibynnol o'r Pwyllgorau'n datgan budd o ran bod yn gyfarwyddwyr, yn aelodau o fyrddau rheoli (neu eu cyfateb) neu gyflogaeth a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau parthed Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r gofrestr o fuddiannau Aelodau o'r Cyngor ac Aelodau annibynnol o'r Pwyllgorau ar gael i'w gweld gan y cyhoedd drwy wneud apwyntiad mewn unrhyw un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Datgelir pob trafodyn ariannol rhwng yr aelodau a'r Cyngor yn nodyn 24 yn y datganiadau ariannol, *Trafodion â phartion cysylltiedig*.

### *Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu*

Nicholas Capaldi

#### *Swyddfeydd*

*Y Canolbarth a'r Gorllewin:*  
Y Mwnt  
18 Stryd y Frenhines  
Caerfyrddin  
SA31 1JT

*Y Gogledd:*  
Parc y Tywysog II  
Rhodfa'r Tywysog  
Bae Colwyn  
LL29 8PL

*Y De*  
*a'r swyddfa genedlaethol:*  
Plas Bute  
Caerdydd  
CF10 5AL

#### *Archwilydd*

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol  
157-197 Buckingham  
Llundain  
SW1W 9SP

*Archwilwyr mewnol*  
Partneriaeth Atebolrwydd  
Cyfyngedig Deloitte  
5 Sgwâr Callaghan  
Caerdydd  
CF10 5BT

#### *Cyfreithwyr*

Partneriaeth Atebolrwydd  
Cyfyngedig Geldards  
Ty Dumfries  
Plas Dumfries  
Caerdydd  
CF10 3ZF

#### *Bancwyr*

Y Banc Cydweithredol  
16-17 Stryd Fawr  
Caerdydd  
CF10 1AX

## Strwythur, llywodraethu a rheolaeth

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor. Nid yw gweithgareddau'r Cyngor i ddsbarthu'r loteri yn swyddogaeth ddatganoledig felly mae'r datganiadau ariannol hyn yn cael eu gosod gerbron Senedd Prydain a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a chânt eu harchwilio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd).

Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau o Gyngor y Celfyddydau a wasanaetha fel arfer am dair blynedd sy'n adnewyddadwy am fwyafswm o ddau dymor ychwanegol.

### Sefydlu a hyfforddi'r aelodau

Cynhelir rhaglen sefydlu i aelodau newydd i'w briffio am eu hymrwymedigaethau cyfreithiol dan y Siarter Frenhinol a chyfraith elusen, Cod yr Arfer Gorau, prosesau'r Pwyllgorau a phenderfynu, cynlluniau strategol a materion ariannu. Yn ystod y diwrnod sefydlu cânt gyflwyniadau gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.

Cânt hefyd gyfle i gwrdd â gweithwyr allweddol. Yn ogystal â'r Siarter Frenhinol a Chod yr Arfer Gorau, caiff Aelodau gopïau o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon diweddaraf, y Gyllideb Waith bresennol a chyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau, 'The Essential Trustee' a'r 'Independence of Charities from the State'. Trefnir seminarau a hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen i lywio'r broses o lunio strategaethau a pholisïau.

Mae manylion strwythur, atebolrwydd, fframwaith rheolaeth fewnol a threfniadau rheoli perygl y Cyngor yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd yn nes ymlaen yn yr Adroddiad hwn.

### Dosbarthu arian y Loteri

Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) a sefydlodd y Loteri Genedlaethol i godi arian i gefnogi achosion da yn 'y celfyddydau, chwaraeon, prosiectau treftadaeth cenedlaethol, prosiectau elusennol a phrosiectau i nodi'r mileniwm'. Y Cyngor yw un o'r cyrff sy'n gyfrifol am ddsbarthu'r arian hwn.

Dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer ei weithgareddau dosbarthu'r loteri ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae Cyfarwyddyd Cyfrifon y Loteri Genedlaethol yn mynnu yr ariennir o incwm y Loteri yr holl gostau y gellir yn gywir eu priodoli i weithgareddau'r Loteri Genedlaethol. Mae'n rhaid i'r Cyngor gyfrifyddu ar gyfer ei weithgareddau cyffredinol ar wahân.

Cynghora'r Pwyllgor Cyfalaf y Cyngor ar y gwaith o ddatblygu polisiau ar ddatblygu cyfalaf ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â cheisiadau unigol am grantiau cyfalaf. Cyflogwyd aseswyr allanol annibynnol i gynghori ar bob cais i'r Loteri am gyfalaf o £100,000 neu fwy. Y Cyngor sy'n penderfynu'n derfynol ynglŷn â rhoi grantiau Cyfalaf dros £250,000.

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo ariannu gan y Loteri i nifer o sefydliadau:

- i Ffilm Cymru (a enwyd gynt yn Asiantaeth Ffilm Cymru) ar gyfer ffilm;
- i'r Gwaddoliad Cenedlaethol ar gyfer Nesta – ar gyfer prosiectau ymchwilio a datblygu digidol;
- i BBC Cymru – ar gyfer cynllun Gorwelion i gefnogi artistiaid cerddorol cyfoes sy'n codi i'r brig; ac
- i Lenyddiaeth Cymru (o fis Ebrill 2014 ymlaen) – ar gyfer bwrsariau i awduron.

Nodir telerau'r dirprwyo allanol mewn cytundeb ffurfiol a bodlonant amodau Datganiad Gofynion Ariannol y Cyngor.

### Adnoddau dynol

#### Cyfle cyfartal

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Yn benodol, anela'r Cyngor at sicrhau na thrinnir yr un darpar weithiwr na gweithiwr gwirioneddol yn fwy neu'n llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu




genedlaethol, rhywedd, statws o ran priodas neu fod yn riant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Cyngor ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddefnyddwyr Symbolau Anabledd a adlewyrcha ei ymroddiad i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i weithwyr anabl.

### Absenoldeb salwch

Yn ystod 2014/15 cyfanswm absenoldeb salwch y staff oedd 444.5 dydd (2013/14: 587 dydd). Cynrychiolai hyn 2.24% (2013/14:2.98%) seiliedig ar 260 diwrnod gwaith, gan gynnwys 0.74% (2013/14: 1.67%) o ganlyniad i absenoldeb hir dymor (am hwy na 28 dydd).



### Cyfathrebu â'r gweithwyr

Cydnebydd y Cyngor yr undeb llafur, Unwch yr Undeb, ac mae wedi dod i gytundeb gweithdrefnol ag ef; mae cynrychiolwyr y rheolwyr a'r undeb yn ymgysylltu yn rheolaidd i drafod materion o bryder cyfredol. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd adrannol rheolaidd ac mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr roi adroddiad i'w staff ar faterion a drafodwyd yn y Cyngor ac yng nghyfarfodydd yr Uwch Tîm Rheoli.

### Cynllun pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddiant diffiniedig.

Mae hefyd yn gynllun cyflogwr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Cyngor, rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag IAS 19.

Cyflwynodd y Cyngor hefyd gynllun cyfraniad diffiniedig, Pensiwn y Bobl, sy'n ddewis amgen i ddiwallu gofynion deddfwriaeth Awtogofrestru. Cafodd y nifer bychan o weithwyr cymwys nad oeddynt yn aelodau o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau eu hawtogofrestru ar gyfer y cynllun cyfraniad diffiniedig ar 1 Mai 2014 sef diwrnod gweithredu swyddogol y Cyngor. Cyfrifyddir am y cynllun yn unol ag IAS 19.

## Talu taladwyon masnach ac eraill


Dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 a Chod Arfer Talu Gwell Llywodraeth Prydain, mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau cyflenwyr lle na cheir anghydfod mewn 30 diwrnod oddi ar gael nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod y Cyngor yw talu 100% o anfonebau, gan gynnwys anfonebau y cafwyd anghydfod yn eu cylch pan ddatrysir yr anghydfod, yn unol â'r telerau hyn. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, talodd y Cyngor 97% (2013/14: 95%) o'r holl anfonebau yn nhelerau ei bolisi talu. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyngor nod pellach o dalu anfonebau mewn 10 diwrnod. Ar gyfer 2014/15 talwyd 91% (2013/14: 85%) o anfonebau mewn 10 diwrnod. Ni ragwelir y bydd ein polisi'n newid yn y blynyddoedd i ddod.

## Perygl ariannol a rheoli cyfalaf

Deil y Cyngor offerynnau ariannol yn bennaf i ariannu ei weithrediadau, er enghraifft, derbyniadwyon masnach ac eraill a thaladwyon masnach ac eraill ac arian a phethau cyfwerth ag arian a gyfyd yn uniongyrchol o'i weithrediadau. Gwneir y gwaith o reoli peryglon ariannol sy'n deillio o fasnachu offerynnau ariannol, yn bennaf derbyniadwyon masnach ac eraill a thaladwyon masnach ac eraill, drwy gyfres o bolisiau a gweithdrefnau. Rheolir y peryglon hyn fel a ganlyn:

*Perygl hylifedd* - nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei swyddogaeth o Ddosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol yn agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol, ac mae'n fodlon bod y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ac enillion o'r Loteri yn y dyfodol a ragamcanestynnir yn ddigonol i fodloni ei ymrwymadau grant.



*Perygl cyfraddau llog* - cedwir y balansau arian a phethau cyfwerth ag arian a dynnir i lawr o'r Loteri Genedlaethol i dalu ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol dim rhybudd a oedd â chyfradd llog ar gyfartaledd o 0.38% (2013/14: 0.38%) yn y flwyddyn. Ar gyfartaledd roedd yr arian gwarged dyddiol a fuddsoddwyd yng Nghronfa Gadw'r Sector Cyhoeddus wedi cario enillion ar fuddsoddiad o 0.37% yn y flwyddyn (2013/14: 0.34%). Roedd balans diwedd y flwyddyn o arian a phethau cyfwerth ag arian yr oedd y Cyngor yn ei ddal yn £1,645 (000: £1,308,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei swyddogaeth o ddosbarthu arian y Loteri yn agored i beryglon cyfradd log sylweddol.

*Perygl arian tramor* - nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw beryglon sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.

*Perygl llif arian a phethau cyfwerth ag arian* - nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw berygl llif arian a phethau cyfwerth ag arian sylweddol.

## Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol

Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cywirdeb data. Sicrha systemau TG fod rheolaeth lem ar ddiogelwch y data. Hyd y gwyddom, ni chollwyd unrhyw ddata yn y cyfnod dan sylw.

## Archwilio

Hyd y gwn i, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Cyngor yn ymwybodol ohoni. Credaf fy mod wedi cymryd pob cam y disgwylid ohonof, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Canolbwynt ein gweithgareddau yn ystod 2015/16 fydd gweithredu ein strategaeth gelfyddydol newydd, *Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau*.

Mae ein strategaeth yn syml - disgrifir hi mewn tri gair yn unig:

## Creu | Cyrraedd | Cynnal

Mae creu celfyddyd, sicrhau ei bod yn cysylltu a rhoi iddi waddol a fydd yn parhau, i gyd yn rhan o'r un darlun. A dyma hefyd yw'r themâu sy'n cynnal ein gwaith.

Pan fôm yn trafod **Creu**, yr hyn sydd yn ein meddyliau yw creu'n artistig. Rydym am lunio amgylchedd i'n hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol iddynt allu creu eu gwaith gorau ynddo. Oherwydd os ydym yn **Creu'n** llwyddiannus, byddwn yn ysbrydoli hefyd.

Os byddwn yn ysbrydoli, bydd rhagor o bobl yng Nghymru yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn y gorau sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae hyn wrth wraidd ein gallu i **Gyrraedd**, ac yn hollol hanfodol i gyrraedd yn bellach nag erioed o'r blaen.

Wrth wneud hyn, os mae rhywbeth o werth yn cael ei greu yn yr hyn sy'n cael ei wneud neu yn y bobl sy'n cael eu cynnwys, wedyn dylem ofyn sut y byddwn yn gallu amddiffyn a **Chynnal** y pethau hyn mewn ffyrdd sy'n llwyddiannus yn economaidd ac a fydd yn parhau.

Darperir **Creu: Cyrraedd: Cynnal** drwy wyth amcan penodol.

## Creu

1. Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu
2. Cynyddu gwerth y cyfnewid diwylliannol rhyngwladol i gelfyddydau Cymru

## Cyrraedd

3. Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd er mwyn i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau
4. Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc

## Cynnal

5. Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd
6. Amddiffyn a thyfu'r sail economaidd ar gyfer celfyddydau Cymru
7. Arddangos gwerth y celfyddydau
8. Gwneud Cyngor y Celfyddydau yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol

Mae hefyd yn bwysig bod ein gwariant cymorth grant yn adlewyrchu blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru. Disgrifir yr hyn a ddisgwyl Llywodraeth Cymru oddi wrthym mewn Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Disgrifia'r Llythyr Cylch Gwaith flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a darpara fframwaith i'n gwaith.

Disgrifir saith maes o flaenoriaeth yn ein Llythyr Cylch Gwaith a bydd yn rhain yn ffocws arbennig i'n gwaith yn ystod 2015/16:

1. **Ymgyfranogi Gweithredol** – cefnogwn y sefydliadau allweddol a ariannwn, gan eu hannog i barhau i ymestyn tuag at sefydliadau newydd. Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- Adeiladu ar weithgareddau ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw – mae gan ein sefydliadau sy'n cael arian refeniw raglenni sydd wedi'u hen sefydlu rhaglenni o weithgarwch ymgyfranogol. Mae ganddynt hefyd y wybodaeth a'r cysylltiadau lleol i ddatblygu ac estyn y gwaith hwn
- Cynnig rhaglenni ariannu targedol – drwy ein rhaglenni arian y Loteri sy'n agored i gais, rhoddwn bwyslais ar brosiectau anogol. Targedda ein rhaglen ddatblygu, *Camau Creadigol*, yr unigolion a'r sefydliadau hynny a gafodd anhawster cael arian cyhoeddus i'r celfyddydau yn y gorffennol

2. **Mynd i'r afael â thlodi** – gweithiwn i greu rhagor o gyfleoedd i gyflwyno i bobl sydd ar hyn o bryd yn teimlo eu bod yn eithriedig rhag y celfyddydau y buddion o weithgarwch creadigol. Dros y pum mlynedd diwethaf, gwelsom ragor o bobl o gymunedau dan anfantais sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau.

Disgwyliwn i'n gwaith yn y maes hwn gyfrannu'n gadarnhaol at weithredu strategaethau'r Llywodraeth o ran Tlodi Plant a Theuluoedd yn Gyntaf. Cefnogir y gwaith hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- Targedu pobl ifainc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant – parhawn gyda rhaglen arian y Loteri, *Sbardun*, gan fuddsoddi mewn rhaglenni o weithgarwch celfyddydol i alluogi pobl ifainc ddifreintiedig i ailymgysylltu â chyflogaeth neu hyfforddiant
- Cefnogi gweithredu adroddiad Llywodraeth Cymru ar Ddiwylliant a Thlodi – chwaraewn ran lawn wrth weithredu argymhellion yr adroddiad a allai gynnwys arwain mewn un o'r ardaloedd arloesi arfaethedig
- Cydgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth ddarparu rhaglenni targedol o waith – gofynnir inni gydweithio â'n sefydliadau sy'n cael arian refeniw i gydweithio â Llywodraeth Cymru ar ei rhaglenni, Ymgysylltiad Gwell i Gyflogwyr ac Ysgogwch eich Dyfodol. Cynyddwn hyn yn faes newydd o flaenoriaeth ac yn ystod y flwyddyn ymchwiliwn i amcanion y rhaglenni, dyfeisio strategaethau gweithredu priodol a'u darparu i'n portffolio o sefydliad sy'n cael arian refeniw
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i weithredu ein cydstrategaeth, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* – nod ein strategaeth fawr newydd yw defnyddio arian o'r Loteri i gynorthwyo yn y broses o godi safonau llythrennedd a rhifogrwydd a chau'r bwlch cyrhaeddiad gan ddefnyddio addysgu a dysgu creadigol a gweithgarwch celfyddydol i fynd i'r afael â'r diffyg dyhead a lefelau isel o ymgysylltu a chyflawni ymhlith disgyblion dan anfantais

3. **Cynaliadwyedd a mwyafu enillion ar fuddsoddiadau cyhoeddus** – fel y cynlluniwn at y dyfodol, gweithiwn i sicrhau bod y celfyddydau – a Chyngor y Celfyddydau ei hun - yn meddu ar y gwytnwch i oroesi'r pwysau economaidd presennol. Bydd arian y Llywodraeth i raglenni celfyddydol Cyngor y Celfyddydau wedi'i leihau ragor yn 2015/16 gan ychydig dan £1 miliwn. Mae toriadau flwyddyn ar flwyddyn yn cael effaith ar ystod a nifer y gweithgareddau y gallwn eu hariannu. Serch hynny, ymrwymwn i wneud yr hyn a allwn i godi arian o ffynonellau eraill ac annog ein sefydliadau sy'n cael arian refeniw i'n hefelychu yn hyn o beth er mwyn ehangu economi celfyddydau Cymru.

Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- Cynnal Adolygiad Buddsoddi – bydd yn rhaid inni arddangos y budd cyhoeddus y mae ein gwaith yn ei ddarparu ac i ba raddau yr ydym yn llwyddo i wneud Cymru'n wlad well i fyw a gweithio ynddi. Nod yr Adolygiad Buddsoddi fydd "cytuno ar bortffolio newydd deinamig a chynaliadwy o sefydliadau sy'n cael arian refeniw a fydd wrth wraidd strategaeth Cyngor y Celfyddydau yn y dyfodol i ddatblygu celfyddydau Cymru." Bydd yn archwiliad trylwyr o'r sefydliadau allweddol a ariannwn ar hyn o bryd a sefydlir portffolio newydd o sefydliadau ar gyfer 1 Ebrill 2016.
- Effaith a gwerth am arian – mae'n rhaid i sefydliadau yn ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw allu profi y caiff yr arian cyhoeddus a gânt yr effaith fwyaf bosibl. Gweithiwn gyda'n sefydliadau sy'n cael arian refeniw i asesu i ba raddau y cyfrannant at flaenoriaethau allweddol gan gynnwys:
  - nifer yr ymgyfranogwyr sy'n ymgysylltu'n weithredol â'u gweithgareddau
  - cyfraniad y sefydliad at fynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys y nifer o bobl sydd mewn perygl o gefnu ar addysg neu sy'n ddi-waith

- i ba raddau y rhoddir sylw i Gymru, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn eu gweithgareddau
- yr enillion a ddaw o'r buddsoddiad o ran swyddi a thwf ac ein hagendâu polisi allweddol eraill sef twristiaeth, addysg, iechyd a chynaliadwyedd.

4. **Diogelu seilwaith y celfyddydau** – mae Cymru yn mynd drwy gyfnod estynedig o anawsterau economaidd. Mae'r amgylchedd y gweithiwn ynddo yn parhau i gael ei ddominyddu gan y dirwasgiad economaidd a'r wasgfa ar y pwrs cyhoeddus. Mae'r bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a llywodraeth leol yn sail i ariannu a datblygu celfyddydau Cymru. Rhyngom, gallem gyffwrdd â bywyd pawb yng Nghymru.

Serch hynny, mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol, a'r ffordd y mae ei gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu, yn parhau i newid. Mae lleihau arian cyhoeddus a rhwymedigaeth i amddiffyn gwasanaethau statudol yn golygu bod pwysau mwy a phenodol ar wasanaethau dewisol (megis celfyddydau).

Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- **Monitro buddsoddiad llywodraeth leol yn y celfyddydau** – nid pob awdurdod lleol sy'n tynnu ei fuddsoddiad yn ôl o'r celfyddydau, ond mae'r darlun yn gymysg dros y wlad. Parhawn gyda gwaith ein harolygon i fonitro datblygiadau
- **Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth** – gwyddom mewn rhai achosion fod awdurdodau lleol yn cael trafferth i gynnal darpariaeth gymunedol boblogaidd a hanfodol Ni allai ein harian byth llenwi'r bwlch pe tai arian lleol yn diflannu'n llwyr. Ond defnyddiwn bob cyfle sydd ar gael inni i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol i ddod o hyd i ffyrdd o amddiffyn gweithgarwch pwysig
- **Datblygu modelau newydd i gefnogi gweithgarwch celfyddydol lleol** – nid oes un ffordd yn unig o fynd ati o ran cefnogi

a datblygu'r celfyddydau'n lleol. Bydd rhai awdurdodau lleol yn parhau i gynnal rhyw fath o ddarpariaeth uniongyrchol. Serch hynny, gallai eraill ddymuno archwilio strwythurau gwahanol gan gynnwys ymddiriedolaethau annibynnol a throsglwyddo asedau cymunedol. Gweithiwn gyda chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol i ddatblygu rhyngom y ffyrdd o fynd ati a fydd, yn ein tyb, y rhai mwyaf cynaliadwy

5. **Brand Cymru/Blynyddoedd â Thema** – mae'r celfyddydau yn ffyrdd effeithiol iawn o godi proffil ac enw da gwlad. Drwy'n tîm, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, parhawn i feithrin rhagoriaeth artistig ryngwladol yng Nghymru. Byddwn yn gweithio hefyd er cynyddu effaith a chydabyddiaeth ryngwladol i gelfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd, gan ddod â digwyddiadau diwylliannol cenedlaethol a rhyngwladol i Gymru (megis Rhifyn Dawns Prydain yn 2016).

Yn rhan o'r ffordd hon o weithio, lansiodd Llywodraeth Cymru fenter newydd sy'n defnyddio themâu ar gyfer blynyddoedd y dyfodol i hyrwyddo Cymru a rhoi ffocws i weithgareddau, digwyddiadau ac atyniadau ar nodweddion cryfaf twristiaeth Cymru. Dynodwyd 2016 yn Flwyddyn yr Antur ac wedyn ceir Blwyddyn y Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018.

6. **Datblygiad Economaidd** – manteisiwn ar bosibiliadau economaidd y celfyddydau i gyfrannu at greu swyddi a chyfoeth drwy greu, dosbarthu a manwerthu nwyddau a gwasanaethau.

Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- **Annog y sefydliadau allweddol a ariannwn i fod yn fwy hunandibynnol** – gweithiwn gyda'n portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw i'w hannog i leihau eu dibyniaeth ar arian y cyhoedd
- **Manteisio ar gyfleoedd rhyngwladol** – ar gyfer yr unigolion a'r sefydliadau sy'n barod am y farchnad bydd gweithio dramor yn rhoi hygyrchedd i farchnadoedd

a chyfleoedd newydd. Drwy ein his-adran ryngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, gweithiwn gyda'n partner rhyngwladol, The British Council, i fynd yn egniol ar drywydd y fath gyfleoedd

7. **Technoleg ddigidol** - rydym am i'r celfyddydau feddu ar y cynhwysedd a'r sgiliau i ddeall yr hyn sydd gan dechnoleg newydd i'w gynnig, a meddu hefyd ar yr hyder a'r mewnwleidiad i fanteisio ar ei phosibiliadau creadigol. Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y mentrau penodol canlynol:

- Peilota datblygiad gweithio digidol – drwy ein partneriaeth, a ariennir gan y Loteri, gyda'r Gwaddoliad Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau darparwn arian sbarduno i sefydliadau sydd am ddatblygu eu cynhwysedd digidol
- Estyn y rhwydwaith o leoliadau sydd ag offer digidol – lle bo'n briodol, parhawn i weithredu ein strategaeth o fuddsoddi arian cyfalaf y Loteri i wella gallu digidol canolfannau celfyddydol a lleoliadau
- Manteisio ar y posibiliadau o bartneriaethau gyda darlledwyr – sefydlasom yn ffurfiol bartneriaethau gyda BBC Cymru ac S4C. Gweithiwn gyda'r ddau ddarlledwr hyn i fanteisio ar y cyfleoedd darlledu a digidol newydd i gelfyddydau Cymru



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015



Y Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015

## Adroddiad Strategol

Amcanion, gweithgareddau, cyflawniadau a pherfformiad er budd y cyhoedd

### Amcanion siartredig y Cyngor yw fel a ganlyn

- ((a) datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer y celfyddydau;
- (b) gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd;
- (c) cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adrannau ein Llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr a chyrff eraill a chydweithredu â hwy ar unrhyw faterion, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion blaenorol; a
- (ch) cyflawni ein hamcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Prif ddiben y Cyngor yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru er budd pobl ledled y wlad. Y brif ffordd y cais y Cyngor gyflawni'r diben hwn yw drwy lunio strategaethau celfyddydol, ymchwil, a rhoi grantiau rheolaidd ac untro i sefydliadau ac unigolion mewn cyd-destun strategol a datblygiadol. Cefnogir rhoi'r fath grantiau gan broses o fonitro ac asesu i sicrhau y defnyddir arian y cyhoedd yn effeithiol at y dibenion a nodir. Rheola'r Cyngor hefyd ystod o weithgareddau a gwasanaethau lle nad yw grantiau'n rhan ohonynt, yn aml mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill.



**68**

Nifer y sefydliadau sy'n cael arian referniw gan Gyngor y Celfyddydau yn ystod 2014/15

**£27.7**  
miliwn

Buddsoddi grantiau craidd yn y portffolio sy'n cael arian referniw yn ystod 2014/15

**£102**  
miliwn

Cyfanswm y trosiant a ragwelir i sefydliadau sy'n cael arian referniw Cyngor y Celfyddydau yn 2014/15

**4:1**

Yr enillion ar arian Cyngor y Celfyddydau a fuddsoddwyd mewn sefydliadau allweddol

£1 = £1 £1

**80%**

Canran oedolion Cymru a fynychodd y celfyddydau yn ystod 2014

\*1

**37%**

Canran oedolion Cymru a gymerodd ran mewn gweithgarwch celfyddydol yn ystod 2014

\*1

**82%**

Canran plant Cymru a gymerodd ran mewn gweithgarwch celfyddydol yn ystod 2014

\*2

**86%**

Canran plant Cymru a fynychodd y celfyddydau yn ystod 2014

\*2

**521**

Nifer y perfformiadau a gefnogwyd gan gynllun Noson Allan Cyngor y Celfyddydau

**856**

Nifer benthyciadau'r Cynllun Casglu a gefnogwyd yn ystod 2014/15

**155**

Nifer y prosiectau cyfnewid rhyngwladol a ariannwyd yn ystod 2014/15

**14**

Nifer y grantiau Cymru Greadigol a roddwyd i artistiaid unigol

**1,426**

Nifer y ceisiadau am arian a broseswyd gan Gyngor y Celfyddydau yn ystod 2014/15

**7.4%**

Costau rhedeg Cyngor y Celfyddydau yn gyfran o gyfanswm ei incwm

**-10%**

Canran y lleihad o ran ôl troed carbon Cyngor y Celfyddydau

**0.21%**

Arian Llywodraeth Cymru i Gyngor y Celfyddydau yn gyfran o gyfanswm gwariant y llywodraeth

\*1 Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru, Beaufort Research

\*2 Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant, Beaufort Research

## Mesurau gweithredol

Mae balansau diwedd y flwyddyn o arian cymorth grant yng nghyfyngiad y 2% a ganiateir ar ddiwedd y flwyddyn



Dim cwynion neu gyfeiriadau at Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiynydd y Gymraeg



£30,000 o leihad yng nghostau rhedeg y Gweithgareddau Cyffredinol



Lleihad gan 143 diwrnod yn y diwrnodau gwaith a gollwyd i salwch y staff o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol



Prosesir 100% o geisiadau am arian cyn yr amseroedd targed ar gyfer asesiadau



Cyrhaeddwyd y targedau o ran talu cyflenwyr – 97% o anfonebau cyn y dyddiad cau a bennir gan y cyflenwr a 91% cyn targed Llywodraeth Cymru sef 10 diwrnod




Ymdriniwyd â 100% o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn yr amserlen a gyhoeddwyd heb gyfeirio'r un ohonynt at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth



Cyflawnodd o leiaf 75% o adroddiadau archwilio mewnol ddyfarniad o sicrwydd sylweddol o leiaf



## Gwariant



- Grantiau craidd i Sefydliadau sy'n cael Arian Refeniw  
£27,747,493
  - Grantiau o arian y Loteri  
£18,269,455
  - Grantiau cyffredinol eraill  
£626,120
  - Gwariant strategol – cenedlaethol  
£2,786,786
  - Gwariant strategol – rhyngwladol  
£799,146
  - Costau rhedeg  
£4,015,000
- Cyfanswm y gwariant  
£54,244,000

## Cyrraedd ein targedau

Yn ein [Cynllun Gweithredol](#) ar gyfer 2014/15 roedd 39 o dargedau.

Defnyddiwn system goleuadau traffig (coch, melyn a gwyrdd) i fonitro cynnydd. Ar ddiwedd 2014/15:


- Cyflawnwyd yn llwyddiannus 31 o'n 39 targed
- Cyflawnwyd 5 targed yn sylweddol
- 3 tharged nas cyflawnwyd – 1 oherwydd yn gynharach yn y flwyddyn ailamserlennwyd y gweithgaredd arfaethedig i mewn i 2015/16; a 2 oherwydd i ffactorau allanol atal eu cwblhau

O'r 3 tharged nas cwblhawyd:

Mae'r targed cyntaf nas cwblhawyd yn gysylltiedig â'n penderfyniad i ailamserlennu lansiad cronfa Loteri newydd arfaethedig - *Gwynwch*. Nod y gronfa newydd yw annog, drwy fuddsoddi intro, sefydliadau allweddol i sefydlogi neu wella eu perfformiad busnes. Cytunodd y Cyngor y byddai budd mwy wrth ystyried y cynllun newydd ochr yn ochr â chanlyniad ein Hadolygiad Buddsoddi. (Digwydd yr Adolygiad Buddsoddi yn ystod 2015/16.)

Mae'r ail darged nas cwblhawyd yn gysylltiedig â phrosiect adeiladu Pontio ym Mhrifysgol Bangor. Ni chwblhawyd Pontio fel y rhagwelwyd yn wreiddiol yn ystod y flwyddyn ac erbyn hyn amserlennwyd ei agoriad yn ystod 2015/16.

Mae'r trydydd targed yn gysylltiedig â *Chynllun Casglu*, ein cynllun prynu di-log sy'n darparu benthyciadau. Ein targed ar gyfer y flwyddyn oedd cynnydd o 5% yng ngwerth y benthyciadau. Er inni gyflawni dros £622,000 mewn benthyciadau, roedd hyn mewn gwirionedd yn lleihad ar y flwyddyn gynt o 1.7%. Y ffactor pwysicaf un a gyfrannodd at hyn oedd penderfyniad yn ystod y flwyddyn gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i adolygu ei holl ffordd o fynd ati o ran rhoi trwyddedau credyd. Effeithiodd hyn ar y nifer o orielau a oedd yn fodlon parhau â'r cynllun.



Mae'r 5 targed a gwblhawyd yn sylweddol yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Gwerthuso WOMEX 13, yr ŵyl ryngwladol a'r llwyfan rhwydweithio i ddiwydiant cerddorol y byd a ddigwyddodd yng Nghaerdydd – cafodd y Cyngor adroddiad am ganlyniadau WOMEX yn ystod y flwyddyn, ond gofynnodd i waith ychwanegol gael ei wneud ar fentrau'r dyfodol a ddaw o waddol WOMEX
- Buddsoddi mewn prosiectau enghreifftiol – gosodasom darged o 9 prosiect enghreifftiol, tri'r un i'n rhaglenni *Camau Creadigol*, *Ein Lle Ni* a *Chreu Cymunedau Cyfoes*. Cyflawnasom dros ben ein targedau ar gyfer *Ein Lle Ni* (gan gefnogi 9 prosiect) a *Chreu Cymunedau Cyfoes* (gan gefnogi 7 prosiect), ond ni chyraeddasom ein targed yng *Nghamau Creadigol* gan gefnogi un prosiect yn llai na'r hyn a fwriadasem yn wreiddiol
- *Noson Allan* – darparodd ein rhaglen, *Noson Allan*, 521 o ddigwyddiadau a pherfformiadau yn hytrach na'r 580 y gobeithiasem eu gweld. Cafodd toriadau a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn yn yr arian gan ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol – a chafodd hyn effaith andwyol ar nifer y digwyddiadau y gellid eu cynnal. Serch hynny, cyflawnwyd bron 90% o nifer y targed a chredwn felly ein bod wedi cyflawni'n sylweddol y targed hwn

- Prosiectau partneriaeth sy'n hyrwyddo amrywiaeth – cwblhawyd 3 allan o'r 4 prosiect targed gyda Diverse Cymru, Stonewall Cymru a Chelfyddydau Gwirfoddol Cymru. Golygai'r pwysau ar amser y staff o du blaenoriaethau sy'n ymgystadlu fod yn rhaid gohirio un o'r prosiectau, am hyfforddi staff, i 2015/16
- Archwilio buddsoddiad yr awdurdodau lleol – o gofio bod ariannu gan yr awdurdodau lleol yn newid mor aml ac mor gyflym, penderfynasom na fyddai un archwiliad ar ei ben ei hun a gomisiynid yn cynrychioli gwerth da am arian. Yn lle hynny, defnyddiasom adnoddau'r staff i grynhoi adroddiadau chwarterol treigl

Cafodd nifer o feysydd allweddol o weithgarwch, a nodwyd yn flaenoriaethau arbennig gan y Cyngor, ei gynyddu'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. Cynhwysai'r rhain:

- camau gweithredu a gymerwyd i wella trefniadau Llywodraethu yn ein portffolio o sefydliadau allweddol
- datblygu ystod, effaith ac effeithiolrwydd ein cefnogaeth i artistiaid unigol
- sefydlu preswylfeydd cyhoeddus mawrion – gyda sefydliadau partner – Cadw, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Ymddiriedolaeth y Camlesi a'r Afonydd, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Cadeirlan Llanelwy, Dŵr Cymru, Amgueddfa Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- ein cyfraniad at reoli a threfnu Gŵyl Dylan Thomas yn Gant a oedd mor llwyddiannus
- sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd a phwysig â The British Council, i gefnogi cyfleoedd datblygu celfyddydol i Gymru ledled y byd
- lansiad ein cynllun Tocynnu i Bobl Anabl, *Hynt*, i wella hygyrchedd i leoliadau ledled Cymru
- twf Gŵyl Celfyddydau Teuluol yr Hydref
- cytundeb Llywodraeth Cymru i gydariannu ein strategaeth, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*

- datblygu ein strategaethau cynaliadwyedd at gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru
- y prosiect partneriaeth gyda'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Nesta i fuddsoddi mewn prosiectau Ymchwil a Datblygiad Digidol

Monitirir yn fanwl berfformiad yn erbyn camau gweithredu allweddol ac adrodd yn ôl arnynt yn chwarterol i'r Uwch Tîm Rheoli, y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

### Polisiâu rhoi grantiau

Gwahodda'r Cyngor geisiadau am grantiau rheolaidd ac untro gan sefydliadau ac unigolion a monitra'r defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny. Yn ogystal â bodloni amcanion strategol y Cyngor, rhaid i geisiadau ddangos budd i bobl Cymru ledled yr holl sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd. Ariennir grantiau rheolaidd drwy gymorth grant yn unig ond gellid ariannu grantiau untro drwy gymorth grant neu incwm y Loteri. Dan delerau Cyfarwyddiadau Polisi'r Loteri rhydd y Cyngor grantiau ar gyfer prosiectau cyfalaf ac eraill dan gynlluniau referniw mewn perthynas â chelfyddydau Cymru.

Mae grantiau cyfalaf, i sefydliadau yn unig, yn fodd i brynu, gwella, adfer, adeiladu neu greu ased sydd i'w ddefnyddio'n barhaus.

Dirprwyodd y Cyngor ei ddyrannu grantiau mewn nifer o feysydd strategol i Ffilm Cymru, y Gwaddoliad Cenedlaethol dros Wyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau, BBC Cymru, Llenyddiaeth Cymru ac, o Ebrill 2015, i Dŷ Cerdd. Nodir telerau'r dirprwyo allanol mewn cytundeb ffurfiol a bodlonant amodau Datganiad Gofynion Ariannol y Cyngor. Nid yw goblygiadau Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor wedi newid oherwydd y dirprwyo ond mae'n fodlon bod y sefydliadau a'u systemau yn addas i ymgymryd â'r swyddogaethau dirprwyedig, gan gynnwys: asesu ceisiadau am arian; dal arian y Loteri a ddyrannwyd iddi gan y Cyngor at y diben hwnnw, bod yn gyfrifol amdano a'i ddsbarthu; a monitro prosiectau a gaiff eu hariannu. Caniatâ'r cytundeb dirprwyo i archwilyr mewnol y Cyngor a Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gael mynediad

priodol i'r dirwprwyon i adolygu sut y gweithredir y swyddogaethau a ddirprwywyd.

Mae grantiau cynllun refeniw ar gael i ariannu prosiectau artistig o safon sy'n gyfyngedig o ran amser ac sy'n cyflawni blaenoriaethau ariannu'r Cyngor orau. Tynnir ein sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherygl penodol gan ein monitro parhaus o'n rhaglenni cymorth grant. Arweinia'r peryglon a nodir at gynnydd yn lefel y monitro ac, os bydd angen, gall olygu cadw taliad yn ôl a/neu ei ohirio.

Cyhoedda'r Cyngor ganllawiau cyffredinol am ariannu sefydliadau ac unigolion a gynnwys fanylion llawn am flaenoriaethau ariannu a meini prawf cymhwysedd. Mae'r rhain ar gael oddi wrth unrhyw un o swyddfeydd y Cyngor ac ar y [wefan](#).

### Prif weithgareddau dosbarthu'r Loteri

Cyrhaeddodd gwerthiant tocynnau'r Loteri Genedlaethol y lefel uchaf erioed yn 2014/15. Caiff dosbarthwyr celfyddydol Prydain gyfanswm o 20% o'r swm a rennir rhwng Achosion Da y Loteri. Rhan Cyngor Celfyddydau Cymru yw 1%. Yn sgil lleihad yn 2013/14, tyfodd gwerthiant tocynnau'r Loteri i £7.277 biliwn y llynedd, i fyny

£564 miliwn ar y flwyddyn flaenorol. Gyrrwyd hyn yn rhannol gan werthiant cynyddol y gêm Lotto, fawr ei bri, ar ôl degawd o leihad a'i hail-lansiad gyda bet leiafsymiol o £2, a ddechreuodd dyfu eto. Serch hynny, roedd gemau chwarae ar unwaith - cardiau crafu a gemau Ennill ar Unwaith ar-lein - yn cyfrif am 86% o gyfanswm y cynnydd mewn gwerthiant y llynedd.

Mae'n bosibl y gallai'r fath symudiad olygu newyddion gwael i'r celfyddydau sy'n cael canrannau llai o gemau ar unwaith na'r Lotto. Cyfran y gwerthiant tocynnau a ddychwelwyd i achosion da oedd, ar gyfartaledd, 28% tan 2012/13, ond mae'r duedd brynu o docynnau tynnu i gemau chwarae ar unwaith yn golygu bod hyn wedi syrthio i ddim ond 24.6%. Ni phennodd y llywodraeth erioed lefel yr elw o'r tocynnau sy'n mynd tuag at achosion da ond datgela gweithredydd y Loteri, Camelot, fod y Loteri wedi'i chynllunio i ddychwelyd ychydig dros 31% i'r pedwar achos elusennol. Ni ddatgela fanylion am y ganran i achosion da o'i gemau ennill ar unwaith ond dengys y ffigyrau diweddaraf fod y gyfran lawer yn llai.

	2014/15	2013/14 (a ailddatganwyd)
<b>Nifer y ceisiadau a ddaeth i law:</b>		
	25	36
Cynlluniau cyfalaf	1,227	1,258
Cynlluniau refeniw	1,252	1,294
<b>Nifer y grantiau a roddwyd:</b>	717	906
<b>Gwerth y grantiau a roddwyd:</b>	£'000	£'000
	3,451	2,371
Cynlluniau cyfalaf	13,786	15,707
Cynlluniau refeniw	17,237	18,078
<b>Grantiau taladwy ar 31 Mawrth:</b>		
	7,763	6,665
Cynlluniau cyfalaf	11,212	9,325
Cynlluniau refeniw	18,975	15,980

## Adolygiad ariannol

Mae gan y Cyngor ddwy brif ffynhonnell ariannu: grant mewn cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru; ac, a ninnau'n un o'r gyfran o'r cyrff a ddosbartha arian ymhlith achosion da, gyfran o'r arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n rhaid i'r Cyngor gyfrifyddu ar gyfer ei weithgareddau cyffredinol ar wahân.

## Buddsoddi

Rheolir pwerau buddsoddi gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 a'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a'r Cyfarwyddiadau Ariannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Polisi'r Cyngor yw cael yr elw mwyaf posibl yn y telerau hyn. Cawn log ar gyfradd a negodwyd ar sail gyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, gallai cyfraddau uwch fod ar gael ar gyfer arian cyfyngedig ar adnau hir dymor.

Ym mis Hydref 2013, i leihau'r perygl i'n harian elusennol a chyhoeddus wrth gadw, ar y llaw arall, reolaeth a'r hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer ein gwaith beunyddiol, agorodd y Cyngor gyfrifon gyda Rheoli Buddsoddiadau CCLA Cyfyngedig sy'n ein galluogi i drosglwyddo ein gwarged ariannol yn ddyddiol rhwng ei Gronfa Gadw i'r Sector Cyhoeddus a'n cyfrifon banc cyfredol. Yn ôl Sgorio Fitch mae'r Gronfa yn AAmmf.

Mae balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn aros dan ofal yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon felly, er y caiff y Cyngor incwm buddsoddi ar ei gyfran o falansau o'r fath, nid oes gan y Cyngor bwerau buddsoddi dros y gronfa.

## Canlyniadau ariannol

	2014/15 £'000	2013/14 (a ailddatganwyd) £'000
Cyfran yr enillion o'r Loteri Genedlaethol	18,031	16,892
Ad-daliad o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd	1,487	-
Grantiau neta roddwyd	16,865	17,850
Gorwariant dros incwm ar gyfer y flwyddyn	(1,016)	(4,760)
Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth	22,358	20,264
Arian wrth gefn ar 31 Mawrth	4,079	5,095

Cynyddodd ein cyfran o enillion y Loteri Genedlaethol gan 6.3% a oedd yn unol â'r rhagamcanestyniad gwreiddiol. Serch hynny, cawsomhefyd ad-daliad o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd.

Neilltuasom tua £22 miliwn ar gyfer ein rhaglen o grantiau cyfalaf am y pum mlynedd o 2012/13 hyd 2016/17. Gallai fod yr amser sy'n arwain o gofrestru prosiect cyfalaf mawr hyd gyflwyno cynnig ffurfiol yn hir a chaiff hyn effaith yn aml ar gyfanswm gwerth y grantiau a roddir bob blwyddyn ac ar yr incwm neu wariant net yn gyffredinol. Ar gyfer 2014/15 disgwylasom roi grantiau cyfalaf o tua £5 miliwn ond cynigiasom £3.4 miliwn a adlewyrchir yn y lleihad yn y grantiau net a roddwyd o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ar ddiwedd y flwyddyn cyfanswm y grantiau taladwy oedd £18.975 miliwn (2013/14 (a ailddatganwyd): £15.980 miliwn). Cyfanswm yr arian na thynnwyd i lawr yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ac arian a phethau cyfwerth ag arian oedd £24.003 miliwn (2013/14: £21.572 miliwn). Cynyddodd balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol gan tua 10% o £20 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn i £22 miliwn J, yn bennaf oherwydd yr ad-daliad na chyllidebwyd ar ei gyfer oddi wrth Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd ac amseriad ein rhaglen grantiau cyfalaf.

## Materion cymdeithasol a chymunedol

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod arian y Cyngor yn hygyrch ac o fudd i holl ddinasyddion Cymru. A ninnau'n gorff a ariennir gan y cyhoedd, mae sicrhau rhagor o hygyrchedd i'r celfyddydau yn flaenoriaeth naturiol. Rydym yn llwyr ymroddedig i ddymchwel y rhwystrau sy'n atal a llesteirio pobl rhag mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae gennym o hyd strategaethau sy'n targedu pobl ifainc, y celfyddydau cymunedol a gwirfoddol ac ehangu ymgysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau. Eleni rydym wedi symud y gwaith ymlaen ynghylch nifer o raglenni allweddol. Lansiasom *Hynt*, ein cynllun tocynnu i fynychwyr y theatr sy'n anabl a'u gofalwyr. Mae pob

un o'n lleoliadau allweddol a ariennir ledled Cymru wedi cytuno i fod yn rhan o'r cynllun ac yn fuan iawn ar ôl y lansiad roedd gennym fwy na 500 cais. Cyhoeddasom a lansiasom becyn gwybodaeth am y cydraddoldebau ac amrywiaeth ym maes y celfyddydau a chynaliasom gyfres o sesiynau briffio a hyfforddi i'r sector ledled Cymru. Darpara'r pecyn gwybodaeth ganllawiau ymarferol, cyngor ac enghreifftiau o sut i gyrraedd pobl a chymunedau sy'n profi rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau oherwydd un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig a ddisgrifir yn y Ddeddf Gydraddoldeb ac ymgysylltu â'r cymunedau felly.

Roedd peilot ein prosiect ymgyfranogol, *Sbardun*, a ddarparwyd mewn partneriaeth gyda Chymunedau'n Gyntaf, yn llwyddiannus iawn, gan ymgysylltu â thros 325 o'n Pobl ifainc sydd dan yr anfantais fwyaf ac wedi'u hymddieithrio i'r graddau mwyaf. Cafodd pob un ohonynt ganlyniadau cadarnhaol o ran ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a/ neu waith. Cawsom arian gan Sefydliad Baring y gallem roi arian cyfateb iddo a roddwyd wedyn i Age Cymru i ddatblygu a darparu prosiect tair blynedd i ganolbwyntio ar ein pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Erbyn hyn mae'r prosiect hwn wrthi'n digwydd.

Parhasom gefnogi lleoliadau, drwy'r rhaglen *Ein Lle Ni*, i archwilio ffyrdd arloesol i ddatblygu cynulleidfaoedd. Gwerthuswyd y rhaglen yn 2014/15. Cadarnhaodd y gwerthusiad lwyddiant rhoi arian i'r lleoliadau er mwyn iddynt archwilio gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â chymunedau amrywiol a gwahanol. Drwy'r cynllun, cyrhaeddodd derbynwyr y grantiau hyn gynulleidfaoedd newydd ac, yn bwysicach, gynulleidfaoedd o gymunedau nad ydynt yn draddodiadol wedi ymgysylltu â'r celfyddydau oherwydd rhesymau economaidd neu ddiwylliannol.

Mae gan ein cynlluniau grant flaenoriaethau trosfwaol wedi'u hanelu at brosiectau sy'n hybu gwaith artistiaid o grwpiau a dangynrychiolir megis pobl anabl a phobl dduon ac ethnig. Cydnabyddwn ddiwylliant dwyieithog Cymru a rhoddwn flaenoriaeth i geisiadau am brosiectau a ddarperir drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.



Darparasom arian i Gelfyddydau Gwirfoddol Cymru i ddarparu prosiect sy'n canolbwyntio ar y gymuned o'r enw, Gosod Gwreiddiau, a gefnogai grwpiau cymunedol i symud tuag at statws annibynnol neu fenter gymdeithasol ar ôl cael ei sefydlu a'i gefnogi'n flaenorol gan sefydliadau cymunedol celfyddydol proffesiynol. Prosiectau peilot oedd y rhain a werthusir yn 2015/16.

Yn ystod eleni buom yn gweithio gydag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* – cynllun gweithredu i Gymru â'r nod o gynyddu'n sylweddol a gwella cyfleoedd i bobl ifainc ledled Cymru i ymgysylltu â'r celfyddydau drwy gydol eu bywyd ysgol. Lansiodd y Cynllun ym Mawrth 2015 a gweithredir ef o Fedi 2015 ymlaen.

Rydym yn bartneriaid, gydag Amgueddfa Cymru a Chymal, yn y gwaith o ddarparu ledled Cymru beilot y rhaglen, Ardaloedd Arloesi. Mae Ardaloedd Arloesi yn rhaglen beilot am flwyddyn a ddatblygwyd i gynorthwyo unigolion, teuluoedd a chymunedau i gael budd o ymgysylltu parhaus â diwylliant a'r amgylchedd hanesyddol. Bydd y cynllun ar waith mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae'n adeiladu ar ddau adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru: *Diwylliant a Thlodi: harneisio grym y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth i hyrwyddo Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru* gan y Farwnes Andrews; a'r Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru gan yr Athro Dai Smith.

Canolbwynt mawr i'n gwaith yn 2015/16 fydd gweithredu *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*. Lansiodd y Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, sy'n agored i bob ysgol yng Nghymru, sy'n cymhwyso methodoleg dysgu creadigol i wella ymgysylltiad pobl ifainc â dysgu a hefyd sy'n helpu'r ysgol i fynd i'r afael â materion a syniadau datblygu sy'n arwyddocaol. Mae'r cynllun am wella'r ysgol gyfan a gwella cyrhaeddiad y disgyblion yn enwedig parthed rhifogrwydd a llythrennedd. Drwy'r Cynllun cefnogwn ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, artistiaid ac ymarferwyr creadigol eraill a darparu arian i ysgolion er mwyn iddynt weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau celfyddydol i wella'r cynnig diwylliannol sydd ar gael i'w disgyblion.

## Adroddiad Cynaliadwyedd

Cymeradwyodd y Cyngor y Strategaeth Ddatblygu Gynaliadwy, yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol a'r Cynllun Gweithredu yn ei gyfarfod ym Mawrth 2014. Ymrwymir y Cyngor gan hyn i ddefnyddio datblygiad cynaliadwy yn egwyddor drefniadol greiddiol i'n holl waith a chawn ein paratoi i ddiwallu gofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Daeth y ddeddf yn gyfraith gwlad ar 29 Ebrill 2015 a daw'r gofynion adrodd i rym o 2016/17.

Ymrwymwn i weithredu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy a gweithredu ymarfer da o ran yr amgylchedd er mwyn lleihau ein heffaith amgylcheddol a gwella ein perfformiad yn byth parhaus.

Ymrwymir y Cyngor gan y strategaeth i weithio ar dair lefel:

1. gwella ein perfformiad sefydliadol ein hunain
2. annog y sefydliadau a'r unigolion a ariannwn (neu y gweithiwn mewn partneriaeth â hwy) i wella eu perfformiad hwy'n byth parhaus
3. defnyddio ein sefyllfa arweiniol yn y sector (ac yn ehangach) i hyrwyddo'r arfer gorau o ran Datblygiad Cynaliadwy a chodi proffil y materion ac annog cyfrifoldeb yr unigolyn

### Gwella ein perfformiad ein hunain: diwallu ein hymrwymedigaethau amgylcheddol

Sefydlasom Grŵp Monitro Cynaliadwyedd i fonitro ein perfformiad ein hunain, dan gadeiryddiaeth aelod o'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor gynllun gweithredu Datblygiad Cynaliadwy i gyflawni ei bolisi a chyhoedda ganlyniadau ei berfformiad yn flynyddol. Cyhoeddwn hefyd Adroddiad Blynyddol am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac adroddiad Blynyddol Datblygiad Cynaliadwy.

Ers inni gyflwyno Polisi Amgylchedd ychydig o flynyddoedd yn ôl, rydym wedi canolbwyntio ar wella ein perfformiad sefydliadol. Gwnaethom gynydd da gan dderbyn Dyfarniad Lefel 5 y



Ddraig Werdd yn 2014/15 sy'n cydnabod y cynnydd hwn.

Ymrwymwn i weithredu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy gan gymhwyso ymarfer da o ran yr amgylchedd i leihau effaith amgylcheddol a gwella ein perfformiad yn byth parhaus.

Er ein bod is na lefel de minimis Llywodraeth Cymru, eto adroddwn o'n gwirfodd ar ein perfformiad amgylcheddol. Rydym o'r farn bod hyn yn unol ag ysbryd dyheadau Llywodraeth Cymru o ran yr agenda Datblygu Cynaliadwy ac â'n hymrwymiad i yrru ymlaen yr agenda honno.

## Cefndir

Yn sgil cyflwyno ein polisi amgylcheddol, canolbwyntiwn yn y blynyddoedd diweddar ar wella ein perfformiad amgylcheddol. Rydym wedi cyflwyno systemau, newid ein hymarferion gweithredu a buddsoddi'n ariannol. Ac yn bwysicach, er mwyn cael budd o'r cyfleoedd a ddaw gyda'r newidiadau hyn, rydym wedi annog yn gryf ein staff i ymgysylltu ac ymrwymo.

## Adolygiad o gynnydd

Parhawn i weithio o dri lleoliad ledled Cymru ond o ystâd lawer yn llai. Mae pob un o'n swyddfeydd yn hygyrch drwy rwydweithiau cludiant cyhoeddus. Ynddynt mae nifer o ddyfeisiadau ac offer arbed ynni a leihaodd y trydan a ddefnyddiwn.

Canolbwyntiodd ein strategaeth TGCh ar estyn defnydd ein seilwaith technoleg gwybodaeth i ddarparu buddion busnes ac amgylcheddol. Mae gwneud ein gweinyddion yn rhai rhithiol wedi cyfrannu at lai o ynni ar gyfer pweru ac oeri. Mae ein systemau allweddol – cyllid a cheisiadau grantiau ar-lein – yn llwyr drydanol o'r adeg archebu neu ymgeisio hyd y taliad olaf. Sgannir yr holl bost ac anfonebau ac yn y blaen a leihawyd swmp a sylwedd y papur a dderbyniwn, a drafodwn, a storiwn ac a ailgylchwn gyda lleihadau wedyn yn ein gofynion storio.

Gall ein staff gael hygyrchedd i'n systemau o bell drwy ddolenni diogel a chyda hygyrchedd trydanol llawn i pob system a dogfen ategol. Mae gan fwy na hanner ein gweithlu liniaduron a ffonau clyfar

sy'n eu galluogi i weithio'n symudol a lleihau eu dibyniaeth ar orfod gweithio'n rheolaidd o'n swyddfeydd.

Rydym wedi diweddarau ac ehangu ein gallu cynadledda fideo ymhob un o'n tair swyddfa ac rydym yn hyrwyddo'n weithredol ddefnyddio'r cyfleuster yn ddewis amgen yn hytrach na theithio. Erbyn hyn gallwn gysylltu ag unrhyw leoliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac rydym wedi defnyddio ein cyfleusterau i gynadledda drwy fideo i leoedd mor bell i ffwrdd ag Awstralia. Yn ystod y llynedd, gwnaethom gynnydd da iawn wrth weithredu rhaglen sy'n galluogi ein gweithwyr symudol i ymgyfranogi, drwy eu gliniaduron, o gyfarfodydd fideo gyda chydweithwyr a chleientiaid. Ddisgwylir i hyn fod yn llwyr barod yn ystod 2015.

Gwnaethom gynnydd da wrth newid ymddygiadau sefydliadol. Mae cynadledda fideo wedi gostwng amllder teithio i gyfarfodydd. Disgwylwn weld lleihadau pellach wrth inni ymgorffori cynadledda fideo liniadur i liniadur yn ein hymarferion gweithio.

Roedd ein buddsoddiad mewn gliniaduron a chynhwysedd cynadledda fideo yn fodd lleihau teithio i'r gwaith am rai o'n haelodau o staff a bydd yn galluogi'n bellach leihadau teithio i gleientiaid.

Rydym yn hyrwyddo defnyddio ffyrdd amgylcheddol-gyfeillgar o deithio gan gyfyngu ar deithiau i rai angenrheidiol yn unig ac annog y staff i deithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl gan gymryd i ystyriaeth yr amgylchedd ac arian. Rydym yn annog rhannu ceir ac rydym wedi darparu raciau cadw beiciau yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Rydym yn ystyried cyflwyno cymhellion pellach.

Mae ein rhaglen sefydlu staff yn cynnwys Ymwybyddiaeth Amgylcheddol ac mae aelodau o'r staff yn cael hyfforddiant a diweddariadau achlysurol fel sy'n briodol.

Hybwn gwtogi gwastraff ymhlith ein staff drwy annog lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu. Caiff rheolwyr a staff adroddiadau misol sy'n dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopio i annog defnydd is yn gyffredinol.

Hyrwyddwn yn weithredol ailgylchu a didoli gwastraff yn fewnol sy'n lleihau'r hyn a anfonir at y safle tirlenwi a defnyddiwn sefydliadau trwyddedig a phriodol i waredu ein gwastraff. Ailgylchwn ein hoffer TG a swyddfa sy'n ddiangen neu'n rhy hen i'w defnyddio.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr cyfarpar a chyflenwadau swyddfa bolisiau a systemau adrodd amgylcheddol sydd ar waith ac rydym yn ystyried perfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol pan ddewiswn gontractwyr a chyflenwyr. Mae'n rhaid i'n contractwyr glanhau ddefnyddio cynhyrchion ac offer amgylcheddol-gyfeillgar. A defnyddiwn gyflenwadau papur Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd am o leiaf 90% o'n hanghenion copio a mewnol eraill.

Mae ein casgliad o wefannau yn darparu ystod eang o wybodaeth i ymgeiswyr am grantiau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol ac i'r cyhoedd. Ni allem wneud y cynnydd y bwriadem ei wneud wrth adolygu ein gwefannau a'u cynnwys. Serch hynny gobeithiwn, yn y flwyddyn i ddod, y gallwn wneud cynnydd i'w gwneud yn fwy hygyrch, cynyddu lefel y wybodaeth a'r cynnwys a, thrwy hynny, wella safonau ein gwasanaeth. Wedi cael achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd y llynedd, roeddem yn falch bod ein hymdrechion parhaus wedi ein galluogi i gadw'r un lefel o gydnabyddiaeth yn yr adolygiad blynyddol diweddar.

## Ein perfformiad


Mae ein systemau adrodd mewnol yn ein galluogi i ddal a mesur manylion o'n defnydd o ddefnyddiau traul, gwastraff, ynni, dŵr a theithio'r staff ac felly ein hallyriadau carbon deuocsid. Gan ddilyn canllawiau'r Ddraig Werdd, rydym wedi gwella ein matrices adrodd gwastraff ac yn bwriadu parhau i ehangu a mireinio ein hadrodd.

Mae pob un o'n tair swyddfa'n cael eu rhannu ag eraill gyda rhai costau wedi'u cynnwys yn y tâl gwasanaeth, yn benodol costau gwastraff a defnydd dŵr. Mae'r sefyllfa hon yn cyfyngu ar ein gallu i asesu'n gywir ein defnydd o ddŵr ac, i raddau, ein defnydd o drydan. Byddwn yn archwilio gyda'n landlordiaid yr ochr ymarferol o gyflwyno systemau i wella sut y daliwn ddata.

	2014/15	2013/14
<b>Gwastraff:</b>		
Anariannol (tunelli metrig)		
Safle tirlenwi - <i>amcangyfrif</i>	0.12	1.65
Aildefnyddio/ailgylchu - <i>amcangyfrif</i>	3.25	6.44
<b>Allyriadau nwy tŷ gwydr (tunelli metrig o garbon deuocsid)</b>		
Allyriadau yn eu crynswth, cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol)	59	61
<b>Defnyddio ynni (awr gilowat)</b>		
Trydan (anadnewyddadwy)	110,373	125,644
Trydan (adnewyddadwy)		
Nwy	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Dangosyddion ariannol (£)</b>		
Gwariant - ynni	13,390	21,709
Costau cyflenwi dŵr (ystâd y swyddfa) – ni allwn eu hasesu ar hyn o bryd, maent yn rhan o'r tâl gwasanaeth	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Allyriadau teithio (tunelli metrig o garbon deuocsid)</b>		
Trên	9	8
Awyren <sup>1</sup>	54	64
Ceir/faniau	29	34
<b>Cost teithio (£)</b>		
Trên	30,431	24,085
Awyren	19,791	22,646
Ceir/faniau	41,424	47,956
<b>Teithio (milltiroedd)</b>		
Trên	113,832	102,761
Awyren	206,500	224,369
Ceir/faniau	89,851	104,924

<sup>1</sup> Sy'n cynnwys dylanwad y newid yn y cydbwysedd ymbelydrol ynghlwm wrth deithio awyr i ddal yr effaith fwyaf ar yr hinsawdd. Mae'r newid yn y cydbwysedd ymbelydrol yn mesuro effaith amgylcheddol yr allyriadau o NO<sub>x</sub> (ocsidau nitraidd) ac ager dŵr wrth gael eu rhyddhau yn uchel yn yr awyr.

Allyriadau carbon deuocsid (tunelli metrig)



Credwn yr estyn agwedd wir ddeallus tuag at gynaliadwyedd y tu hwnt i faterion amgylcheddol, er cyn bwysiced ydynt, i goleddu ystriaethau diwylliannol, economaidd a chymdeithasol sy'n cynnal ein hymdeimlad o wytnwch a lles.

Ymgorfforasm yr egwyddor hon o Ddatblygiad Cynaliadwy yn ein dogfen strategaeth newydd, *Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau*, a osoda'r fframwaith ar gyfer datblygu'r celfyddydau yng Nghymru am y pum mlynedd nesaf. Felly bydd yn cataleiddio datblygiad yr holl sector o bosibl.

**Annog y sefydliadau a'r unigolion a ariannwn (neu y gweithiwn mewn partneriaeth â hwy) i wella eu perfformiad yn byth parhaus.**

Cynwysasom ofniad i lofnodi Siarter Datblygiad Cynaliadwy Cynnal Cymru erbyn Mawrth 2016 yn amod cael arian grant reffeniw oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru. Byddwn yn adrodd ar gynnydd ein sefydliadau sy'n cael arian reffeniw drwy gyfrwng ein Hadroddiadau Refeniw Blynyddol.

Mynna ein canllawiau loteri ar gadw at safonau Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladau i brosiectau cyfalaf a ariennir gan Gyngor y Celfyddydau – "ardderchog" ar gyfer adeiladu o'r newydd a "da iawn" ar gyfer gwaith adnewyddu. O'n prosiectau cyfredol, bydd Oriol Gelf Glynn Vivian yn Abertawe yn cyrraedd safon 'da iawn' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau a bydd Pontio ym Mangor yn cyrraedd, 'Ardderchog'. Bydd y ddau y tu hwnt i'r gofynion lleiafysmiol.

Rydym wedi sefydlu cynllun newydd o adfywio yn y gymuned a ddefnyddia'r celfyddydau i annog ffyrdd newydd o fynd ati o ran datblygiad lleol – Creu Cymunedau Cyfoes. Ei weledigaeth yw ymgorffori'r celfyddydau mewn ffordd ddidwyll ac ystyrlon mewn nifer bychan o brosiectau adfywio arloesol, uchelgeisiol a dychmyglon. Drwy'r prosiect hwn, dymunwn archwilio ffyrdd newydd o weithio sy'n cynhyrchu cydweithio ar draws y sector, profi syniadau a phartneriaethau newydd ac ysbrydoli cymunedau i ailddechmygu eu hamgylchedd mewn ffordd greadigol ac ymrymusiedig gan ddefnyddio datblygiad cynaliadwy yn fan cychwyn ac yn egwyddor arweiniol.

## Defnyddio ein safle arweiniol yn y sector

Rydym hefyd wedi cymryd ein swyddogaeth arweiniol o ddifrif. Comisiynasom adroddiad sy'n dogfennu hanes a phwysigrwydd y celfyddydau parthed y newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Lansiwyd a dathlwyd yn gyhoeddus yr adroddiad – **Newid Diwylliant** – mewn digwyddiad yn Chapter, Caerdydd ym mis Tachwedd 2014. Dosbarthwyd yr adroddiad hwn yn eang ymhlith ein cydsefydliadau a chalonogol iawn oedd yr ymateb a gydnabu hefyd swyddogaeth arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Rydym hefyd wedi ystyried yn weithredol gefnogi mentrau celfyddydol o safon ar thema'r newid yn yr hinsawdd. Teimlwn fod gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol yn lle pwysig i annog trafodaeth a hyrwyddo myfyrio ynddo. Gall agwedd pobl tuag at y newid yn yr hinsawdd fod yn seiliedig ar deimladau yn hytrach na rhesymeg yn unig. Gall y celfyddydau gyfathrebu â phobl ar lefel emosiynol a phrofwyd bod y celfyddydau'n effeithiol iawn wrth newid ymddygiad y mae ffyrdd seiliedig ar addysg a gwybodaeth ar eu pen eu hunain yn cael trafferth i'w newid. Felly rydym yn ymroddedig i flaenoriaethu prosiectau celfyddydol ar themâu amgylcheddol/datblygu cynaliadwy (sy'n diwallu ein holl feini prawf asesu cyhoeddedig) er mwyn chwarae rhan wrth fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015



Y Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015

## Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

Tâl y Cyngor bob aelod o'i staff, ac eithrio'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, yn unol â system gyflog a graddio y cytunwyd arni ac a gynhelir gan yr Adran Adnoddau Dynol. Mae Polisi Gwerthuso Swyddi ar waith a thrwy hwnnw y gall y staff ei ddefnyddio i apelio yn erbyn graddau eu swyddi. Cytunir â Llywodraeth Cymru ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Bob blwyddyn, mewn ymgynghoriad â'r undeb llafur cydnabyddedig llunnir cylch gwaith cyflog a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r pecyn cyflog ac amodau canlynol yn gyfrwymol ar y Cyngor cyfan tan y cylch negodi nesaf. Dibynna cynnydd dan y cylch gwaith cyflog ar berfformiad a brofwyd gan system y Cyngor o adolygiadau datblygiad personol.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu ymroddiad amser lleiafysmiol i fusnes y Cyngor. Rhydd Llywodraeth Cymru hefyd gyngor ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn.

Yng nghydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr mae cyflog sylfaenol a bonws blynyddol. Argymhella'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol fonysau blynyddol i'r Cyngor ar ôl ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn ôl nifer o amcanion a bennwyd ymlaen llaw. Cyfunir canran o'r cynnydd, fel y cyngorir gan Lywodraeth Cymru, â chyflog y Prif Weithredwr a thelir y gweddill fel dyfarniad heb ei gyfuno. Yn absenoldeb canllawiau oddi wrth Lywodraeth Cymru o ran newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr, nid oedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol yn gallu penderfynu a oedd modd talu cynnydd yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad ni chafodd y Prif Weithredwr gynnydd neu fonws heb ei gyfuno o ran 2014/15.

Penodir aelodau'r Cyngor gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd a gellid eu hailbenodi am ddau gyfnod pellach o dair blynedd. Penodwyd y Cadeirydd presennol, yr Athro Dai Smith, yn aelod o'r Cyngor ar 1 Ebrill 2004, ond cymerodd y gadeiryddiaeth drosodd ar 1 Ebrill 2006. Wedyn penododd y Gweinidog dros

Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yr Athro Dai Smith am dymor o dair blynedd (1 Ebrill 2007-31 Mawrth 2010), adnewyddodd y Gweinidog dros Dreftadaeth ei benodiad am dair blynedd arall (hyd at 31 Mawrth 2013) a chyhoeddodd y Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth y pery'r Athro yn ei swydd tan 31 Mawrth 2016. Cyflogir y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr ar gcontractau parhaol yn unol â thelerau ac amodau safonol y Cyngor.

Ar ôl cwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus, mae hawl gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr gael rhybudd o 13 wythnos i derfynu eu cyflogaeth.

Dyddiadau dechrau cyflogaeth yw:  
Yr Athro Dai Smith (Cadeirydd)  
1 Ebrill 2006;

Nicholas Capaldi (Prif Weithredwr)  
15 Medi 2008;

David Alston (Cyfarwyddwr y Celfyddydau)  
1 Gorffennaf 2005;

Katherine Davies  
(Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu o 1 Chwefror 2012 ymlaen)  
24 Awst 1998;

Diane Hebb  
(Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi o 1 Chwefror 2012 ymlaen)  
13 Ionawr 1992;

Siân Tomos  
(Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio o 1 Chwefror 2012 ymlaen)  
3 Mai 1994; a

Hywel Tudor  
(Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau)  
21 Ionawr 2002.

Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a buddion eu pensiwn fel y dangosir yn y tablau canlynol.

Archwiliwyd y ffigurau yn yr Adroddiad  
Cydnabyddiaeth ariannol hwn.

unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo  
hawliau pensiwn

Mae swm buddion y pensiwn ar gyfer y flwyddyn  
sy'n cyfrannu at un cyfanswm cydnabyddiaeth  
ariannol yn cael ei glandro mewn ffordd debyg i'r  
dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn  
at ddibenion treth ac yn seiliedig ar wybodaeth  
a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol  
Cyngor y Celfyddydau 1994.

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor  
yn ystod y flwyddyn, eithr clandrad sy'n defnyddio  
gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gellir  
dylanwadu ar ffigurau gan nifer o ffactorau, er  
enghraifft newidiadau yng nghyflog rhywun, os  
ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol  
at y cynllun pensiwn o'u cyflog neu beidio, a  
ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun  
pensiwn yn gyffredinol.

Dyma sut y clendrir gwerth buddion pensiwn:  
(cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn\* x 20) +  
(cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad)  
- (cyfraniadau a wnaed gan yr aelodau)  
\*gan eithrio'r cynnydd oherwydd chwyddiant neu

Un cyfanswm o'r ffigurau cydnabyddiaeth ariannol  
oedd:

Enw a Swydd/safle	2015			2014		
	Taliadau <sup>1</sup> band £'000	Buddion pensiwn £'000	Un cyfanswm o ran cydnabyddiaeth ariannol £'000	Taliadau <sup>1</sup> band £'000	Buddion pensiwn £'000	Un cyfanswm o ran cydnabyddiaeth ariannol £'000
Nicholas Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	90-95	24	115-120	90-95	22	115-120
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	65-70	19	85-90	65-70	22	90-95
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu</i>	60-65	49	110-115	55-60	37	95-100
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgysylltu</i>	60-65	34	95-100	55-60	27	80-85
Siân Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</i>	60-65	41	100-105	55-60	32	85-90
Hywel Tudor <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	65-70	19	85-90	65-70	24	90-95

<sup>1</sup> Taliadau – nid oes canllawiau wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth Cymru o ran hawl y Prif Weithredwyr i gael swm anghyfnertedig cysylltiedig â pherfformiad ar gyfer 2014/15. Nid oes gan y Cyfarwyddwyr eraill hawl i gael dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad.

Buddion y pensiwn oedd:

Enw a Swydd/safle	2015		2015		2015	2014	2015
	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad cysylltiedig yn oed 65	Cyfanswm gronnyd yn oed 65 ar 31 Mawrth 2015 a chyfundaliad cysylltiedig	Cyfanswm pensiwn a gronnyd yn oed 65 ar 31 Mawrth 2015 a chyfundaliad cysylltiedig	Gwerth Trosglwyddo <sup>2</sup> Cyfwerth ag Arian ar 31 Mawrth 2015	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian ar 31 Mawrth 2014	Cynnydd gwirioneddol <sup>3</sup> mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfateb ag Arian	£'000
Nicholas Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 2.5-5	Pensiwn 5-10 Cyfundaliad 20-25		138	91	47	
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 2.5-5	Pensiwn 5-10 Cyfundaliad 20-25		159	124	35	
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 5-7.5	Pensiwn 20-25 Cyfundaliad 60-65		379	263	116	
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgysylltu</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 2.5-5	Pensiwn 10-15 Cyfundaliad 30-35		212	145	67	
Siân Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 5-7.5	Pensiwn 15-20 Cyfundaliad 45-50		300	209	91	
Hywel Tudor <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	Pensiwn 0-2.5 Cyfundaliad 2.5-5	Pensiwn 10-15 Cyfundaliad 35-40		238	185	53	

<sup>2</sup> Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian - ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian yw gwerth cyfalafol buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddiannau a brisir yw buddiannau croniedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan ymedy'r aelod â'r cynllun a dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Noda'r ffigurau pensiwn a ddangosir y buddiannau a gronnyd gan yr unigolyn ar ôl dod yn aelod llawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Cynnwys y ffigurau werth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i Gynllun Ymdeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Cynhwysant unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronodd aelod drwy brynu ar ei draul ei hun flynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian yn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariaid ac nid ystyria unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawllir buddion pensiwn.

Mae Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn o ganlyniad i sawl cwmp sylweddol mewn cyfraddau â dyddiad hir y clendrir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian arnynt. Yn ynysig disgwyliad i'r rhain gynyddu Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian gan ryw 15%-25% gan ddibynnu ar oed aelod.

<sup>3</sup> Gwir gynnydd yng Ngwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian - adlewyrcha hwn y cynnydd yng Ngwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian a ariennir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Ni chynnwys y cynnydd mewn pensiwn croniedig sy'n seiliedig ar chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) a defnyddia ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau a diwedd y cyfnod ariannol.



Telir y Cadeirydd, gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, am ei wasanaethau. Ni thelir aelodau eraill o'r Cyngor a Phwyllgorau am eu gwasanaeth. Swm cyfunol o £1,169 (2013/14: £15,4771) a ad-dalwyd i 14 (2013/14: 1) aelod o'r Cyngor am gostau teithio a chynhaliaeth a gafwyd ar fusnes y Cyngor. Dyma'r swm cyfunol a ddyrannwyd i weithgareddau Dosbarthu'r Loteri: £5,787 (2013/14: £6,183).

Cynhwysai cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr:

	2015 £	2014 £
Cadeirydd Cyflog	<u>43,810</u>	<u>43,810</u>
Prif Weithredwr Cyflog	93,380	93,380
Cyfraniadpensiwn y cyflogwr	<u>18,676</u>	<u>16,155</u>
	<u>112,056</u>	<u>109,535</u>

Treuliau teithio a chynhaliaeth a gafwyd ar fusnes y Cyngor ac a ad-dalwyd:

Cadeirydd	2,947	3,129
Prif Weithredwr	6,117	8,744

35% (2013/14: 34%) o daliadau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi'u codi yn y datganiadau ariannol hyn a chodir y gweddill ar weithgareddau cyffredinol.

Ar 31 Mawrth y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol (gyfwerth ag amser llawn) am yr holl Gyngor oedd:

31,000	30,000
--------	--------

Y gymhareb rhwng y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol a chydabyddiaeth flynyddol yr aelod o'r staff â'r cyflog uchaf (yn yr holl Gyngor) oedd:

1:3.01	1:3.12
--------	--------

Aelodau o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol a wasanaethodd er1 Ebrill 2014 oedd:

Yr Athro Dai Smith (aelod o'r Cyngor);  
Margaret Jervis MBE DL (aelod o'r Cyngor);  
Dr John Geraint (aelod o'r Cyngor); a  
Philip Westwood (aelod annibynnol).



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer ei weithgareddau dosbarthu'r Loteri ar ffurf ac ar sail a bennir gan Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor ac o'i incwm a'i wariant, newidiadau mewn ecwiti a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a gweithredu polisiau cyfrifyddu priodol ar sail gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu dros y Cyngor. Nodir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Cyngor, yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r datganiad llywodraethu hwn yn gyfrifoldeb personol i mi, Nicholas Capaldi. Mae'n disgrifio trefniadau llywodraethu Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hefyd yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau am sicrhau ein bod yn cynnal ein busnes, o ran gweithgarwch y trysorlys a'r loteri, yn unol â'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys darparu'r sicrwydd angenrheidiol ein bod, a ninnau'n sefydliad, yn glynu at y safonau cywir a sefydlu'r trefniadau diogelu angenrheidiol i amddiffyn y defnydd o arian y cyhoedd. Esboniaf sut y cyfrifyddir yn iawn am yr arian hwn a'i ddefnyddio'n gynnil, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni ein cynlluniau a'n blaenoriaethau.

### Am Gyngor Celfyddydau Cymru

Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994 a nod ei fodolaeth yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru. Mae'n gwneud hyn er budd pobl ledled Cymru ac er mwyn cefnogi celfyddydau Cymru yn rhyngwladol.

Rydym hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn Ddosbarthwr y Loteri Genedlaethol ac yn elusen gofrestredig (rhif 1034245).

Disgrifia ein Siarter Frenhinol ein hamcanion. Dyma'r amcanion:

- datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u hymarfer;
- cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;
- gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; a,
- chydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill Cymru a Chynghorau Celfyddydau eraill Prydain, i gyflawni'r amcanion hyn.

Mae copi o'n Siarter Frenhinol i'w gael ar ein [gwefan](#).

### Y fframwaith cyfreithiol

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd cyfreithiol sydd wedi'i bennu a'i reoleiddio'n ofalus. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i Ddirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gweithredwn mewn fframwaith a noda'r telerau a'r amodau y glyna Gweinidogion Cymru atynt wrth roi inni ein harian cymorth grant ac sy'n nodi sut y gallwn ei ddefnyddio. Megis cyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae'n rhaid inni hefyd lynu at y gofynion sydd yn nogfen arweiniol y Llywodraeth, *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

A ninnau'n ddsbarthwr arian y Loteri dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd), rydym yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol Prydain dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cawn ein cyfarwyddiadau ariannol oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a'n cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn nodi sut y bydd yn rhaid inni weithredu o ran gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

Mae'n rhaid inni gyfrifyddu am ein gweithgarwch dosbarthu arian y Loteri ar wahân i weddill ein gwaith ac mae gennym drefniadau priodol ar waith i sicrhau y cynhyrchwn ddwy set o gyfrifon cyhoeddedig. Mae ein cyfrifon Dosbarthu'r Loteri yn cael eu harchwilio dan drefniant gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol.

A ninnau'n elusen, mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Deddfau'r Elusennau 1960, 2006 a 2011. Felly, dilynwn arweiniad a gyflwynir gan y Comisiwn Elusennau, gan weithredu'n unswydd i gyflawni ein hamcanion elusennol a siartredig.

Mae'r gweithgareddau yr ydym yn eu gwneud mewn cysylltiad â'n *Cynllun Casglu* yn ddarostyngedig i Ddeddf Credyd y Defnyddwyr ac i'r arweiniad sy'n cael ei gyhoeddi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rydym wedi dylunio ein systemau, ein prosesau a'n rheolaethau i gymryd i ystyriaeth y gwahanol

gyfrifoldebau hyn. Yn y fframweithiau hyn rydym yn gwneud penderfyniadau annibynnol o ran cyfeiriad strategol y sefydliad, ariannu grantiau a phenderfyniadau ariannol eraill.

Petai'r angen yn codi, mae'r canlynol yn gallu ymchwilio i fusnes y Cyngor: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu; y Comisiwn Elusennau; y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru.

### Ein trefniadau Llywodraethu

Rydym yn cael ein llywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr – y Cyngor – sy'n cynnwys Cadeirydd a hyd at 17 o aelodau annibynnol eraill a phenodir un ohonynt yn Is-gadeirydd. Daw pob Ymddiriedolwr ag arbenigedd a gwybodaeth i'r broses o arolygu a datblygu ein gweithgareddau. Ar ddiwedd Mawrth 2015, cynhwysai ein Cyngor Gadeirydd a deuddeg aelod.

Nodwn gyda thristwch mawr farwolaeth yr aelod o'r Cyngor, Osi Rhys Osmond, ym Mawrth 2015. Bu'n aelod o'r Cyngor er 2010 a siriolodd a bywiogodd drafodaethau'r Cyngor gyda'i gyfraniadau deifiol, angerddol a ffraeth. Cadeiriodd Osi hefyd Bwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis. Mawr oedd ei gyfraniad at gelfyddydau Cymru. Bydd colled ddybryd ar ei ôl.

Penodir ein Hymddiriedolwyr gan y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth drwy broses ddewis agored yn unol ag egwyddorion Nolan. Gwneir penodiadau fel rheol am gyfnod o dair blynedd a gellir eu hadnewyddu am fwyafswm o ddau gyfnod o dair blynedd ychwanegol. Telir Cadeirydd y Cyngor ar raddfa a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae pob Ymddiriedolwr arall yn rhoi o'i amser a'i arbenigedd yn wirfoddol. Serch hynny, cânt eu had-dalu am dreuliau parod a ddaw yng nghwrs busnes y Cyngor. Mae crynodeb o hyn yn nodyn 9b o'r datganiadau ariannol hyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ein cyfeiriad strategol ac am reoli ein sefydliad. Mae'n gyfrifol am sicrhau, drwof fi, y Prif Weithredwr, ein bod yn gweithredu yn unol â'r fframwaith polisi sy'n cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru a'n bod

yn bodloni sawl atebolrwydd gwahanol arall y mae'n rhaid inni eu cyflawni, fel y disgrifir hwy uchod. Ceidw'r Cadeirydd mewn cysylltiad cyson â'r Dirprwy Weinidog. A chyferfydd y Prif Weithredwr yn ffurfiol â swyddogion y Llywodraeth yn chwarterol i roi iddynt wybod am y newyddion diweddaraf am gyflawni'r gwaith.

### Penderfynu


Ac yntau'n gorff penderfynu eithaf y sefydliad, mae aelodau o'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol ar bolisi corfforaethol, llunio ein Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol ac unrhyw newidiadau mawrion i delerau ac amodau gwasanaeth y staff. Hwyl hefyd sy'n pennu'r gyllideb flynyddol, penderfynu ar ddyraniad blynyddol y grantiau i sefydliadau sy'n cael arian refeniw a chymeradwyo pob grant dros £50,000 (neu dros £250,000 yn achos prosiectau cyfalaf gydag arian y Loteri). Dirprwywyd y penderfyniadau ar grantiau sy'n is na'r trothwyon hyn i aelodau awdurdodedig o'r staff ar gyfer grantiau ac i'r Pwyllgor Cyfalaf ar gyfer prosiectau cyfalaf.

I gefnogi ei waith, penododd y Cyngor dri phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol. Dyma hwy: Archwilio; Cyfalaf; a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol. Mae gan y Cyngor hefyd bwyllgor ymgynghorol ad hoc i'w gynghori ar brosiect Cymru yn Fenis, a thri grŵp monitro mewnol sydd, drwy gyfrwng yr Uwch Tîm Rheoli, yn estyn cymorth i'r Cyngor wrth gyflawni ei gyfrifoldebau.

Cynnwys pob pwyllgor aelodau o'r Cyngor (y gweithreda un ohonynt yn gadeirydd) ac aelodau annibynnol o'r pwyllgor a benodir drwy broses ddewis agored oherwydd eu sgiliau a'u profiad. Gweithreda pob pwyllgor dan gylch gorchwyl penodol. Cewch gopïau o'r rhain ar ein [gwefan](#). Adolygir y cylchoedd gorchwyl yn flynyddol.

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor ac o bob Pwyllgor yn mynd drwy broses sefydlu sy'n briodol i'w swyddogaeth a chaiff ei annog i barhau â'i ddatblygiad yn ystod amser ei benodiad.

## Strwythur ein Llywodraethu



Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd ein llywodraethu, ein rheoli perygl a'n trefniadau rheoli mewnol. Mae'n craffu ar reolaeth a gweinyddiaeth y sefydliad i brofi a weithredir y prosesau a gweithdrefnau i'r safon uchel y mae'r Cyngor yn ei disgwyl.

Mae'r Pwyllgor Cyfalaf yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor ynghylch datblygu polisi ar bob agwedd ar ddatblygu cyfalaf, gan gynnwys blaenoriaethau ariannu a chynlluniau. Mae Cyngor yn dirprwyo i'r Pwyllgor yr awdurdod i wneud penderfyniadau ariannu ar grantiau cyfalaf y loteri o £50,001 i £250,000 a gwneud argymhellion ar grantiau cyfalaf mwy i'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro prosiectau byw a chynghori'r Cyngor arnynt.

Mae gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Penodiadau ac Adnoddau Dynol gyfrifoldeb am gytuno faint o dâl a gaiff y Cadeirydd yn y cyfyngiadau a bennir gan Weinidogion Cymru; am bennu amcanion blynyddol y Prif Weithredwr ac adolygu ei berfformiad; am benodi i swyddi uwch yn y gweithlu; ac am oruchwyllo a monitro materion Adnoddau Dynol ar ran y Cyngor.

Darpara pob Pwyllgor, fel mater o gwrs, gofnodion pob cyfarfod i'r Cyngor i'w trafod ac i adrodd

arnynt. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol sy'n crynhoi ei waith.

Ceir manylion o aelodaeth y Cyngor a'r tri phwyllgor hyn, gyda manylion mynychu'r aelodau yn y cyfarfodydd yn adran y *manyllion cyfeiriol a gweinyddol* ar ddechrau'r Adroddiad Blynyddol hwn gan yr Ymddiriedolwyr.

Arweinir yr Uwch Tîm Rheol gan y Prif Weithredwr gyda chefnogaeth pum Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol bob un am agweddau penodol ar ein gwaith. Mae rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a nodyn 9 o'r datganiadau ariannol.

Roedd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis yn gyfrifol am ddatblygu a goruchwyllo trefnu ein presenoldeb ym Miennale Celf Fenis 2015.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynasom drydydd grŵp monitro mewnol – y Grŵp Monitro Datblygiad Cynaliadwy – a oedd, gyda Grŵp Monitro'r Cydraddoldebau Strategol a Grŵp Monitro'r Gymraeg, yn gymorth i yrru ymlaen agenda'r Cyngor yn y meysydd hyn. Derbyniodd y Cyngor ddiweddariadau chwarterol oddi wrth bob grŵp.

Cawn gefnogaeth oddi wrth ein Hymgyngorwyr Cenedlaethol yn ein gwaith a chynigiant eu hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol. Cyfranna

eu gwybodaeth a'u cymorth arbenigol at ddatblygu polisi, asesu ceisiadau am grant a chyngor i swyddogion. Penodir hwy drwy broses ddewis agored.

### Hybwn werthoedd llywodraethu da

Rydym yn cadw at saith Egwyddor yr Arglwydd Nolan ar gyfer **Bywyd Cyhoeddus** ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob un o'n gweithwyr, ein Hymddiriedolwyr, aelodau o'n Pwyllgorau a'n Hymgyngorwyr Cenedlaethol yn deall a chymhwyso'r Egwyddorion hyn ac yn glynu wrthynt.

I gefnogi hyn, mae gennym [God yr Ymarfer Gorau](#) sy'n fodd i sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion wedi'u diffinio'n glir. Mae hefyd yn cynnwys y safonau o briodoldeb a ddisgwyllir y dylai aelodau a'r staff lynu wrthynt. Cafodd y Cod ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn mynnu bod pob aelod o'r Cyngor, pob aelod o bob Pwyllgor a phob un o'n Hymgyngorwyr Cenedlaethol a phob aelod o'n staff yn llenwi **Datganiad** blynyddol sy'n datgan Budd a sicrhau nad oes oedi wrth roi gwybod inni am unrhyw newidiadau perthnasol yn eu hamgylchiadau. Mae cofrestr fudd yr Aelodau o'r Cyngor a'r Pwyllgorau a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol ar gael i'r cyhoedd gael ei gweld, o wneud apwyntiad, ymhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Ymgwymerodd y Cyngor, a phob un o'n Pwyllgorau, ag adolygiad hunanasesu o berfformiad. Ar y cyfan, roedd y canfyddiadau o'r gwerthusiadau hyn yn gadarnhaol yn ystod 2014/15. Delir meysydd a nodwyd i'w gwella mewn cynlluniau gweithredu. Y casgliad yn dilyn hunanasesiad y Cyngor yn enwedig oedd bod y rhan fwyaf helaeth o'i ddangosyddion effeithiolrwydd wedi'u diwallu. Roedd y Cyngor yn hapus gyda'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn adolygiad y llynedd. Maes arbennig i ganolbwyntio arno fydd gwella aleiniad datblygiad polisi, strategaeth, pennu cyllidebau ac adrodd fel y gellir monitro ac asesu'n well werth canlyniadau ein gwaith.

Gwahoddwyd Cyngor Celfyddydau Cymru i ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr hydref, 2014. Roedd y gwahoddiad yn rhan o fenter newydd

ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ystyried detholiad o sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru. Ni oedd y Corff cyntaf a Noddir gan Lywodraeth Cymru i gael gwahoddiad a chroesawsom y cyfle i fynd a thrafod ein gwaith. Craffodd y Pwyllgor ar ein cyfrifon gan brofi'n galed werth am arian ein gweithgareddau a gwnaeth aelodau o'r Pwyllgor nifer o awgrymiadau defnyddiol. Edrychwn ymlaen at ymgorffori sylwadau a chyngor y Pwyllgor yn yr adroddiad hwn a'n hadroddiadau yn y dyfodol.

Wedyn trefnasom a chroesawsom gyfarfod o Gadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio yn y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrrff llai eraill ar thema, "*Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus*". Cawsom y pleser o weld cyflwyniadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Clerc y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a mynychwyr gwrandawiaadau'r Pwyllgor. Roedd yn gyfle defnyddiol i gyfnewid gwybodaeth a gwersi ac roedd yn rhan o ymrwymiad y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru i gydweithio a gwella perfformiad.

Nid yw cod Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi yn uniongyrchol gymwys i Gyngor Celfyddydau Cymru. Serch hynny, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn fodlon bod y trefniadau sydd gennym ar waith yn dangos ymarfer da. Credaf hefyd fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cydymffurfio â'r egwyddorion o atebolrwydd, effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth a fynegwyd yng Nghod y Trysorlys cyn belled eu bod yn berthnasol i Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Dosbarthwyr y Loteri. Mae'r Cyngor yn cytuno â'r farn hon.

### Penderfynu'n wybodus

Porthir penderfyniadau ein Cyngor a'n Pwyllgorau gan gyngor a ddarparwyd gan staff Cyngor Celfyddydau Cymru. Disgwylir i ddogfennau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion i ddangos yn glir bob gwybodaeth berthnasol sydd ei hangen i alluogi gwneud penderfyniadau gwlybodus. Amlyga pob dogfen allweddol y canlynol: goblygiadau ariannol, amgylcheddol ac ar gyfer adnoddau dynol; peryglon; a datganiad o sicrwydd.

Mae adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu cylchredeg ymlaen llaw cyn pob cyfarfod o'n Cyngor a'n Pwyllgorau i'w hystyried gan aelodau, gan dderbyn eitemau a gyflwynir ac adroddiadau



ar lafar dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Yn yr enghreifftiau prin pan nad yw'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn diwallu ein safonau, rydym yn gwrthod y ddogfen a chomisiynu un arall yn ei lle.

Lle bo'n briodol, mae cyngor gan ein swyddogion yn cael ei ategu gan gyngor arbenigol oddi wrth ein Hymgynghorwyr Cenedlaethol a, lle mae'n berthnasol, gyda chyngor arbenigol gan arbenigwyr a barn gan gyfreithwyr. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod ganddo ddigon o amser a gwybodaeth i iawn drafod polisi ac ystyried cyfeiriad y sefydliad i'r dyfodol.

Roedd y Cyngor yn fodlon, yn ystod y flwyddyn, ar brydlondeb ac ansawdd y data a'r wybodaeth a ddarparwyd at ei ddefnydd. Barnai'r Cyngor hefyd mai dibynadwy oedd y wybodaeth a ddarparwyd o ran y grantiau. Adolygir yn flynyddol y systemau a ddefnyddir i ddarparu'r wybodaeth am grantiau yn rhan o'r rhaglen archwilio fewnol.

Ymgynghorir ar gynigion polisi allweddol ymhlith y cyhoedd. Cyn terfynu'r polisiâu, porthir trafodaethau'r Cyngor yn bellach gan yr ymatebion a'r adborth.

### Materion a gafodd eu hystyried gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn

Ymgylfarfu'r Cyngor chwe gwaith yn ystod 2014/15 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 71 o weithiau allan o 83 posibl. Ymhob achos cafwyd esboniadau boddhaol am absenoldeb. Gellir gweld manylion am fynychu unigolion ar ddechrau'r Adroddiad Blynyddol hwn gan yr Ymddiriedolwyr.

Canolbwyntiodd y Cyngor ar agweddau allweddol ar ei gyfrifoldebau corfforaethol:

- **Llywodraethu** – adolygodd y Cyngor ein Fframwaith o Sicrwydd Corfforaethol a'n cofrestr berygl; adolygodd hefyd God yr Ymarfer Gorau a gwnaeth asesiad o'i berfformiad ei hun
- **Polisi** – datblygodd a lansiodd y Cyngor ei strategaeth newydd am y celfyddydau, *Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau*, a chymeradwyodd y bartneriaeth newydd o ran y celfyddydau ac addysg gyda Llywodraeth

Cymru a goruchwyliai ddatblygu ein cytundeb am bartneriaeth ryngwladol gyda The British Council

- **Cynllunio** – lluniodd a monitrodd y Cyngor y Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol, a chafodd ddiweddariadau ar feysydd allweddol o berfformiad gan gynnwys Cynlluniau parthed y Cydraddoldebau, Datblygiad Cynaliadwy a'r Gymraeg
- **Ariannu** – pennodd a monitrodd y Cyngor y gyllideb flynyddol. Cytunodd hefyd ar lefelau'r arian i sefydliadau allweddol a monitrodd eu perfformiad drwy'r flwyddyn
- **Prosiectau** – monitrodd y Cyngor gynnydd prosiectau a oedd yn strategol bwysig gan gynnwys *Gŵyl Dylan Thomas yn Gant, Cymru yn Fenis 2015*, yr ail Adolygiad Buddsoddi pum-mlwyddol (a ddigwydd yn 2015) a'r rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* (sy'n brosiect partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru)
- **Digwyddiadau** – mynychodd aelodau ddigwyddiadau celfyddydol ledled Cymru gan gynrychioli'r Cyngor

Gellir gweld copïau o agendâu a chofnodion ein cyfarfodydd Cyngor ar ein [gwefan](#).

### Darparwn arian i drydydd partïon

Un o ddyletswyddau pwysicaf Cyngor Celfyddydau Cymru yw dosbarthu arian i ddatblygu a chefnogi celfyddydau Cymru. Rydym yn ddosbarthwr pwysig o arian – oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau eraill, gan gynnwys - lle bo'n gymwys - arian o Ewrop. Cymerwn ein cyfrifoldebau o ddifrif.

Datblygasom systemau a gweithdrefnau gwydn ac atebol i gefnogi'r gweithgaredd allweddol hwn. Mae ein prosesau dyrannu grantiau a monitro yn cael eu hadolygu yn flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol i sicrhau eu bod yn aros yn addas i'w pwrpas. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein gweithgareddau dyrannu grantiau bob blwyddyn. Mae pob argymhelliad y mae ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn ei wneud yn cael ei fonitro gan ein Pwyllgor Archwilio i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu mewn da bryd.

Penderfyna'r Cyngor a ddylid rhoi statws sefydliad sy'n cael arian refeniw i sefydliad ar sail cyngor (a gefnogir gan asesiadau trylwyr) gan swyddogion. Porthir ein portffolio yn y dyfodol o sefydliadau sy'n cael arian refeniw gan ganlyniad ein Hadolygiad Buddsoddi – sy'n archwiliad pwysfawr o'n hariannu – a ddigwydd yn ystod 2015.

Monitrir yn ofalus ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw gan swyddogion a darperir i'r Cyngor adroddiadau rheolaidd sy'n asesu peryglon pob un o'n sefydliadau sy'n cael arian refeniw yn flynyddol. Mae'r rhain yn cael eu cefnogi gan adroddiad sy'n disgrifio'r themâu allweddol a ddaeth i'r fei yn ystod y gyfres o gyfarfodydd adolygu blynyddol a gynhaliwyd yn ystod 2013/14 gyda phob sefydliad sy'n cael arian refeniw. Pan fo galw, cymerwn agwedd ragweithiol o ran sefydliadau a gaiff anawsterau a buddsoddi amser ac egni i'w cynorthwyo i ddatrys eu problemau.

Ystyriodd y Cyngor adroddiadau ac argymhellion oddi wrth swyddogion ac ymgynghorwyr arbenigol sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau y credir iddynt syrthio i gategori 'perygl dybryd'. Mewn rhai achosion, mynasom gael newidiadau sylweddol ym mherfformiad a rheolaeth y sefydliadau hynny er mwyn ceisio diogelu eu dyfodol. Pery'r sefydliadau hyn i fod yn ddarostyngedig i fonitro manwl nes y teimlwn fod y sefydliad wedi ymsefydlogi ac yn gallu parhau'n fusnes cynaliadwy.

Cyhoeddwn [ganllawiau](#) ar gyfer pob un o'n rhaglenni grantiau o arian y Loteri.

Mae gennym brosesau ymgeisio agored a thryloyw i'n rhaglenni grant a phrosesau asesu, penderfynu a monitro cadarn i bob arian a roddwn i artistiaid a sefydliadau celfyddydol.

Ystyriwn berygl pan aseswn geisiadau a monitro grantiau a roddwn. Rydym yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chasglu oddi wrth y rhai sy'n derbyn gennym grantiau yn rhan o'n gweithdrefnau monitro i sicrhau bod y canlyniadau datganedig yr ydym wedi'u rhagweld wrth ddyrannu'r arian yn cael eu cyflawni yn y pen draw. Cymer y Cyngor dwyll, llygredd a chamweinyddu o ddifrif ac mae ganddo bolisiau i atal y rhain a delio â hwy pe codent, gan gynnwys polisiau chwythu'r chwiban a gwrth-dwyll. Adolygwyd y rhain yn ystod y flwyddyn.

Gellir dod o hyd i restr lawn o grantiau a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn ariannol yn yr atodiad i'r datganiadau ariannol.

## Sut y rheolwn berygl

Cymer y Cyngor olwg bwylllog ar berygl. Adlewyrcha hyn ein cyfrifoldebau, a ninnau'n elusen a chorff a ariennir gan y cyhoedd, a natur y sector a wasanaethwn.

Cydnebydd y Cyngor y rheidrwydd i unrhyw strategaeth ddatblygu uchelgeisiol dderbyn y posibilrwydd o berygl o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion. Ein bwriad yw hyrwyddo diwylliant mwy arloesol a llai ofnus o berygl er mwyn inni allu cefnogi artistiaid, sefydliadau a phrosiectau i gyflawni ein hamcanion.

Mae arnom angen cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ein dyletswydd i arloesi a'r angen cynyddol i fwyafu buddion ein buddsoddiad ar gyfer y sector ac ar gyfer y cyhoedd. Mae arnom angen mentro'n bwylllog a phriodol ar brydiau a chydabod y byddwn weithiau'n methu wrth wneud hyn. Serch hynny, ni wnawn ddim di-hid; ni wariwn arian y cyhoedd yn wastraffus ychwaith neu beryglu ein henw da am bwyll ariannol.

Mae gennym felly system o reolaeth fewnol gyda'r amcan o nodi a blaenoriaethu'r peryglon a allai ein hatal rhag cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor. Gwerthuso debygolrwydd gwireddu'r peryglon ac ystyried eu heffaith pe digwyddent a cheisio eu rheoli'n effeithlon, effeithiol ac economaidd. Serch hynny, rydym yn cydnabod y bydd ein system o reolaeth fewnol dim ond yn gallu rheoli perygl hyd lefel resymol a phriodol ac felly dim ond lefel resymol o sicrwydd y gallai ei darparu ac nid y lefel eithaf o sicrwydd o effeithiolrwydd.

Ceisiwn wella ein systemau o reolaeth fewnol o hyd i sicrhau eu bod o gymorth inni wrth gyflawni ein targedau ariannu a strategol. Menter allweddol a ddatblygwyd dan oruchwyliaeth ein Pwyllgor Archwilio oedd ein Fframwaith o Sicrwydd Corfforaethol. Mae'r fframwaith yn cael ei ddefnyddio i nodi cadernid y rheolaethau a'r prosesau sicrwydd gwaelodol sy'n cael eu defnyddio i nodi a rheoli peryglon strategol allweddol. Amlygir unrhyw agweddau sydd angen eu cryfhau er mwyn inni gymryd camau gweithredu priodol. Caiff y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor



ddiweddariadau rheolaidd ar hyn ac ar ein cofrestr berygl gorfforaethol.

## Peryglon allweddol a wyneba Cyngor Celfyddydau Cymru

Wrth ystyried y dyfodol, mae nifer o beryglon allweddol sy'n ein hwynebu yn y flwyddyn a ddaw neu wedyn.

Y perygl strategol mwyaf arwyddocaol yn y dyfodol agos iawn yw'r ansicrwydd am y pwysau economaidd ehangach ac yn fwy penodol y cyfyngiadau ar lefel gwariant cyhoeddus sydd ar gael i gefnogi'r sector celfyddydol ledled Cymru.

Pryder difrifol a pharhaus yw effaith y toriadau ar wariant cyhoeddus a'r goblygiadau posibl a gâi hyn ar y sector celfyddydol ehangach. Mae ein cyllidebau ni'n hunain dan bwysau. Roedd yn rhaid inni unwaith eto leihau lefel yr arian refeniw blynyddol i'n portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw yn ogystal â dod o hyd i arbedion pellach yn ein costau rhedeg ein hunain. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd gymryd penderfyniadau anodd iawn ac mae tystiolaeth gynyddol y bydd y lefel o gefnogaeth y maent wedi'i rhoi i sector y celfyddydau yn y gorffennol yn mynd i ddiodeff. Gallai hyn gael goblygiadau difrifol ar gyfer seilwaith y celfyddydau ledled Cymru ac y byddai'n niweidio'r buddion a gyfyd o'r buddsoddiad cyhoeddus a wnaed yn y gorffennol.

Yn sgil y cynnydd yn ein hincwm Loteri a gawsom yn y blynyddoedd diweddar, erbyn hyn gwelwn dystiolaeth gynyddol o leihad gwaelodol yn lefelau'r incwm. Nid oes modd inni osgoi'r effaith a gaiff hyn ar ein gweithgareddau rhoi grantiau. Ac o gynnal y duedd ar i lawr hon, ac o ddigwydd hyn ochr yn ochr â thoriadau pellach yn y gwariant cyhoeddus, y canlyniad anochel fydd inni orfod ailasesu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Rydym yn monitro'r sefyllfa'n ofalus a, lle y gallwn, byddwn yn mynd ati i fynd i'r afael â materion lle mai ni yw'r ariannwr allweddol, neu lle y gallwn gael dylanwad uniongyrchol.

Am wahanol resymau, mae dau brosiect cyfalaf mawr y Loteri y cynorthwywn eu hariannu, Pontio ym Mhrifysgol Bangor ac Oriol Gelf Glynn Vivian yn Abertawe, wedi profi sawl her yn ystod y flwyddyn. Monitrir y ddaun ofalus gyda chymorth

arbenigwyr annibynnol sy'n defnyddio ein gweithdrefnau monitro trylwyr.

Yn ystod y flwyddyn lansiasom y cynllun, *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*, sy'n bartneriaeth pum mlynedd rhwng adran Addysg Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Seilir y cynllun ar yr argymhellion a oedd yn yr adroddiad annibynnol, *Y Celfyddydau mewn Addysg yng Nghymru*, gan yr Athro Dai Smith. Mae graddfa'r newidiadau arfaethedig yn uchelgeisiol a'r gwobrwyon posibl yn anferth. Croesawn y cyfle sydd ymhlyg wrth hyn. Cydnabyddwn hefyd yr angen i reoli'n ofalus y peryglon lu sy'n gysylltiedig â rhaglen mor fawr a chymhleth â hon wrth inni ddechrau ei gweithredu yn ystod 2015.

Cawn yn yr Adolygiad Buddsoddi sydd ar y gweill y cyfle i sicrhau y rhoddwn gefnogaeth i borffolio o sefydliadau a all ein cynorthwyo am y gorau wrth gyflawni amcanion strategol y Cyngor ar gyfer celfyddydau Cymru am yr ychydig o flynyddoedd nesaf. Serch hynny, daw peryglon yn anochel i ddilyn adolygiad ar y raddfa hon, ansicrwydd am arian ac amgylchedd mor gyfnewidiol. Rheolwn yn ofalus y peryglon sy'n gysylltiedig â'r adolygiad er mwyn lleddfu gymaint â phosibl ar eu heffaith.

Rydym yn un o grwp bychan o sefydliadau sydd arnynt angen diwallu gofynion y Ddyletswydd Gynaliadwyedd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (ac adrodd ar y gofynion hyn) yng nghan cyntaf yr adrodd a nodir gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi hen ddechrau ar ein gwaith ymbarataol i sicrhau y gallwn gyflawni ein dyletswyddau sy'n dechrau yn Ebrill 2016.

## Diogelwch data

Rydym yn dal llawer iawn o ddata ac rydym yn cymryd ein hymrwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data o ddifrif. Sicrha ein systemau a'n rheolau TGCh fod rheolaeth lem ar ddiogelwch y data. Aseswn y trefniadau diogelwch hyn yn rheolaidd gan gymryd camau i'w gwneud yn gadarnach. Parhawn i'w monitro'n ofalus.

Nid amlygwyd unrhyw achosion o bryder difrifol yn y maes hwn gan ein hadolygiad uchel ei lefel o reolaethau TG a wnaeth ein harchwilwyr allanol, na chan ein rhaglen o adolygiadau archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn, na chan ein

hadolygiad sicrwydd a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru. Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y flwyddyn.

### Cyfarwyddiadau'r Gweinidogion

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol sy'n cynnwys cyfarwyddiadau priodol. Ni chyflwynwyd inni unrhyw Gyfarwyddiadau yn ystod y flwyddyn nac unrhyw Gyfarwyddiadau oddi wrth y Gweinidogion o ran ein gweithgareddau Loteri.

### Materion rheolaeth a nodwyd yn ystod y flwyddyn

Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig Deloitte sy'n darparu ein gwasanaeth archwilio mewnol dan arweiniad y Pennaeth Archwilio Mewnol a enwebir sy'n gweithio i Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno ar raglen o adolygiadau sy'n ymestyn dros gyfnod penodiad ein harchwilwyr mewnol. Mae blaenoriaethau ar gyfer pob blwyddyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac maent yn cynnwys archwiliadau o weithgareddau busnes allweddol yn ogystal â chraffu ar feysydd allweddol o berygl posibl i'r sefydliad. Nod yr adolygiadau yw darparu sicrwydd a chynnig cymorth o ran rheoli drwy nodi gwelliannau lle y bernir y bo eu hangen.

Gwnaed 11 o adolygiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, a dau ohonynt yn adolygiadau dilyn i fyny ac am y rhain ni chafwyd dyfarniad o sicrwydd. O'r naw adolygiad arall, canlyniad un oedd sicrwydd llawn, cafodd chwech lefelau sylweddol o sicrwydd a'r ddau'n weddill a roes sicrwydd cyfyngedig. Canolbwyntiwn ar y ddau o sicrwydd cyfyngedig i'w gwella a byddant yn destun adolygiadau pellach yng nghynllun Archwiliad Mewnol 2015/16. Mae pob argymhelliad sy'n cael ei godi gan yr archwiliad mewnol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio sy'n eu monitro ymhob cyfarfod chwarterol i sicrhau bod cam gweithredu priodol yn digwydd yn ei gylch a hynny'n brydlon.

Dyma farn yr archwilwyr mewnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor yn eu Hadroddiad Blynnyddol:

*"Seiliedig ar y gwaith yr ymgyngherasom ag ef yn ystod y flwyddyn, heblaw am y gwaith a wnaethom ar systemau rheolaeth fewnol o ran Monitro Ansawdd ac Ymchwil a Gwerthusiad, gallwn gyrraedd y casgliad bod gan Gyngor Celfyddydau Cymru system o reolaeth fewnol sy'n gadarn yn ei hanfod a ddylai darparu **sicrwydd sylweddol** parthed cyflawni amcanion Cyngor y Celfyddydau.*

*Nodasom ddau argymhelliad o flaenoriaeth uchel yn 2014/15, un parthed Monitro Ansawdd ac un am Ymchwil a Gwerthuso, a chanlyniad hyn oedd rhoi sicrwydd cyfyngedig i'r ddau adroddiad hyn. Rydym yn fodlon ar ymatebion y rheolwyr o ran y materion uchel eu blaenoriaeth a nodwn fod y rheolwyr wedi rhoi blaenoriaeth i weithredu'r argymhellion hyn."*

Nodir canfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru mewn Llythyr Rheoli at y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried y canfyddiadau ac yn eu monitro i sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol yn eu cylch a hynny'n brydlon.

### Aseiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol

Yn fy marn, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddigonol i'm galluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn rhinwedd fy swydd, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu.



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015

Cefnogwyd ar ran y Cyngor:



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Senedd Prydain a'r Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol am Gyfrif Dosbarthu Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Yn y datganiadau ariannol mae: Datganiadau o Wariant Cynhwysfawr Net, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian, Newidiadau Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Archwiliais hefyd y wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw yn archwiliedig.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon y darparant olwg wir a theg. Fy nghyfrifoldeb yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd arnynt yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Gofyn y safonau hyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Cyfrifyddu.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad i gael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyfrif Dosbarthu Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Gyngor Celfyddydau Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig, a nodi unrhyw wybodaeth sy'n sylweddol anghywir a hynny'n seiliedig ar y wybodaeth a gefais yng nghwrs gwneud yr archwiliad hwn neu'n anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof i wybod am unrhyw

gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Mae gofyn imi gael tystiolaeth ddigonol o sicrwydd rhesymol y defnyddiwyd y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac y cydymffurfia'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn, ymhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd Prydain ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir ynddynt yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn:

- darpara'r datganiadau ariannol olwg wir a theg o sefyllfa Cyfrif Dosbarthu Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2015 ac o'r gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hwnnw; ac
- y paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd â chymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn:

- paratowyd rhan i'w harchwilio o'r adroddiad cydnabyddiaeth ariannol yn iawn ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed â chymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r Adroddiad Strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol y darperir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol a adroddaf wrthyf os, yn fy marn:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu na chafwyd ffurflenni digonol am fy archwiliad o ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- na chytuna'r datganiadau ariannol a rhan yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol i'w harchwilio â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad adlewyrcha'r Datganiad Llywodraethu gydymffurfiaid â chanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Sir Amyas C E Morse  
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Gorffennaf 2015

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157-197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain  
SW1W 9SP

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Cyngor Celfyddydau Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru yw cynnal gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a sicrhau cywirdeb; nid yw'r gwaith a gyflawnwyd gan yr ymchwilydwr yn cynnwys ystyriaeth ar y materion yma ac o ganlyniad nid yw'r archwilydwr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a ddigwydd i'r datganiadau ariannol unwaith y cyflwynwyd hwy'n y lle cyntaf ar y wefan.

**Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net**  
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

	Nodyn	2015		2014	
		£'000	£'000	(a ailddatganwyd)	
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Gwariant</b>					
Rheoli a gweinyddu:					
Costau staff	2	1,095		1,039	
Costau gweithredu eraill	4a	601		612	
			<u>1,696</u>	<u>1,651</u>	
Grantiau nad oes modd eu hadennill:					
Grantiau nad oes modd eu hadennill a ddilewyd Cynnydd/(Lleihad) yn narpariaeth y dyledion amheus		24		-	
		(20)		3	
			<u>4</u>	<u>3</u>	
Gwariant ar y celfyddydau:					
Grantiau a roddwyd		17,237		18,078	
Llai: Grantiau a aeth yn ddi-rym ac a ddirymwyd		(372)		(228)	
Grantiau net a roddwyd	9		16,865		17,850
Dosbarthwyr dirprwyedig	8, 11		1,781		1,835
Grantiau celfyddydol eraill	5		270		150
Costau uniongyrchol rhoi grantiau	4b		26		25
			<u>18,942</u>		<u>19,860</u>
<b>Cyfanswm y gwariant</b>			<u><b>20,642</b></u>		<u><b>21,514</b></u>
<b>Incwm</b>					
Cyfran yr enillion o'r Loteri Genedlaethol	6		18,031		16,892
Incwm buddsoddi ar falansau					
Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	6		79		78
Ad-daliad o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd	6		1,487		-
Llog derbyniadwy			8		7
Grantiau adenilladwy			21		67
<b>Cyfanswm incwm</b>			<u><b>19,626</b></u>		<u><b>17,044</b></u>
<b>(Gwariant)/incwm net</b>			<b>(1,016)</b>		<b>(4,470)</b>
<b>Incwm Cynhwysfawr Arall</b>					
Enillion/(colledion) net heb eu gwireddu ar ail-werthuso buddsoddiad yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	6		-		(290)
<b>Cyfanswm yr Incwm/(Gwariant) Cynhwysfawr am y flwyddyn</b>			<u><b>(1,016)</b></u>		<u><b>(4,760)</b></u>

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn. Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 110-123 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol  
ar31 Mawrth 2015

		31 Mawrth 2015		31 Mawrth 2014 (a ailddatganwyd)	
	Nodyn	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau anghyfredol:</b>					
Derbyniadwyon masnach ac eraill	7a		150		150
<b>Asedau cyfredol:</b>					
Asedau ariannol:					
Buddsoddiadau - balans a ddalwyd yng					
Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	6	22,358		20,264	
Derbyniadwyon masnach ac eraill	7b	1		77	
Arian a phethau cyfwerth ag arian	10	1,645		1,308	
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>			<u>24,004</u>	<u>21,649</u>	
<b>Cyfanswm asedau</b>			<u>24,154</u>	<u>21,799</u>	
<b>Taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill – symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn:</b>					
Taladwyon masnach ac eraill	8	(216)		(262)	
Rhwymedigaethau eraill:					
Dosbarthwyr dirprwyedig	8	(884)		(462)	
Grantiau	8, 9	(14,969)		(14,299)	
<b>Cyfanswm y taladwyon a rhwymedigaethau cyfredol eraill</b>			<u>(16,069)</u>	<u>(15,023)</u>	
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net			8,085	6,776	
<b>Taladwyon masnachol a rhwymedigaethau eraill – symiau dyledus ar ôl hwy na blwyddyn:</b>					
Grantiau	9		(4,006)	(1,681)	
Asedau llai rhwymedigaethau			<u>4,079</u>	<u>5,095</u>	
<b>Ecwiti/Arian wrth gefn:</b>					
Cyfrif Gwariant Net			<u>4,079</u>	<u>5,095</u>	

Mae'r nodiadau ar dudalennau 110-123 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2015



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2015

Datganiad o Lifau Arian  
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

	2015	2014
	£'000	(a ailddatganwyd) £'000
<b>Lifau arian oddi wrthweithgareddau gweithredu</b>		
Incwm/(Gwariant) Net	(1,016)	(4,760)
Llog banc	(8)	(7)
(Cynnydd)/Lleihad yn y balans a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	(2,094)	337
(Cynnydd)/Lleihad mewn derbyniadwyon masnach ac eraill	76	(6)
Cynnydd/(Lleihad) mewn masnach a thaladwyon eraill a rhwymedigaethau eraill	376	229
Cynnydd/(Lleihad) mewngrantiau taladwy	2,995	3,769
<b>Mewnlif/(all-lif) arian net oddi wrth weithgareddau gweithredu</b>	<u>329</u>	<u>(438)</u>
<b>Arian a phethau cyfwerth ag arian</b>		
Cynnydd/(Lleihad) net mewn arian a balansau cyfwerth ag arian	337	(431)
Balans ar 1 Ebrill	1,308	1,739
Balans ar 31 Mawrth	<u>1,645</u>	<u>1,308</u>

Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti  
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

	2015	2014
	£'000	(a ailddatganwyd) £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	5,095	9,855
Incwm/(gwariant) net ar gyfer y flwyddyn	(1,016)	(4,760)
<b>Balans ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<u>4,079</u>	<u>5,095</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 110-123 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol

### 1 Polisiâu cyfrifyddu

#### a Sail y paratoi

Paratoir y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol. Paratowyd hwy mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chydsyniad Trysorlys ei Mawrhydi yn unol ag Adran 35(3) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn mewn cydymffurfiaid â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

#### *Addasiad y flwyddyn flaenorol*

Yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon diwygiedig a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a gafodd effaith o 1 Ebrill 2014 ymlaen, adlewyrchir grantiau yn y datganiadau ariannol yn unol â nodyn 1d. Dilyn hyn egwyddorion cyfrifyddu IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol.

Cyn 1 Ebrill 2014 codwyd grantiau megis gwariant yn y datganiadau ariannol pan gynigiasai'r Cyngor grant yn ffurfiol a dderbyniasid (gydag amodau priodol) gan y derbynnydd. Cofnodasid mewn nodyn yn y datganiadau ariannol ymrwymadau amhendant, a gododd pan gytunasai'r Cyngor mewn egwyddor i ariannu prosiect a phan wnaethai gynnig ond, ar ddiwedd y flwyddyn, ni dderbyniasid y cynnig yn ffurfiol gan y derbynnydd.

Datgelwyd y newid hwn yn y polisi cyfrifyddu megis addasiad y flwyddyn flaenorol ac ailddatganwyd y ffigurau cymharol ar gyfer 2013/14. Dyma'r newidiadau:

	A ailddatganwyd £'000	Gwreiddiol £'000
<b>Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net</b>		
Cynnydd o £2,491,000 yn y grantiau a roddwyd	17,850	15,359
Cynnydd o £2,491,000 yng Nghyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(4,760)	(2,269)
<b>Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol</b>		
Taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill – symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn:		
Cynnydd o £2,586,000 mewn grantiau taladwy	(14,299)	(11,713)
Taladwyon masnachol a rhwymedigaethau eraill – symiau dyledus ar ôl hwy na blwyddyn:		
Cynnydd o £245,000 mewn grantiau taladwy	(1,681)	(1,436)
Lleihad o £2,831,000 yn yr Arian wrth gefn: Cyfrif Gwariant Net	5,095	7,926
<b>Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti</b>		
Lleihad o £340,000 ym malans dechrau'r flwyddyn	9,855	10,195



## b Cydnabod incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am bob incwm ar sail groniadau. Rhoddir cyfrif am bob gwariant ar sail groniadau ac mae wedi'i ddsbarthu dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

## c Gweithgareddau cyffredinol

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn cwmpasu gweithgareddau cyffredinol y Cyngor, a ariennir drwy gymorth grant yn bennaf, ac y paratwir datganiadau ariannol ar wahân ar eu cyfer.

## ch Grantiau

Cyfrifyddir grantiau yn wariant yn y Datganiad o Wariant/Incwm Cynhwysfawr Net a, nes y cânt eu talu, yn rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol os:

- (i) cymeradwywyd hwy'n ffurfiol gan y Cyngor neu dan awdurdod dirprwyedig; a
- (ii) chyhoeddwyd i'r derbynwyr arfaethedig hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol (gan gynnwys e-bost neu gyfathrebiad trydanol arall); a
- (iii) mae'r cynigion yn rhydd rhag unrhyw amodau dan reolaeth y Cyngor.

Cydnabyddir grantiau taladwy mewn blwyddyn o ddiwedd y flwyddyn yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn rhwymedigaethau cyfredol. Dangosir fel y maent y rhai taladwy'n hwy na blwyddyn ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Ni chynhwysir y grantiau a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Cyngor, neu dan awdurdod dirprwyedig, na ddiwallant y diffiniad o fod yn rhwymedigaeth, yn y gwariant yn y Datganiad o Wariant/Incwm Cynhwysfawr Net neu yn rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ond datgelir hwy yn nodyn 9.

## d Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Erys balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol dan ofal yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ond dangosir y gyfran o'r balansau o'r fath y gellir ei phriodoli i'r Cyngor yn y cyfrifon ar werth y farchnad ac, ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ardystio ei bod ar gael i'w dosbarthu gan y Cyngor mewn perthynas ag ymrwymadau cyfredol ac yn y dyfodol.

Priodol yw dosbarthu buddsoddiadau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri yn eitemau sydd ar gael i'w gwerthu sy'n unol â pholisi cyfrifyddu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac mae'r driniaeth gyfrifyddol hon yn briodol i'r Cyngor. Dywed y polisi y delir buddsoddiadau ar werth teg gydag unrhyw elw neu golled heb ei gwreiddu yn cael ei chydabod drwy'r arian wrth gefn.

## dd Pensiynau

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r cynllun pensiwn yn darparu buddiannau diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Codir am gostau cyfraniadau'r Cyngor ar y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net fel y gellir lledaenu cost pensiynau dros oes waith y gweithwyr.

Mae'r gronfa'n gynllun cyflogwyr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag IAS 19.

Cyflwynodd y Cyngor hefyd gynllun cyfraniad diffiniedig, Pensiwn y Bobl, sy'n effeithiol o 1 Mai 2014 ymlaen yn ddewis amgen i ddiwallu gofynion deddfwriaeth Awtogofrestru. Cyfrifyddir am y cynllun yn unol ag IAS 19.

**e Trethiant**

Codir Treth ar Werth anadenilladwy sy'n deillio o wariant ar y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net neu caiff ei chyfalafu fel ased sefydlog lle y bo'n gymwys.

**f Dosrannu costau rheoli a gweinyddu o'r Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol**

Mae'r Cyngor yn mynd i gostau sy'n cefnogi ei weithgareddau cyffredinol a'i swyddogaethau o ran dosbarthu'r Loteri. Yn unol â'i Gyfarwyddyd Ariannol, dosranna'r Cyngor gostau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes hyn o weithgarwch gan gyfeirio at yr amser a dreuliyd ar y gweithgareddau priodol neu'r adnoddau a ddefnyddiwyd ganddynt.

**ff Offerynnau Ariannol**

Asedau ariannol: Nid yw derbyniadwyon masnach ac asedau cyfredol eraill yn cario unrhyw log ac fe'u datgenir wrth eu gwerth nominal fel y'u gostyngwyd gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadenilladwy amcangyfrifedig. Mae arian a phethau cyfwerth ag arian yn cynnwys arian parod ac arian yn y banc ac arian wedi'i gadw ar adnau yn y tymor byr ond ar delerau sy'n caniatáu ei gael ar unwaith.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill yn cario llog ac fe'u datgenir wrth eu gwerth nominal.

<b>2</b>	<b>Costau staff</b>	<b>2015</b>	<b>2014</b>
		£'000	£'000
	Cyflogau a godwyd ar weithgarwch dosbarthu'r Loteri	838	814
	Costau nawdd cymdeithasol	65	73
	Costau pensiwn eraill	180	146
	Costau asiantaeth	12	6
		<u>1,095</u>	<u>1,039</u>
	Roedd nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogwyd ar gyfartaledd ar draws y Cyngor cyfan yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn	Nifer	Nifer
	Darparu'n gweithgareddau'n uniongyrchol	11	11
	A ailgodir i ddarpariaeth uniongyrchol ac sy'n cefnogi ein gweithgareddau	64	65
	Staff asiantaeth	1	1
		<u>76</u>	<u>77</u>
	Ar sail dosrannu amser, nifer y staff (cyfwerth â llawn amser) a gyflogwyd ar gyfartaledd i ddosbarthu'r Loteri yn ystod y flwyddyn oedd:		
	Yn cefnogi'n gweithgareddau	<u>22</u>	<u>22</u>

The balance of 54 (2013/14: 55) staff were employed on general activities.

### 3 Costau pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddiant diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag IAS 19.

Fel arfer digwydd prisiad actiwaraid annibynnol o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau bob tair blynedd. Ar 1 Ebrill 2014 y daeth y prisiad diweddaraf i rym sef un o 31 Mawrth 2013. Cyflwynodd y prisiad gyfraddau cyfrannu newydd i'r Cyngor o ran cronni buddion a lefel leiafysmiol o daliadau blynyddol tuag at y diffyg hanesyddol yn y gwasanaeth ar raddfa a gynghorwyd gan actiwari'r cynllun. I gael gwared ar y diffyg, argymhelliad yr actiwari oedd cynyddu cyfraniadau'r cyflogwr dros y 9 mlynedd nesaf o gymharu â'r 13 mlynedd a ddefnyddiwyd gynt.

Gan dybio y byddai'r symiau a argymhellwyd yn cael eu talu i'r Cynllun, roedd yr actiwari o'r farn y bydd adnoddau'r cynllun fel rheol yn debygol o fodloni holl rwymedigaethau'r cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus. Dyma'r prif ragdybiaethau actiwaraid a ddefnyddiwyd: y byddai pris chwyddiant yn 2.75% y flwyddyn; y byddai codiadau cyflog yn 1.5% y flwyddyn am y 5 mlynedd cyntaf a 3.5% wedyn; y byddai codiadau pensiwn yn 2.75% y flwyddyn ar ben Pensiynau Lleiafysmiol wedi'u Gwarantu; y byddai codiadau pensiwn gohiriedig yn 2.75% y flwyddyn ar bensiynau a gronnwyd cyn Ebrill 2009 a 2.5% ar y rhai a gronnwyd ar ôl y dyddiad hwnnw a bod y ddau'n ddarostyngedig i ailbrisiadau statudol; y byddai cyfradd disgownt hanesyddol yn y gwasanaeth yn 4.8% y flwyddyn a chyfradd disgownt y dyfodol yn y gwasanaeth yn 4.8% y flwyddyn.

Cyfraniadau'r Cyngor a'i weithwyr oedd:

Ar gyfer staff sy'n ymuno â'r Cynllun:	Y Cyngor		Cyflogeion	
	2015	2014	2015	2014
ar neu cyn 31 Awst 2006	22.0%	19.3%	1.5%	1.5%
o 1 Medi 2006 hyd 31 Mawrth 2010	20.0%	17.3%	3.5%	3.5%
ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010	17.5%	14.8%	6.0%	6.0%

Roedd yn rhaid i'r Cyngor hefyd gyfrannu taliad lleiafysmiol o £48,700 tuag at y diffyg yn ystod 2014/15 (2013/14: £48,000).

Ni fu dim newidiadau i'r cyfraddau cyfrannu hyn hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.

Tâl y Cyngor hefyd gyflog pensiynadwy o 0.2% mewn perthynas â phob aelod sy'n cael yswiriant bywyd yn unig.

Dan ddeddfwriaeth Awtogofrestru bydd yn rhaid i bob gweithiwr ymuno â chynllun pensiwn cymwys heblaw bod y gweithiwr hwnnw'n optio allan yn ffurfiol. Cyflwynasom gynllun cyfraniad diffiniedig, Pensiwn y Bobl, yn ddewis amgen ar gyfer y gweithwyr nad oeddynt yn aelodau o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau.

Awtogofrestrasom bob un o'n gweithwyr cymwys ym Mhensiwn y Bobl ar 1 Mai 2014, sef ein diwrnod gweithredu swyddogol. Mae'r Cyngor yn cyfrannu 4% a'r gweithiwr 1%. Bydd y cyfraddau hyn yn newid yn y dyfodol, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

4	Costau sy'n cefnogi'n gweithgareddau	2015 £'000	2014 £'000
a	<b>Rheoli a gweinyddu: Costau gweithredu eraill</b>		
	Costau cysylltiedig â'r staff	55	75
	Seilwaith	261	236
	Hyrwyddo'r Loteri	13	11
	Costau rhedeg swyddfa	27	29
	Ffioedd proffesiynol	93	88
	TAW anadenilladwy	74	79
	Tâl a godwyd am ddefnyddio asedau sefydlog	33	48
	Cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd - Archwilio <sup>1</sup>	19	19
	Cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd – Tangroniadau yn y flwyddyn ddiwethaf	-	1
	Archwiliad mewnol	10	8
	Cyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys costau teithio a chynhaliadau yr Aelodau	16	18
		<u>601</u>	<u>612</u>

<sup>1</sup> Mae'r ffi archwilio am wasanaethau archwilio ac ni chafwyd unrhyw wasanaethau anarchwiliadol.

Dosrennir costau rheoli a gweinyddu rhwng cyfrif gweithgareddau cyffredinol a chyfrif dosbarthu'r Loteri y Cyngor gan gyfeirio at yr amser a dreuliyd ar yr adnoddau perthnasol a'r defnydd ohonynt gan y swyddogaethau priodol. Amrywia'r cyfraddau a gymhwysyd yn ôl pennawd y gwariant a'r rhanbarth daearyddol ond y tâl ar gyfartaledd a godwyd ar weithgareddau'r Loteri oedd 41% (203/14: 40%).

b	<b>Gwariant ar y celfyddydau: Costau uniongyrchol rhoi grantiau</b>	2015 £'000	2014 £'000
	Ffioedd aseswyr	23	20
	Grantiau Cymru Greadigol - treuliau'r cynllun	3	5
		<u>26</u>	<u>25</u>

5	<b>Grantiau celfyddydol eraill</b>	2015 £'000	2014 £'000
	Teithio ar Draws Ffiniau	150	150
	Grantiau Heb Ffiniau mewn cysylltiad â Chyngor Celfyddydau Lloegr	120	-
		<u>270</u>	<u>150</u>

6	<b>Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol</b>	2015 £'000	2014 £'000
	Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar 1 Ebrill	20,264	20,601
	Dyrannu enillion o'r Loteri	18,031	16,892
	Incwm buddsoddi derbyniadwy	79	78
	Ad-daliad o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd	1,487	-
	Elw/(colled) nas gwiredwyd ar fuddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn	-	(290)
	A dynnwyd i lawr yn y flwyddyn	(17,503)	(17,017)
	Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth	<u>22,358</u>	<u>20,264</u>

Gallai'r balans ar 31 Mawrth 2015 yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol newid gan nad yw'r archwiliad o'r Gronfa wedi'i gwblhau eto. Adlewyrchir unrhyw addasiadau sy'n deillio o'r archwiliad hwnnw yng nghyfrifon 2015/16 y Cyngor.

7	Derbyniadwyon masnach ac eraill	2015	2014
		£'000	(a ailddatganwyd £'000)
a	Asedau anghyfredol		
	Dadansoddiad yn ôl math		
	Derbyniadwyon eraill	<u>150</u>	<u>150</u>
	Balansau yn y llywodraeth		
	Balansau gyda chyrrff y tu allan i'r llywodraeth	<u>150</u>	<u>150</u>
b	Asedau cyfredol		
	Dadansoddiad yn ôl math		
	Yn ddyledus o gyfrif Gweithgareddau Cyffredinol		
	Cyngor Celfyddydau Cymru	-	38
	Grantiau adenilladwy	5	63
	Tynnu darpariaeth Benodol ar gyfer dyledion amheus	(4)	(24)
		<u>1</u>	<u>77</u>
	Balansau yn y llywodraeth		
	Balansau gyda chyrrff llywodraeth ganolog eraill	-	38
	Balansau gyda chyrrff y tu allan i'r llywodraeth	1	39
		<u>1</u>	<u>77</u>
8	Taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill – symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn	2015	2014
		£'000	(a ailddatganwyd £'000)
a	Dadansoddiad yn ôl math		
	Masnach a thaladwyon eraill:		
	Taladwyon masnach	-	-
	Yn ddyledus i gyfrif Gweithgareddau Cyffredinol		
	Cyngor Celfyddydau Cymru <sup>1</sup>	191	243
	Croniadau ac incwm gohiriedig	25	19
	<i>Is-gyfanswm: Taladwyon masnach ac eraill</i>	<u>216</u>	<u>262</u>
	Rhwymedigaethau eraill:		
	Dosbarthwyr dirprwyedig <sup>2</sup>	884	462
	Grantiau (nodyn 9)	14,969	14,299
	<i>Is-gyfanswm: Rhwymedigaethau eraill</i>	<u>15,853</u>	<u>14,761</u>
	Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol	<u>16,069</u>	<u>15,003</u>

			2015	2014
			(a ailddatganwyd)	
			£'000	£'000
1	Cynnwys y swm sy'n ddyledus i gyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru:			
	Ailgodi costau a ddosrannwyd			
	- Staff		107	136
	- Gorbenion		51	59
	- Tâl a godwyd am ddefnyddio asedau		33	4
			<u>191</u>	<u>243</u>
2	Dirprwyodd y Cyngor dirprwyo arian y Loteri (nodyn 11) i'r dosbarthwyr canlynol:			
	Arian heb eu tynnu i lawr ar 1 Ebrill			
	- Ffilm Cymru (ar gyfer ffilm)		677	462
	- BBC Cymru (ar gyfer y cynllun Gorwelion)		150	-
	- Llenyddiaeth Cymru (ar gyfer bwrsariau awduron)		57	-
			<u>884</u>	<u>462</u>
b	Balansau yn y llywodraeth			
	Balansau gyda chyrrff llywodraeth ganolog		198	266
	Balansau gydag awdurdodau lleol		3,575	3,709
	Balansau gyda chyrrff GIG		55	55
	Balansau gyda chorfforaethau cyhoeddus		150	-
	<i>Is-gyfanswm: Balansau yn y llywodraeth</i>		<u>3,978</u>	<u>4,030</u>
	Balansau gyda chyrrff y tu allan i'r llywodraeth		12,091	10,993
	Cyfanswm y credydwyd		<u>16,069</u>	<u>15,023</u>
9	Grantiau		2015	2014
			(a ailddatganwyd)	
